BTPA
British Transport Police Authority

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026



HC 370
SG/2026/140

CRONFA'R HEDDLU TRAFNIDIAETH PRYDEINIG

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026

Cyflwynwyd i Senedd y DU yn unol ag Atodlen 4 i Ddeddf Diogelwch Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 9 Gorffennaf 2026.

HC 370

SG/2026/140

© Hawlfraint y Goron **2026**

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir fel arall.

Er mwyn gweld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud â'r cyhoeddiad hwn atom yn British Transport Police Authority, 200 Buckingham Palace Road, London SW1W 9TJ

ISBN: 978-1-5286-6842-2

E03619359 07/26

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o ffeibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi

Cynnwys

Adroddiad Perfformiad 2

Trosolwg o'r Perfformiad **3**

Datganiad y Cadeirydd 3

Amdanom ni: Trosolwg Strategol 5

Prif bwyntiau am Berfformiad 7

Crynodeb o Berfformiad **8**

Crynodeb o Berfformiad 9

Dadansoddiad Ariannol 20

Adroddiad Cynaliadwyedd 23

Adroddiad Atebolrwydd 40

Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol **41**

Adroddiad y Cyfarwyddwyr 42

Aelodau'r Awdurdod 46

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu 58

Datganiad Llywodraethu 60

Prif Risgiau ac Ansicrwydd 67

Adroddiad Taliadau **77**

Adroddiad Atebolrwydd Seneddol ac Archwilio **91**

Colledion a Thaliadau arbennig (archwiliedig) 91

Tystysgrif ac Adroddiad Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Dau Dŷ Senedd y DU 92

Adroddiad Ariannol 98

Adroddiad Perfformiad



Trosolwg o'r Perfformiad



Datganiad y Cadeirydd

Mae'r adroddiad a chyfrifon canlynol yn rhoi trosolwg o gyflawniadau'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig (BTP) dros y flwyddyn ddiwethaf o ran cyflawni'r amcanion a bennwyd gan Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig (BTPA)

Fel Cadeirydd Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, mae'n bleser gennyf rannu ein hadroddiad ar berfformiad â chi. Mae'n disgrifio sut mae'r Heddlu (BTP) a'r Awdurdod (BTPA) wedi gweithio gyda'i gilydd yn ystod 2025/26 i ddiogelu a chefnogi'r rhai sy'n gweithio ac yn teithio ar ein rheilffordd.

Ers i mi ymgymryd â rôl y Cadeirydd ym mis Mawrth 2026, bu'n fraint dod i adnabod yn well swyddogion yr heddlu, swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu, y staff a'r gwirfoddolwyr ledled y wlad sy'n ymroi i sicrhau diogelwch a pherfformiad y rhwydwaith. Mae'r rhain yn swyddi anodd, sy'n gofyn am broffesiynoldeb, uniondeb a gofal. Mae'n bleser ac yn anrhydedd gweithio gyda nhw.

O dan arweinyddiaeth fy rhagflaenydd, Ron Barclay-Smith, cytunwyd ar setliad ariannol amlflwydd ar gyfer BTP yn 2025/26 – y tro cyntaf i hyn ddigwydd ym maes plismona. Mae'r diwygiad pwysig hwn yn rhoi'r sefydlogrwydd sydd ei angen ar yr Awdurdod a'r Heddlu i ddatblygu a chyflawni cynlluniau credadwy ar gyfer yr Heddlu er mwyn gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd. Bu arloesi o'r fath yn bosibl oherwydd diwylliant cryfach o gydweithio â'r sector a wasanaethwn, gan roi mwy o eglurder ynglŷn â'r hyn sydd ei angen ar y diwydiant rheilffyrdd a'i gwsmeriaid a'r hyn y maent yn dymuno ei weld gan ei heddlu.

Yn 2025/26 hefyd cyhoeddwyd Strategaeth Gwarchodwyr y Rheilffyrdd newydd gennym ar gyfer 2026-29. Roeddem yn falch o nodi bod llawer o'n partneriaid – yn y diwydiant, y llywodraeth, a maes plismona – wedi ein helpu i lunio'r strategaeth hon. Mae'n cynnwys rhai ymrwymiadau clir ac uchelgeisiol a byddant yn ein dwyn i gyfrif am eu cyflawni, a hynny'n gwbl briodol.

Mae gennym ni, BTPA a BTP, rôl bwysig i'w chwarae i gefnogi uchelgeisiau'r llywodraeth ar gyfer diwygio'r rheilffyrdd. Ni all y rheilffyrdd fod yn llwyddiannus, yn enwedig i'w defnyddwyr benywaidd a'u darpar ddefnyddwyr, oni bai eu bod yn amlwg yn ddiogel. Mae arweinyddiaeth BTP i fynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod a Merched wedi bod yn gyflawniad pwysig yn 2025/26 ond mae cymaint mwy i'w wneud o hyd.

Yn ystod 2025/26, cawsom ein hatgoffa dro ar ôl tro am yr arbenigedd hollbwysig a gynigir gan BTP wrth ymdrin â throseddu ar y rheilffyrdd a chefnogi gwydnwch gweithredol. Gwnaeth y digwyddiadau trasig yn Huntingdon ym mis Tachwedd 2025 amlygu'r heriau unigryw sy'n gysylltiedig ag ymdrin â throseddau difrifol mewn amgylchedd rheilffyrdd. Ond bob dydd, mae cydweithwyr BTP yn wynebu heriau cymhleth o ran tresmasu, cefnogi pobl agored i niwed ar y rheilffyrdd, trin y rhai sydd, yn anffodus, yn colli eu bywydau ar y cledrau ag urddas a chysylltu â dioddefwyr mewn ffordd a all wneud eu rhyngweithio cyntaf un â'r heddlu yn hygyrch ac yn syml.

"Yn ystod 2025/26, cawsom ein hatgoffa dro ar ôl tro am yr arbenigedd hollbwysig a gynigir gan BTP wrth ymdrin â throseddu ar y rheilffyrdd a chefnogi gwydnwch gweithredol"

Dyma'r gweithgareddau sy'n golygu mai gwarchodwyr gwirioneddol y rheilffyrdd yw BTP.

Tricia Hayes
Cadeirydd



Amdanom ni: Trosolwg Strategol

Pwy ydym ni

Mae Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn gorff cyhoeddus anadrannol gweithredol o dan yr Adran Drafnidiaeth a sefydlwyd ar 1 Gorffennaf 2004 o dan Ddeddf Diogelwch Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003.

Yr hyn rydym yn ei wneud

Corff annibynnol ydym, sy'n gyfrifol am oruchwylio gwaith yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig – yr heddlu penodedig ar gyfer y rheilffyrdd sy'n cwmpasu Cymru, Lloegr a'r Alban. Roedd y nifer o Aelodau BTPA yn amrywio rhwng 10 a 15 drwy gydol 2025/26, ac roeddent yn cynnig gwybodaeth a phrofiad o faterion sy'n ymwneud â theithwyr, y diwydiant rheilffyrdd a chyflogeion y rheilffyrdd. Ar hyn o bryd mae'r Aelodau yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn i bennu strategaeth BTP, cynlluniau ariannol tymor canolig a chyllidebau blynyddol, monitro ei weithrediadau a dyrannu cyllid. Mae'r Aelodau hefyd yn cynnal busnes ategol drwy bwyllgorau a gweithgorau. Mae'r strwythur presennol (ar 31 Mawrth 2026) yn cynnwys:

- **Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg**
- **Y Pwyllgor Penodiadau, Cydnabyddiaeth ac Arfarnu**
- **Y Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio**
- **Y Pwyllgor Cyllid, Cyfreithlondeb a Pherfformiad**
- **Pwyllgor Plismona Rheilffyrdd yr Alban**
- **Y Gweithgor Pensiynau**
- **Y Panel Adolygu Cwynion**
- **Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant**

Ein gweledigaeth

Heddlu o'r radd flaenaf yr ymddiriedir ynddo i ddarparu rheilffyrdd diogel a dibynadwy.

Ein cenhadaeth

Gweithio gyda'n gilydd i ddiogelu cymuned y rheilffyrdd, gan greu amgylchedd gelyniaethus i droseddu.

Ein huchelgais a'n hamcanion

Mae Strategaeth 2022-27 yn nodi ein hamcanion strategol, sef:

- Atal troseddu a diogelu er mwyn **lleihau'r tebygolrwydd y bydd pobl yn cael niweidio** ar y rheilffyrdd
- **Targedu ein hymdrechion plismona arbenigol** i sicrhau bod llai o bobi yn **dioddef y troseddau mwyaf niweidiol**
- Arloesi a **chydweithio â'n partneriaid** i leihau aflonyddwch
- Ennill **ymddiriedaeth a hyder** teithwyr a staff y rheilffyrdd i drechu troseddoldeb gyda'n gilydd
- **Cynhyrchu gwerth** trwy dechnoleg a buddsoddiadau cynaliadwy, gan addasu i gwrdd â'r dyfodol
- **Adeiladu Heddlu modern a chynhwysol** lle mae'r adnoddau angenrheidiol gan ein pobl ac maen nhw'n derbyn arweiniad a gofal da ac yn adlewyrchu elfennau gorau ein cymunedau.

Drwy gydol y flwyddyn hon, rydym wedi bod yn gweithio ar adnewyddu'r strategaeth, ac mae set ddiwygiedig o amcanion wedi cael ei chyhoeddi.

Disgrifir ein prif risgiau ac ansicrwydd yn yr Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol.

Ein gwerthoedd

Mae gwerthoedd yn hanfodol i'r ffordd rydym yn gweithio gyda'n gilydd, yn gwasanaethu'r cyhoedd ac yn ymgysylltu â phartneriaid. Gwerthoedd yw sylfeini heddlu yr ymddiriedir ynddo, sy'n cael ei barchu ac y teimlir bod ei weithredoedd plismona yn gyfreithlon. Mae ein pobl wedi ystyried ein gwerthoedd yn ofalus drwy ymgysylltu â phob rhan o BTP. Bydd ein gwerthoedd yn ein galluogi i ddangos bob dydd mai ni AR EIN GORAU ydym.

Mae ein gwerthoedd fel a ganlyn:

- Rydym yn falch o amddiffyn
- Rydym yn gofalu
- Rydym yn un BTP
- Rydyn ni'n gwneud y peth iawn
- Rydym yn ymdrechu i fod yn well bob dydd



Prif bwyntiau am Berfformiad

Mae **71%** o ymatebwyr yn **teimlo'n ddiogel** wrth deithio ar y rhwydwaith

Roedd **98%** o'r dioddefwyr a holwyd yn teimlo eu bod **wedi cael eu trin â pharch**

Cyfradd datrys o 21.8% ar gyfer troseddau rhywiol VAWG

771 **o ymyriadau gan BTP a wnaeth achub bywydau** yn 2025/26

+29% **Llinellau Cyffuriau: 29% yn fwy o arfau wedi'u hatafaelu** yn 2025/26 o gymharu â 2024/25


5.4% yn fwy o droseddau treisgar a achosodd anaf **wedi'u datrys** yn 2025/26

£0.13 Mae BTP yn costio £0.13 fesul taith teithiwr

VAWG Y Grŵp Cynghori Annibynnol Ieuenctid wedi'i sefydlu

Crynodeb o Berfformiad

Mae asesiad lefel uchel o berfformiad yn erbyn pob un o'r Amcanion Strategol yn dilyn. Ceir adroddiad manylach ar yr hyn a gyflawnwyd gan BTP yn 2025/26 yn adroddiad blynyddol y Prif Gwnstabl i BTPA.



Crynodeb o Berfformiad

1. Atal troseddau a diogelu er mwyn lleihau'r tebygolrwydd y bydd pobl yn cael eu niweidio ar y rheilffyrdd

Troseddau fesul miliwn o deithiau teithwyr:

29.9 yn 2025/26

(2024/25: 27.8)

Cofnododd BTP gynnydd o 10.8% yn nifer y troseddau yn 2025/26 o gymharu â 2024/25. Er iddo ddatrys mwy o droseddau yn gyffredinol, gostyngodd y gyfradd ddatrys o 11.9% yn 2024/25 i 11.4% yn 2025/26.

Cynnydd yn 2025/26

Cynyddodd nifer y teithiau ar y rheilffyrdd ym Mhrydain Fawr 6.4% yn Ch1-3 2025/26 o gymharu â'r un cyfnod yn 2024/25[1]. Dros y flwyddyn lawn, cynyddodd y risg o fod yn ddioddefwr trosedd i 29.9 o droseddau fesul miliwn o deithiau, ond parhaodd yn isel iawn (ailddatganiad 2024/25: 27.8)[2].

Cynyddodd nifer y troseddau a gofnodwyd 10.8%, o 84,578 yn 2024/25 i 93,717 yn 2025/26. O'r rhain, datrysodd BTP 10,646 o droseddau (2024/25: 10,032) ond gostyngodd y gyfradd ddatrys o 11.9% i 11.4%. Gweler Ffigur 1 sy'n dangos tuedd tymor hwy ar gyfer troseddau a gofnodwyd ac a ddatryswyd. Mae'r cynnydd yn y galw yn fwy na'r gwelliannau mewn canlyniadau wedi'u datrys.

Mae BTP yn ceisio gwella canlyniadau barnwrol yn barhaus er mwyn atal troseddwyr a'u dwyn gerbron llys. Mae hyn yn cynnwys gwella'r defnydd o Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys, lle rydym yn un o 17 o heddluoedd sy'n treialu Rhybudd Amodol o Drosedd Gasineb i hwyluso ymyriadau cynharach.

O dan yr amcan strategol hwn, mae BTP yn ceisio atal troseddau mynych, fel dwyn eiddo teithwyr, ac ymddygiad gwrthgymdeithasol drwy atal troseddau drwy ddylunio. Mae Uned Dylunio i Atal Troseddau'r Heddlu wedi cyflawni 2,178 o aseiniadau atal troseddau, gan gynnwys 130 o brosiectau pensaernïol, 383 o ymweliadau safle ar ôl hunanladdiad neu farwolaeth arall, 219 o achrediadau gorsaf ddiogel ac adolygiadau o 25 o bobl mewn sefyllfa ansicr[3]. Mae'r gwaith yn parhau i geisio cymorth gan bartneriaid yn y diwydiant i ymateb i argymhellion yr adolygiad.

Dwyn eiddo teithwyr yw'r math mwyaf o drosedd o hyd (24.6%) ond mae wedi gostwng yn sylweddol o 9.2% y flwyddyn hon (2,333 yn llai o droseddau wedi'u cofnodi). Mae'r gwelliant hwn yn adlewyrchu gweithgarwch atal wedi'i dargedu ar y cyd â phartneriaid yn y diwydiant, gan gynnwys cyhoeddiadau diogelwch ar Reilffordd Danddaearol Llundain gan swyddogion BTP sy'n gwasanaethu, patrolau gweladwy iawn ar adegau prysur a defnyddio gwell defnydd o ddata i nodi troseddwyr mynych.

Yn dilyn cynnydd sylweddol mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol yn 2024/25, ymsefydlogodd nifer y digwyddiadau yn 2025/26 (gostyngiad o 0.8% i 40,276). Gostyngodd nifer y digwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol a oedd yn gofyn am ymateb ar unwaith a blaenoriaethol gan BTP 8.5% (10,056 o ddigwyddiadau) hefyd.

---

[1] Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd (2026) Data Chwarterol Teithiau Teithwyr. Noder bod cyfyngiadau'r data hwn yn cynnwys effaith tocynnau 'arbed hollt'. Hefyd, nid yw'r data yn cynnwys teithiau TfL ac, ers 2022, mae'r data wedi dechrau cynnwys tocynnau Llinell Elizabeth. Cyrchwyd o https://dataportal.orr.gov.uk/statistics/usage/passenger-rail-usage/#:~:text=A%20total%20of%20466%20million,year%20(October%20to%20December%202024). ar 26 Mai 2026.

[2] Mae'r newid yn nifer y troseddau fesul miliwn o deithiau yn adlewyrchu achos blaenorol o gyfrif dwbl, yn benodol mewn perthynas â ffigurau Llinell Elizabeth. Mae'r mater hwn wedi'i gywiro yn y cylch adrodd diweddaraf, gan arwain at gynnydd mewn cyfraddau troseddu fesul taith oi gymharu â ffigurau blaenorol a gyhoeddwyd.


[3] Yn 2024/25, cyflawnodd yr Uned 2,659 o ddarnau o atal troseddau, gan gynnwys 117 o brosiectau pensaernïol, 429 o ymweliadau safle ar ôl hunanladdiad neu farwolaeth arall, 637 o achrediadau gorsaf ddiogel ac adolygiadau o 54 o bobl mewn sefyllfa ansicr. Gweithredwyd ar 69% o ystyriaethau PISV gan BTP.

Yn 2025/26, cyflawnodd swyddogion 771 o ymyriadau achub bywyd (2024/25: 760) a 5,382 o ymyriadau atal hunanladdiad ac iechyd meddwl (2024/25: 5,350). Mae'r lefel estynedig hon o ymyriadau yn dangos bod gweithgarwch rheng flaen yn cael ei flaenoriaethu'n effeithiol mewn meysydd mawr eu heffaith.

Er mwyn ymateb i'r cynnydd yn nifer y digwyddiadau sy'n ymwneud ag iechyd meddwl, mae BTP yn bwrw ymlaen â'r gwaith o gyflawni model "O Argyfwng i Ofal" i wella llwybrau gofal ar gyfer unigolion agored i niwed. Mae hyn yn ychwanegol at weithgareddau parhaus y Tîm Lleihau Niwed a gyflawnir mewn partneriaeth â'r diwydiant (gweler tudalen 13).

Yn anffodus, cofnododd BTP 393 o farwolaethau ar y rhwydwaith rheilffyrdd yn 2025/26 (2024/25: 439). Roedd hyn 10% yn llai nag yn 2024/25 ac mae'n debyg ei fod yn adlewyrchu ymdrechion parhaus i atal tresmasu ac ymyrryd yn gynnar.

Ffigur 1: Troseddau a gofnodwyd a chyfraddau datrys



2. Targedu ein hymdrechion i sicrhau bod llai o bobl yn dioddef y troseddau mwyaf difrifol

5.4% Cynnydd yn nifer y **troseddau** 'trais a achosodd anaf' wedi'u datrys

Cofnododd BTP 3.3% yn fwy o droseddau lladrad a 4.9% yn fwy o droseddau trais difrifol yn 2025/26 nag yn 2024/25.

Cynnydd yn 2025/26

Parhaodd BTP i flaenoriaethu'r mathau mwyaf niweidiol o droseddau drwy ymgyrchoedd wedi'u targedu a gweithrediadau a arweinir gan gudd-wybodaeth sydd â'r nod o leihau troseddau mawr, difrifol a chyfundrefnol a lleihau camfanteisio. Er gwaethaf y ffocws hwn, cynyddodd nifer y troseddau difrifol yn gyffredinol.

Lladdiadau wedi'u lleihau i 3 trosedd yn 2025/26 (2024/25: 9), gan ddychwelyd i lefelau sylfaenol blaenorol. Parhaodd timau Troseddau Mawr a Chyfundrefnol Difrifol BTP i ymdrin ag ymchwiliadau cymhleth yn effeithiol.

Cynyddodd troseddau lladrad 3.3% i 1,737 (2024/25: 1,681) gyda llawer o'r rhain yn erbyn busnesau manwerthu. Yn dilyn cynnydd yn hanner cyntaf y flwyddyn, gwellodd y perfformiad o fis Hydref, gyda gostyngiadau yn y rhan fwyaf o'r misoedd dilynol. Fodd bynnag, ni wnaeth y mentrau atal lladrad wedi'u targedu wrthbwyso'n llawn y cynnydd cynharach yn ystod y flwyddyn. Gostyngodd y gyfradd ddatrys o 13.9% i 11.5%, sy'n dangos bod heriau o hyd yn y maes hwn.

Cynyddodd nifer y troseddau trais a achosodd anaf 4.9% i 4,068 (2024/25: 3,877). Datrysodd BTP 950 o droseddau (2024/25: 901), sef cynnydd o 5.4%, a gwelliant ymylol yn y gyfradd ddatrys i 23.4% (2025/26: 23.2%). Mae hyn yn dangos cynnydd o ran canlyniadau er gwaethaf y galw cynyddol.

Parhaodd trais yn erbyn menywod a merched (VAWG) yn flaenoriaeth strategol a daeth yn un o flaenoriaethu Llywodraeth y DU yn 2025/26, yn sgil lansio *'Freedom from violence and abuse: a cross-government strategy to build a safer society for women and girls'* ym mis Rhagfyr 2025[4].

Cynyddodd cyfanswm y troseddau sy'n ymwneud â VAWG 17.6% i 14,249. Mewn ymateb, cryfhaodd BTP y ffordd roedd yn gweithredu drwy lansio strategaeth draws-ddiwydiannol ar y cyd â Grŵp Cyflawni'r Rheilffyrdd a sicrhau buddsoddiad ar gyfer tasglu VAWG pwrpasol, a fydd yn weithredol o fis Ebrill 2026. Mae hwn yn ddull cyfannol o ymdrin â VAWG, sef y cyntaf o'i fath ym maes plismona yn y DU.

Gostyngodd nifer y troseddau rhywiol VAWG 5.8% (o 2,018 i 1,900), a gwellodd y gyfradd ddatrys o 18.6% i 21.8%. Ategwyd hyn gan ostyngiad o 20.1% yng nghyfraddau tynnu'n ôl dioddefwyr, sy'n adlewyrchu gwell ymgysylltu a chymorth i ddioddefwyr.

[4] Y Swyddfa Gartref (2025) 'Freedom from violence and abuse: a cross-government strategy to build a safer society for women and girls'. Cyrchwyd o https://www.gov.uk/government/publications/freedom-from-violence-and-abuse-a-cross-government-strategy/freedom-from-violence-and-abuse-a-cross-government-strategy-to-build-a-safer-society-for-women-and-girls-accessible ar 26 Mai 2026.

Mae BTP yn parhau i annog pobl i roi gwybod am droseddau rhywiol drwy sianeli hygyrch, gan gynnwys y gwasanaeth testun disylw '61016', gan gydnabod na roddir gwybod am bob achos o ymddygiad rhywiol digroeso o hyd .

Bu gweithgarwch i fynd i'r afael â Llinellau Cyffuriau a chamfanteisio cysylltiedig yn ffocws allweddol o hyd. Cynhaliodd y Tasglu Llinellau Cyffuriau 218 o ymgyrchoedd ar y cyd, a arweiniodd at 645 o arestiadau, 228 o achosion o atafaelu arfau, a 787 o achosion o atafaelu cyffuriau[5]. Roedd diogelu yn parhau i fod yn ganolog i'r gwaith hwn, gyda 277 o atgyfeiriadau wedi'u gwneud ar gyfer unigolion agored i niwed a saith cyhuddiad o gaethwasiaeth fodern wedi'u sicrhau[6].



[5] 2024/25: 177 o arfau wedi'u hatafaelu; 684 o achosion o atafaelu cyffuriau

[6] 2024/25: 230 o atgyfeiriadau diogelu ar gyfer pobl ifanc a 14 cyhuddiad o gaethwasiaeth fodern wedi'u sicrhau

3. Arloesi a chydweithio â'n rhanddeiliaid i leihau achosion o darfu

Yr amser a gymerir ar gyfartaledd i ymdrin â marwolaethau ar y rheilffyrdd nad ydynt yn amheus:

99 munud

(2024/25: 101 munud)

Cynyddodd nifer yr achosion o darfu a oedd yn gysylltiedig â'r heddlu 3.0% yn 2025/26, a gostyngodd munudau o oedi sylfaenol ychydig (0.7%) i 27 munud fesul digwyddiad.

Cynnydd yn 2025/26

Mae BTP yn parhau i weithio'n agos gyda phartneriaid i leihau achosion o darfu sy'n gysylltiedig â'r heddlu, gwella ymatebion i ddigwyddiadau ar y rhwydwaith rheilffyrdd ac archwilio technoleg newydd a chyfleoedd i rannu data ar y cyd.

Cynyddodd nifer yr achosion o darfu a oedd yn gysylltiedig â'r heddlu i 33,591 (2024/25: 32,616), gyda thresmasu yn cyfrannu'n fawr at darfu ac oedi. Er gwaethaf y cynnydd hwn yn y galw, gostyngodd yr oedi cynradd cyfartalog fesul digwyddiad o 28.0 i 27.0 munud. Mae hyn yn dangos bod cydweithio wedi gwella'r ffordd y caiff digwyddiadau eu rheoli a'u datrys.

Fodd bynnag, cynyddodd cyfanswm y munudau o oedi 6.9%, gan arwain at gynnydd yng nghyfanswm yr oedi fesul digwyddiad (o 71 i 74 munud). Mae hyn yn adlewyrchu cymhlethdod a difrifoldeb rhai digwyddiadau, sy'n parhau i gael effaith ehangach ar y rhwydwaith. Gostyngodd yr amser a gymerwyd ar gyfartaledd i ymdrin â marwolaethau nad oeddent yn amheus ac adfer gwasanaeth ar y rheilffordd ychydig i 99 munud (2024/25: 101 munud). Mae ffactorau daearyddol yn parhau i ddylanwadu ar amseroedd ymateb, gan gynnwys yr amser sydd ei angen i swyddogion gyrraedd lleoliadau digwyddiadau.

Mae arloesedd yn parhau i fod yn ffactor allweddol sy'n galluogi gwella perfformiad. Mae BTP wedi bod ar flaen y gad o ran y gallu i ddefnyddio dronau Tu Hwnt i Linell Weledol, mewn partneriaeth â'r diwydiant rheilffyrdd. Mae'r dechnoleg hon bellach ar waith mewn sawl lleoliad, sef y tro cyntaf iddi gael ei defnyddio yng nghyd-destun plismona'r DU. Mae arwyddion cynnar yn dangos llai o darfu a chostau, yn enwedig digwyddiadau sy'n ymwneud â thresmasu a seilwaith, drwy ailagor llinellau yn gyflymach. Mae'r gallu hwn bellach wedi'i droi'n rhaglen amlflwydd a gefnogir gan gyllid sylweddol gan bartneriaid.

Mae tresmasu yn parhau i fod yn ffactor sylweddol o ran tarfu, yn enwedig achosion sy'n cynnwys plant a phobl ifanc ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae BTP yn cydweithio â Network Rail, Grŵp Cyflawni'r Rheilffyrdd, cwmnïau trenau ac elusennau, ochr yn ochr ag ymgysylltu cymunedol wedi'i dargedu, gan gynnwys mentrau addysg mewn ysgolion, i fynd i'r afael â hyn.

Mae Tîm Lleihau Niwed (HaRT) BTP yn parhau i chwarae rhan hollbwysig o ran atal niwed a lleihau achosion o darfu. Yn 2025/26, ymdriniodd â 255 o unigolion sy'n ymddangos yn aml ar y rhwydwaith. Ers iddo gael ei gyflwyno yn 2019, mae'r tîm wedi sicrhau canlyniadau o ymyriadau dros gyfnod estynedig, gan gynnwys gostyngiad o 53% yn nifer y bobl a gadwyd yn gaeth oherwydd iechyd meddwl, gostyngiad o 52% yn nifer yr ymyriadau achub bywyd, gostyngiad o 69% yn nifer y munudau o oedi cysylltiedig, a gostyngiad o 75% mewn costau sy'n gysylltiedig â tharfu.[7]

[7] Nifer y bobl a gadwyd yn gaeth oherwydd iechyd meddwl gan BTP: wedi gostwng o 340 i 161, ymyriadau achub bywyd: wedi gostwng o 546 i 260, o funudau o oedi: wedi gostwng o 120,949 i 37,583 o funudau, costau tarfu ar y rheilffyrdd yn dilyn ymyrraeth gan y Tîm Lleihau Niwed (HaRT): wedi gostwng o £7,783,435.49 i £1,985,213.06. Mae'r ffigurau yn cymharu achosion o darfu gan unigolion cyn bod BTP yn rheoli'r achos ag achosion o darfu a gofnodwyd ar ôl i rywun gael ei ryddhau gan y Tîm Lleihau Niwed (HaRT).

4. Meithrin ymddiriedaeth a hyder teithwyr a staff rheilffyrdd i drechu troseddoldeb gyda'n gilydd

Mae Swyddogion BTP yn cadw teithwyr yn ddiogel wrth iddynt deithio ar y rhwydwaith rheilffyrdd"[9]

76%

"Rhaid i'n huniondeb, ein moeseg a'n hymddygiad fod yn ddiamheuol wrth i ni fyw yn unol â'n gwerthoedd" Prif Gwnstabl Lucy D'Orsi CVO QPM

Cynnydd yn 2025/26

Ymddiriedaeth a hyder yw conglfaen plismona. O dan yr amcan strategol hwn, nod BTP oedd sicrhau gwell atebolrwydd a boddhad i'r cymunedau a wasanaethwn.

Yn 2025/26, mae data arolwg yn dangos bod 71% o deithwyr yn teimlo'n ddiogel yn teithio ar y rheilffordd (gweler Ffigur 2)[8], ac mae 76% yn credu bod swyddogion BTP yn eu cadw'n ddiogel wrth deithio[9]. Ymddygiad gwrthgymdeithasol yw'r pryder mwyaf ymhlith teithwyr o hyd.

Mae boddhad dioddefwyr yn parhau i fod yn uchel, gyda 98% o ddioddefwyr a holwyd yn 2025/26 yn nodi eu bod wedi cael eu trin â pharch, a oedd yn gyson â'r flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn adlewyrchu ffocws BTP o hyd ar ymgysylltu â dioddefwyr ac ansawdd gwasanaeth.

Mae adborth gan staff y rheilffyrdd yn rhoi darlun mwy cymysg. Er bod canfyddiadau o degwch a pharch wedi gwella i 69% (2024: 67%), dywedodd 67% o'r ymatebwyr nad yw BTP ar gael pan fo ei angen, a oedd yn tynnu sylw at yr heriau o hyd o ran sicrhau gweledded ar draws rhwydwaith sydd wedi'i wasgaru'n ddaearyddol. Ymddygiad gwrthgymdeithasol yw'r mater a grybwyllir amlaf sy'n effeithio ar staff o hyd.


Mae BTP yn parhau i flaenoriaethu tryloywder ac atebolrwydd wrth ddefnyddio pwerau'r heddlu oherwydd yr effaith y gall pwerau o'r fath ei chael ar gymunedau, ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd. Cefnogir llywodraethu mewnol gan ystod o fecanweithiau craffu allanol, gan gynnwys Grwpiau Cynghori Annibynnol a phaneli cymunedol arbenigol. Yn 2025/26, cyflwynwyd Grŵp Cynghori Annibynnol ar Ieuenctid i gryfhau'r ffordd yr ymgysylltir â phobl ifanc a chwyddo eu llais.

Mae lefelau cwynion yn parhau i fod yn isel iawn o gymharu â heddluoedd eraill, gyda 175 o gwynion fesul 1,000 o gyflogeion (cyfartaledd cenedlaethol: 432). Mae goruchwyliaeth annibynnol yn parhau i fod yn gadarn. O 54 o geisiadau am adolygiad a ystyriwyd gan Banel BTPA yn ystod y flwyddyn, dim ond pedwar a gadarnhawyd. Mae hyn yn dangos bod Adran Safonau Proffesiynol BTP wedi ymdrin â'r mwyafrif o'r achosion yn briodol ac yn gymesur.

[8] Mae'r siart yn dangos data cymharol am deithwyr yn teimlo'n ddiogel, ar gyfer yr un cyfnod arolygu (Chwefror-Mawrth) yn y tair blynedd ers i'r ymchwil hon gan asiantaeth allanol ddechrau.

[9] Yn yr un cyfnod yn 2024/25, roedd 76% o'r ymatebwyr o'r farn bod swyddogion BTP yn eu cadw'n ddiogel.

Ffigur 2: Gan feddwl am eich diogelwch personol, pa mor ddiogel rydych chi'n teimlo wrth deithio ar y rhwydwaith rheilffyrdd?



5. Cynhyrchu gwerth am arian drwy fanteisio ar dechnoleg, gan ymaddasu at y dyfodol

£5.6m
Arbedion y gellir eu troi'n arian parod a wireddwyd yn 2025/26

Llwyddodd BTP i gadw at gost isel fesul taith (£0.13) a sicrhau arbedion effeithlonrwydd gwerth £5.6m a buddsoddi mewn technoleg i gefnogi cynhyrchiant a galw yn y dyfodol.

Cynnydd yn 2025/26

Yn ystod blwyddyn olaf y Cynllun Strategol presennol, parhaodd BTP i reoli'r galw cynyddol, cymhlethdod gweithredol a sicrhau gwerth i bwrs y wlad yn ehangach. Sicrhaodd BTP arbedion y gellir eu troi'n arian parod gwerth £5.6m (2024/25: £4.1m), gan adlewyrchu ei ffocws o hyd ar effeithlonrwydd a thrawsnewid (gweler yr adran 'Sicrhau Manteision ac Arbedion Effeithlonrwydd).

Mae arbedion effeithlonrwydd 2025/26 wedi'u hangori yn y gwaith o gwblhau Model Plismona Wedi'i Optimeiddio, sef ymarfer ailosod i staff yr heddlu cyfan ac adleoli i bencadlys modern, llai o faint.

Mae'r Model Plismona Wedi'i Optimeiddio wedi gwella effeithlonrwydd o ran y defnydd o swyddogion ac wedi arwain at ddefnyddio adnoddau'n well, ac mae'r ymarfer ailosod ar gyfer y staff wedi cryfhau fforddiadwyedd yn yr hirdymor a chywirdeb gwaith cynllunio'r gweithlu. Cyflawnwyd y newidiadau i raddau helaeth drwy drosiant naturiol, gan osgoi costau diswyddo sylweddol.

Gwnaeth y penderfyniad i symud y pencadlys sicrhau budd y gellir ei droi'n arian parod gwerth dros £1.4m, ochr yn ochr â manteision ehangach gan gynnwys llai o allyriadau carbon ac amgylcheddau gwaith wedi'u moderneiddio.

Mae buddsoddiad mewn technoleg wedi cefnogi newid sefydliadol a pherfformiad gweithredol. Mae gwaith uwchraddio seilwaith craidd, gan gynnwys Windows 11 a chyflwyno dros 2,400 o liniaduron un ddyfais, wedi gwella gwydnwch, diogelwch a chynhyrchiant y gweithlu a'i gwneud yn bosibl i arbed costau drwy effeithlonrwydd yn y dyfodol. Mae gan bob swyddog ac aelod o'r staff fynediad at liniaduron personol sy'n cefnogi arferion gwaith hyblyg ac effeithiol.

Gosododd y gweithgarwch buddsoddi a newid y sylfeini ar gyfer enillion cynhyrchiant yn y dyfodol o benderfyniadau ynglŷn â digidol a data; awtomeiddio a phrosesau a hwylusir drwy ddeallusrwydd artiffisial, technoleg adnabod wynebau a thechnoleg dystiolaethol fodern. Mae BTP wedi ymateb i dwf cyflym ym maes digidol a deallusrwydd artiffisial, gyda phwyslais cryf ar broses fabwysiadu ddiogel a chyfrifol. Mae hyn wedi cynnwys datblygu polisi newydd ynglŷn â Copilot, asesiadau risg, rhoi hyfforddiant, a rhaglen o uwchsgilio mewnol ehangach. Yn 2025/26, cofnodwyd mwy na 950,000 o ryngweithiadau â Copilot. Mewn partneriaeth â'r diwydiant rheilffyrdd, dechreuodd cynlluniau peilot Adnabod Wynebau Byw ym mis Ionawr 2026 yn Llundain.

Er mwyn cefnogi'r gwaith arloesi sy'n mynd rhagddo, sefydlodd BTP ei Dîm a Bwrdd Arloesi pwrpasol cyntaf i gyflymu'r gwaith o ddatblygu a phrofi technolegau newydd. Mae cyfres o fentrau ar y gweill, a disgwylir gweld manteision o 2026/27.

Mae gallu gweithredol hefyd wedi'i wella drwy welliannau mewn achredu fforensig, mynediad symudol at systemau adnoddau dynol, a dull diwygiedig o frysbennu digwyddiadau iechyd meddwl, gan gefnogi defnydd mwy effeithiol o amser swyddogion.

Mae BTP yn parhau i gryfhau ei berfformiad o ran cynaliadwyedd, ac mae ei allyriadau nwyon tŷ gwydr wedi lleihau o flwyddyn i flwyddyn, drwy well monitro a newidiadau i'r ystad. Disgrifir hyn yn fanylach yn yr adran ar Gynaliadwyedd yn yr Adroddiad Llywodraethu.

Wrth i ni symud i'r Strategaeth ddiwygiedig, a ategir gan Gynllun Ariannol Tymor Canolig tair blynedd, bydd BTPA yn parhau i geisio gwerth am arian a gwireddu cyfleoedd i sbarduno cynhyrchiant drwy alluogi digidol cyfrifol ac arloesedd.


POLICE

6. Adeiladu Heddlu modern a chynhwysol lle mae ein pobl yn cael cyfarpar da, hyfforddiant da, eu harwain yn dda, gofal da ac yn adlewyrchu elfennau gorau ein cymunedau

101% Cynnydd yn nifer y cyflogeion sy'n perfformio orau ac sy'n dewis ymuno â 'chronfeydd talent', o gymharu â 2024/25

Mae BTP yn cydnabod bod angen parhau i ganolbwyntio ar gynrychiolaeth amrywiol ymhlith ei gyflogeion; ac mae camau cadarnhaol gan gynnwys lleihau'r bylchau cyflog rhywedd ac ethnigrwydd ymhellach yn dangos yr ymrwymiad hwn.

Cynnydd yn 2025/26

Mewn blwyddyn o newid sefydliadol sylweddol, rhoddodd BTP flaenoriaeth ar ymgysylltu â'r gweithlu ac ymatebolrwydd i adborth. Yn sgil Arolwg Pawb 2025 roedd camau gweithredu yn canolbwyntio ar wella cydnabyddiaeth, cryfhau'r ffordd y mae uwch-arweinwyr yn cyfathrebu, ac egluro llwybrau i gamu ymlaen mewn gyrfa. Ymgysylltodd sioeau teithiol uwch-arweinwyr â thros 600 o gyflogeion ledled Prydain Fawr, gan gefnogi mwy o weledded a chysylltiad drwy'r sefydliad cyfan. Mae camau pellach i olrhain a gwella ymdeimlad yn parhau ac yn cael eu monitro gan Bwyllgor Pobl a Diwylliant BTPA.

Mae cynrychiolaeth uwch na'r cyfartaledd o leiafrifoedd ethnig ymhlith swyddogion yr heddlu yn BTP, sef 11.5% (cyfartaledd cenedlaethol: 8.5%)[10]. Yn y gweithlu cyfan, cynyddodd cynrychiolaeth i 16.3% (2024/25: 15.9%). Mae cynnydd hefyd wedi cael ei wneud o ran lleihau bylchau cyflog rhywedd ac ethnigrwydd, gan adlewyrchu'r ffocws o hyd ar degwch a chynhwysiant. Gweler yr Adroddiad Cydnabyddiaeth am ddadansoddiad o'r adroddiadau hyn ar y bwlch cyflog.

Mae Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu yn parhau i fod yn ffactor allweddol sy'n sbarduno newid, ac mae hyfforddiant newydd *Policing, Race and Ethnicity* wedi cael ei roi mewn partneriaeth â'r Brifysgol Agored ac wedi'i ymgorffori mewn prosesau recriwtio a sefydlu.

Mae rhwydweithiau staff amrywiol yn meithrin ymdeimlad o berthyn, ymddiriedaeth a hyder drwy'r Heddlu cyfan. Maent yn rhoi cymorth, her a mewnwelediad sydd wedi'u gwreiddio mewn profiad bywyd, gan helpu i sicrhau bod sgyrsiau pwysig yn digwydd a bod lleisiau yn cael eu clywed. Drwy'r cymdeithasau hyn, mae BTP hefyd yn gweithio i estyn ein cyrhaeddiad y tu allan i'r sefydliad i annog pobl i roi gwybod am droseddau a digwyddiadau, meithrin cydberthnasau gwaith gwell â chymunedau a chyflwyno plismona fel llwybr gyrfa.

Mae cynrychiolaeth menywod ymhlith swyddogion yn dal i fod yn her, sef 22.9% (2024/25: 22.8%), er bod cynrychiolaeth menywod yn y gweithlu yn gyffredinol yn uwch, sef 33.8%. Mae mynd i'r afael â'r bwlch hwn yn parhau i fod yn flaenoriaeth.

Mae BTP wedi cryfhau ei ffocws ar ddatblygu talent, ac mae nifer y rhai sy'n cymryd rhan mewn 'Cronfeydd Talent' wedi mwy na dyblu yn 2025/26, sy'n dangos mwy o ddiddordeb mewn cyfleoedd datblygu gyrfa.

Mae cymorth llesiant wedi cael ei wella ymhellach yn 2025/26. Mae rhwydweithiau cymorth gan gymheiriaid yn parhau i fod yn weithredol, ac mae buddsoddiad mewn hyfforddiant arbenigol wedi parhau. Cwblhawyd y broses o bontio i wasanaethau iechyd galwedigaethol cwbl fewnol yn 2025/26, sy'n gwella mynediad at gymorth ac yn helpu i reoli absenoldeb oherwydd salwch.

[10] Ar 3 Gorffennaf 2025. Ffynhonnell: Llywodraeth Ei Mawrhydi. Cyrchwyd ar 18 Mai 2026 o: Police workforce – GOV.UK Ethnicity facts and figures

Y cyfraddau cynrychiolaeth ethnig ar gyfer yr holl gyflogeion oedd:

Pob Cyflogai	2025/26	2024/25
Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig	8.4%	8.3%
Du neu Ddu Prydeinig	4.1%	4.2%
Cymysg	3.7%	3.5%
Heb ei Nodi	3.4%	3.3%
Gwyn	80.4%	80.6%

Ar gyfer swyddogion yr heddlu, y cyfraddau Cynrychiolaeth Ethnigrwydd oedd:

Swyddogion yr Heddlu	2025/26	2024/25
Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig	5.3%	5.2%
Du neu Ddu Prydeinig	2.6%	2.6%
Cymysg	3.7%	3.4%
Heb ei Nodi	3.6%	3.7%
Gwyn	84.8%	85.2%

“Mae rhwydweithiau staff amrywiol yn meithrin ymdeimlad o berthyn, ymddiriedaeth a hyder drwy’r Heddlu cyfan.”



Dadansoddiad Ariannol

Cafwyd gwarged net o £2.02 miliwn ar gyfer y flwyddyn ariannol (2024/25: diffyg o £23.2 miliwn), y mae £7.6 miliwn ohono yn ymwneud â chredyd net ar gyfer IAS19: addasiad cyfrifyddu pensiynau Buddiannau Cyflogaeth (o'i gymharu â gwariant net o £16.1 miliwn yn 2024/25; gweler Nodyn 23). Y diffyg net wedi'i addasu ar ôl tynnu addasiad IAS19 yw £5.5 miliwn (2024/25: £7.1 miliwn).

Mae diffyg yn digwydd ar ôl yr addasiad o dan IAS19 yn bennaf oherwydd gwahaniaeth yn amseriad cydnabod incwm a gwariant i gydymffurfio â safonau cyfrifyddu a Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth.

Yr enghraifft fwyaf cyffredin o hyn yw lle mae'n rhaid i ni gydnabod cyllid oddi wrth bartïon allanol ymlaen llaw a bod y gost (er enghraifft dibrisiant) yn cael ei gwasgaru dros amser.

	Y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2023 £'000	Y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2024 £'000	Y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2025 £'000	Y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2026 £'000	Cyllideb 2026/27 £'000
Incwm	350,662	368,251	392,160	417,558	445,250
Gwariant	(457,861)	(401,600)	(415,366)	(415,535)	(432,435)
Gwarged/(diffyg) net Gan gynnwys costau pensiwn IAS19	(107,199)	(33,349)	(23,206)	2,023	12,815
Gwarged/(diffyg) net wedi'i addasu Tynnu costau pensiwn IAS19	(1,809)	(15,749)	(7,136)	(5,547)	(4,025)
Asedau Anghyfredol	98,310	91,245	285,908	396,757	N/A
Cyfanswm yr Asedau	164,740	161,306	351,736	463,433	N/A
Rhwymedigaethau Cyfredol	(65,376)	(76,289)	(81,978)	(84,352)	N/A
Rhwymedigaethau Anghyfredol	(75,128)	(38,217)	(50,076)	(49,410)	N/A
Ecwiti Trethdalwyr	24,236	(46,800)	(219,682)	(329,671)	N/A

Perfformiad Ariannol Pum Mlynedd

Mae'r tabl yn dangos ffigurau alldro ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 hyd at y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026 a'r gyllideb ar gyfer 2026/27.

Cafodd Cynllun Ariannol Tymor Canolig newydd sy'n cwmpasu'r cyfnod o 2026/27 hyd at 2028/29 ei adolygu a'i gymeradwyo gan yr Awdurdod yn ystod 2025/26.

Mae'r tabl yn dangos mai'r elfen anwadal allweddol o'r incwm a'r gwariant blynyddol yw costau pensiwn IAS19. Felly, darparwyd ffigur wedi'i addasu

sy'n dileu effaith IAS19 fel y bydd modd cymharu dros y pedair blynedd a rhoi sefyllfa ariannol sylfaenol gliriach. Yr addasiad o dan IAS19 yw swm y llog net ar y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig net, cost gweinyddu a gwasanaeth; wedi'i leihau gan gyfraniadau'r cyflogwr.

Yr ased pensiwn net hefyd yw'r elfen anwadal allweddol o asedau a rhwymedigaethau. Ar ôl mabwysiadu IAS19: Buddiannau Cyflogeion, mae'r sefyllfa ariannol agoriadol ar 1 Ebrill 2025 yn dangos ased pensiwn net o £162.5 miliwn. Roedd ased net y cynlluniau ar 31 Mawrth 2026 yn werth £276.9 miliwn: cynnydd o £114.4 miliwn yn ystod y flwyddyn. Cynyddodd gwerth teg asedau'r cynllun £111.0 miliwn yn y flwyddyn gyfredol. Mae cyfradd ddisgowntio uwch hefyd wedi lleihau'r rhwymedigaeth o ran buddiannau. Mae gan y ddau gynllun pensiwn warged yn y flwyddyn ariannol gyfredol ond, os bydd unrhyw ddiffygion pensiwn yn digwydd, mae'r Adran Drafnidiaeth, fel adran noddi'r Awdurdod, yn eu gwarantu. Am ragor o fanylion, cyfeiriwch at Nodyn 23 yn y Datganiadau Ariannol.

Perfformiad y Flwyddyn Gyfredol

Sicrhaodd rheolaethau ariannol cadarn a ffocws ar werth am arian fod alldro BTP ar gyfer 2025/26 yn is na'r gyllideb a ddyrannwyd. Bydd y swm hwn yn cael ei ddychwelyd i ddeiliaid y Cytundeb Gwasanaeth Plismona yn ystod 2026/27 a 2027/28.

Cynyddodd yr incwm a gydnabuwyd yn ystod y flwyddyn £25.4 miliwn, o £392.2 miliwn yn 2024/25 i £417.6 miliwn yn 2025/26. Roedd y cynnydd hwn yn bennaf oherwydd cynnydd mewn taliadau o dan y Cytundeb Gwasanaeth Plismona a gymeradwywyd gan yr Awdurdod i adennill costau. Caniateir i BTPA dalu costau plismona bob blwyddyn o dan Ddeddf Diogelwch Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth (2003).

Bu cynnydd o £5.6 miliwn mewn costau staff, o £320.2 miliwn yn 2024/25 i £325.8 miliwn yn 2025/26. Cynyddodd costau cyflogres safonol oherwydd y cynnydd o 4.2% yn y dyfarniad cyflog yn 2025/26 a datblygiad pwyntiau'r golofn. Cafodd y cynnydd hwn ei wrthbwyso gan ostyngiad yn yr addasiad pensiwn IAS19, wedi'i gynnwys mewn costau staff, o £13.4 miliwn.

Cyfanswm effaith costau pensiwn IAS19 ar y datganiad o incwm cynhwysfawr yw £31.2 miliwn (2024/25: £44.8 miliwn). Am ragor o fanylion am y dadansoddiad o gostau, cyfeiriwch at Nodyn 23 yn y Datganiadau Ariannol.

Yn y datganiad o'r sefyllfa ariannol, cynyddodd gwerth cario asedau anghyfredol £110.8 miliwn, o £285.9 miliwn yn 2024/25 i £396.8 miliwn yn 2025/26. Y prisiad pensiwn o dan IAS19 oedd y ffactor a gyfrannodd fwyaf at y cynnydd hwn ac fe'i hesbonnir ymhellach uchod.

Mae cyfanswm yr asedau cyfredol wedi aros yn gyson ar £66.7 miliwn (2024/25 £65.8 miliwn). Am ragor o fanylion, cyfeiriwch at Nodiadau 12-14.

Cynyddodd cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol £2.4 miliwn, o £82.0 miliwn yn 2024/25 i £84.4 miliwn yn 2025/26. Mae gwerth y darpariaethau wedi cynyddu £2.0 miliwn. Y cynnydd mwyaf mewn darpariaethau oedd ar gyfer y ddarpariaeth ynglŷn â diswyddo a oedd yn ofynnol yn sgil rhaglen ailosod staffio'r heddlu. Am ragor o fanylion am rwymedigaethau cyfredol, cyfeiriwch at Nodiadau 15 a 16.

Mae gwerth y rhwymedigaethau anghyfredol wedi lleihau £0.7m, o £50.1 miliwn yn 2024/25 i £49.4 miliwn yn 2025/26. Achoswyd hyn gan y lleihad yn oes lesoedd sy'n weddill wedi'i wrthbwyso'n rhannol gan rwymedigaethau les newydd a gydnabuwyd yn y flwyddyn gyfredol.

Er bod Gadael yr Undeb Ewropeaidd wedi cael effaith sylweddol ar lawer o sefydliadau yn y sector cyhoeddus yn ystod 2024/25 a 2025/26, nid yw wedi cael yr un effaith ar y sefydliad hwn. Ni chafwyd unrhyw wariant ychwanegol sylweddol o ganlyniad i'r digwyddiad hwn.

Sicrhau Effeithlonrwydd a Buddiannau

Mae BTP wedi gwireddu buddiannau gwerth £5.6m yn 2025/26. Mae'r rhain wedi bod yn sail i'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig amlflwydd newydd a chynaliadwyedd gwasanaethau yn y dyfodol er mwyn cyflawni ein hamcanion.

Mae BTP wedi parhau i weithredu am gost isel iawn fesul taith reilffordd, £0.13 fesul taith dros (2024/25: £0.13). Mae BTP wedi parhau i roi gwerth cryf am arian i'r diwydiant rheilffyrdd a phwrs y wlad, a gosod y sylfeini ar gyfer arbedion effeithlonrwydd cynhyrchiant yn y blynyddoedd i ddod. Mae'r dull gweithredu yn cynnwys cyfaddawdau penodol o ran y galw, sy'n dryloyw ac wedi'u hasesu'n rhai y gellir eu goddef o fewn y parodrwydd i dderbyn risg.

Buddiannau i'r Diwydiant a'r Cyhoedd

Mae'r dystiolaeth o'r gwaith modelu ar darfu ar y rheilffyrdd a niwed troseddau yn dangos bod BTP yn sicrhau enillion cadarn o fuddsoddi yn gyson i'r diwydiant rheilffyrdd drwy osgoi oedi a tharfu, ac i'r cyhoedd yn fwy cyffredinol drwy atal troseddau, ymyriadau achub bywyd a budd cymdeithasol.

O ran gweithgarwch tarfu, amcangyfrifwyd yn fwyaf diweddar mai cyfanswm y budd i Brydain Fawr oedd £8.3bn y flwyddyn (2024/25). Cafwyd Cymhareb Cost a Budd o 21.47 am bob punt a fuddsoddwyd ar gyfer pwrs y wlad (2024/25[11]). Mae'r cynnig gwerth hwn yn sail i hyder y diwydiant rheilffyrdd yn y ffordd y mae BTP yn buddsoddi ar gyfer effeithlonrwydd yn y dyfodol.

Parhaodd BTP i ymdopi â'r galw cynyddol (twf yn nifer y teithwyr a chymhlethdod troseddu) heb gynnydd cymesur yn y gyllideb na'r gweithlu ac i gynnal cost isel fesul taith ar yr un pryd. Mae ein dadansoddiad economaidd yn canfod bod costau BTP yn sylweddol is na heddluoedd y Swyddfa Gartref pan gânt eu meincnodi yn ôl y pen/taith[12].

At ei gilydd, mae'r flwyddyn ddiwethaf yn flwyddyn ailosod effeithlonrwydd gredadwy ar gyfer BTP. Sicrhawyd arbedion effeithlonrwydd y gellir eu troi'n arian parod a phennu eu gwerth ariannol gwerth £5.6m. Mae'r Heddlu yn parhau i ddangos gwerth am arian, gan ei rhoi ei hun mewn sefyllfa i wneud arbedion effeithlonrwydd a hwylusir drwy dechnoleg ac a arweinir gan gynhyrchiant yn ystod cyfnod nesaf y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

[11] 2024/25 yw'r cyfrifiad mwyaf diweddar sydd ar gael, oherwydd argaeledd y data gofynnol.

[12] Mae'n anodd cymharu poblogaethau dros dro â phoblogaethau sefydlog yn uniongyrchol am lawer o resymau, yn rhannol oherwydd bod nifer y teithiau yn debygol o fod yn briodoladwy i deithwyr rheolaidd. Fodd bynnag, roeddem yn gallu cymharu costau BTP yn gymesur â theithiau â chostau heddluoedd y Swyddfa Gartref yn gymesur â phoblogaethau sefydlog.

Adroddiad Cynaliadwyedd

Mae newid hinsawdd yn achosi risgiau a heriau cynyddol i deithwyr ar y rheilffyrdd, cydweithwyr, a'r cymunedau a wasanaethwn. Mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn addo gwella ei allu i wrthsefyll newid hinsawdd yn ein holl weithrediadau a bydd yn ymdrechu'n barhaus i wella a datblygu ei arferion a'i brosesau i leihau ein heffaith amgylcheddol ar y blaned heddiw er mwyn adeiladu dyfodol mwy cynaliadwy i bawb.

Ein huchelgais yw darparu gwasanaeth plismona o'r radd flaenaf i'r cyhoedd sy'n teithio a hefyd ymgorffori cynaliadwyedd amgylcheddol ym mhob agwedd ar y ffordd rydym yn darparu gwasanaethau er mwyn iddo ddod yn rhan annatod o'n gweithgareddau arferol, yn hytrach na menter annibynnol.

Ein nod yw dod yn heddlu sero net erbyn 2050 yn unol â Deddf Newid Hinsawdd 2008. Rydym wedi pennu targedau dros dro i leihau allyriadau 46% o'n gweithrediadau ein hunain (cwmpas 1 a 2) erbyn 2030 a gostyngiad pellach o 67.20% o'n gweithgareddau cwmpas 3 erbyn 2035 yn unol â senario cynhesu byd-eang 1.5°C y Fenter Targedau Seiliedig ar Wyddoniaeth. Bydd gwrthbwyso ar ôl y pwynt hwn yn sicrhau sefyllfa sero net wirioneddol.

Mae ein hymrwymiadau yn cynnwys gweithio gyda'n cydweithwyr a'n cyflenwyr i leihau allyriadau, newid ein fflyd yn raddol i gerbydau allyriadau isel a di-allyriadau er mwyn gwella ansawdd aer a lleihau maint ein hystad yn unol ag arferion gwaith modern i leihau'r defnydd o ynni. Un rhan allweddol o hyn yw nodi, asesu ac adrodd ar risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, ac ymgysylltu â'n cadwyn gyflenwi i sbarduno prosesau caffael nwyddau a gwasanaethau cynaliadwy.

Mae BTPA wedi cyflwyno adroddiadau ar ddatgeliadau ariannol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn gyson â chanllawiau cymhwyso datgeliadau Tasglu Trysorlys EF ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd (TCFD), sy'n dehongli ac yn addasu'r fframwaith ar gyfer sector cyhoeddus y DU.

Ym marn BTPA, nid yw'r hinsawdd yn brif risg, ac felly maent wedi cydymffurfio â'r datgeliadau a argymhellir gan y TCFD sy'n ofynnol isod, yn unol ag amserlen weithredu datgeliadau Llywodraeth y DU sy'n cyd-fynd â'r TCFD ar gyfer Cam 3.

Llywodraethu

(a) Goruchwyliaeth y Bwrdd a'r Uwch-reolwyr

Caiff trefniadau llywodraethu sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd eu goruchwylio ar y cyd gan y Cyfarwyddwr Datblygu Corfforaethol a'r Dirprwy Gyfarwyddwr Masnachol, sydd â chyfrifoldeb lefel uwch am y strategaeth Carbon Sero Net (NZC). Cyflwynir adroddiad ar gynnydd yn erbyn ymrwymiadau Carbon Sero Net bob chwarter i'r Bwrdd Masnachol Strategol.

Mae'r Arweinydd ar Gynaliadwyedd yn mynychu byrddau swyddogaethol sy'n cwmpasu technoleg, ystadau, materion masnachol a'r fflyd i graffu ar eu gwaith a hwyluso trafodaethau sy'n ymwneud â'r hinsawdd. Drwy hyn gall ystyriaethau cytbwys o gynaliadwyedd lywio penderfyniadau gweithredol a buddsoddi.

Mae Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig (BTPA) yn cynnal goruchwyliaeth annibynnol o gynnydd

yn erbyn y strategaeth. Ceir arbenigedd o fewn BTPA, gan fod y tîm Gweithredol yn ymgymryd â hyfforddiant blynyddol.

(b) Rôl rheolwyr o ran asesu a rheoli Risgiau a Chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd

Mae risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd wedi'u hymgorffori mewn strwythurau cyflawni. Mae pob arweinydd ffrwd waith busnes fel arfer yn atebol am roi mesurau cynaliadwyedd ar waith. Caiff pob cynnig buddsoddi ac achos busnes eu hadolygu drwy Fwrdd Portffolio, Cyfalaf a Buddsoddi BTP (PCIB), lle mae'r Rheolwr Cynaliadwyedd yn rhoi cyngor arbenigol. Caiff risgiau, buddiannau ac effeithiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd ar amcanion sero net eu hasesu a'u meintioli cyn ceisio cymeradwyaeth am achos busnes.

Drwy gydol oes y strategaeth Carbon Sero Net, cyflwynir adroddiadau ar gynnydd a chamau gweithredu â thystiolaeth bob chwarter i'r Bwrdd Masnachol Strategol ac i'r Cyfarwyddwr Datblygu Corfforaethol, gan sicrhau goruchwyliaeth barhaus o gyflawni, perfformiad, risgiau a chyfleoedd.

Mae'r strwythur cyffredinol hwn yn ymgorffori ystyriaethau, risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd mewn prosesau gwneud penderfyniadau, arfarnu buddsoddiadau a chynllunio gweithredol.

Rheoli Risg

(a) Prosesau ar gyfer nodi ac asesu risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd

Caiff risgiau ar lefel yr heddlu ar gyfer cynaliadwyedd, gan gynnwys risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, eu codi gan y Rheolwr Cynaliadwyedd a Llysgenhadon Sero Net eraill a'u hasesu drwy ddefnyddio Fframwaith Rheoli Risg BTP.

Caiff risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd fel llifogydd, gwres eithafol a digwyddiadau tywydd garw eu nodi drwy gyfuniad o sganio'r gorwel yn fewnol, gwybodaeth am risgiau allanol ac allbynnau proses sgrinio Risg Newid Hinsawdd BTP sy'n cyd-fynd â TCFD, wedi'i llywio gan Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU.

Fel rhan o'r broses ehangach o nodi risgiau, mae BTPA hefyd yn adolygu ffynonellau risg allanol i sicrhau cyflawnrwydd, gan gynnwys y Gofrestr Risg Genedlaethol a Chofrestr Risg Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu.

(b) Prosesau ar gyfer rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd

Caiff risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd eu hasesu, eu cofnodi a'u monitro drwy fframwaith rheoli risg sefydledig BTP er mwyn sicrhau bod risgiau yn parhau i fod yn gyfredol a bod camau lliniaru yn cael eu cymryd. Ystyrir effeithiau ariannol, terfynliniau amser a chyfleoedd posibl fel rhan o'r asesiad hwn i gefnogi penderfyniadau cymesur.

Caiff risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd eu hadolygu'n barhaus, ac mae camau lliniaru yn cael eu cymryd lle y bo'n briodol a'u dwysáu os bydd amlygiad i risg neu effaith bosibl yn cynyddu. Bydd BTP yn parhau i adolygu newid hinsawdd a'i risgiau cysylltiedig i sicrhau camau lliniaru priodol a, lle y bo angen, fod mesurau ymaddasu yn cael eu rhoi ar waith.

(c) Integreiddio risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd mewn gweithgarwch rheoli risg cyffredinol

Ar hyn o bryd mae newid hinsawdd yn cael ei asesu fel risg ar lefel yr heddlu ac

ni thybir ei fod yn brif risg, oherwydd ar hyn o bryd nid ystyrir ei fod yn achosi bygythiad difrifol i berfformiad, enw da na gallu BTP i gyflawni ei amcanion strategol.

Caiff risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd eu hasesu, eu rheoli a'u huwchgyfeirio drwy Fframwaith Rheoli Risg BTPA, gan sicrhau cysondeb o ran sgorio, llywodraethu, goruchwylio a sicrwydd.

Mae cysylltiadau rhwng risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, amcanion strategol ac effeithiau ariannol yn ei gwneud yn bosibl i ystyriaethau hinsawdd gael eu monitro ochr yn ochr â risgiau gweithredol a strategol eraill, a'u huwchgyfeirio drwy lwybrau llywodraethu arferol pan fo perthnasedd yn cynyddu.

	Cysylltiad ag Amcan Strategol	Risg / Cyfle	Effeithiau Ariannol Posibl
Risgiau ar Lefel yr Heddlu			
Trosiannol	Cynhyrchu gwerth am arian	**Cydymffurfiaeth Ddeddfwriaethol Sero Net:** Er mwyn sicrhau bod BTP yn cydymffurfio â deddfwriaeth Deddf Newid Hinsawdd 2008 i gyrraedd allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net erbyn 2050	• Costau i bontio i dechnolegau allyriadau is gan gynnwys Trydaneiddio Cerbydau ynghyd â seilwaith gwefru – amcangyfrifir y bydd tua £62 miliwn dros 5 mlynedd (byrdymor – tymor canolig) • Amcangyfrifir y bydd gwrthbwyso tua £1m y flwyddyn erbyn 2035, gan leihau i tua £200k erbyn 2050 (hirdymor) • Costau personél a systemau i fesur allyriadau (byrdymor)
Ffisegol	Cynhyrchu gwerth am arian	**Gwydnwch y Gadwyn Gyflenwi:** Bydd tarfu mawr ar y cadwyni cyflenwi ar gyfer cynhyrchion/ gwasanaethau galluogi allweddol yn cael effaith uniongyrchol ar allu'r Heddlu i barhau â gweithrediadau ar lefelau arferol.	• Costau i ddod o hyd i gynhyrchion / cyflenwyr amgen (tymor canolig – hirdymor) • Costau tarfu cynyddol a drosglwyddir oddi wrth gyflenwyr (byrdymor)
Sustainability Risks			
Ffisegol	Cynhyrchu gwerth am arian	**Nid yw'r ystad wedi'i haddasu/ yn gallu gwrthsefyll digwyddiadau tywydd newid hinsawdd, gan gynnwys llifogydd, tonnau gwres, a digwyddiadau tywydd eithafol.**	• Costau addasu'r ystad. Amcangyfrifir y bydd gwaith sy'n gysylltiedig ag adeiladau, gan gynnwys gwaith inswleiddio, gosod ffenestri newydd, gosod boeleri newydd, goleuadau LED sy'n effeithlon o ran ynni yn costio tua £19.6m dros 10 mlynedd (tymor canolig) • Amcangyfrifir y bydd newid i drydan cyfunol wedi'i ategu gan gynhyrchu carbon sero, yn costio tua £35k y flwyddyn (byrdymor) • Costau parhad busnes safleoedd amgen, yn enwedig lleoliadau gweithredol megis ystafelloedd dalfa (byrdymor)
Trosiannol	Cynhyrchu gwerth am arian	**Anallu i ymgysylltu â'r staff a chyfleu amcanion y strategaeth Sero Net**	• Mae'n debygol y bydd costau yn amherthnasol ac yn cael eu hychwanegu at brosesau cyfathrebu presennol. Nid oes unrhyw gost i ymgysylltu drwy Lysgenhadon Cynaliadwyedd gwirfoddol a grwpiau mewnol eraill. (byrdymor)

	Cysylltiad ag Amcan Strategol	Risg / Cyfle	Effeithiau Ariannol Posibl
Trosiannol	Cynhyrchu gwerth am arian	**Niwed i enw da a cholli hyder y cyhoedd o ganlyniad i fethu â lleihau allyriadau neu gynnal gwasanaethau pan fo tarfu oherwydd yr hinsawdd**	• Dirwyon rheoleiddiol posibl am beidio â chyrraedd safonau (hirdymor)
Trosiannol	Cynhyrchu gwerth am arian	**Cyfle i leihau gwariant oherwydd mentrau i leihau carbon**	• Costau gweithredu is (e.e., drwy enillion effeithlonrwydd a chostau is) (tymor canolig – hirdymor) • Llai o amlygiad i gynnydd ym mhrisiau tanwyddau ffosil yn y dyfodol (hirdymor – tymor canolig) • Cadwyn gyflenwi fwy dibynadwy a'r gallu i weithredu o dan amodau amrywiol (byrdymor – tymor canolig)

Ffin Adrodd

Mae ffin adrodd BTP yn dilyn canllawiau'r TCFD a'r Protocol Nwyon Tŷ Gwydr, gan ddefnyddio **rheolaeth weithredol** a **rheolaeth ariannol** i adlewyrchu cymhlethdod ein hystad. Rydym yn cynnwys yr holl safleoedd, asedau a gweithgareddau lle mae gan BTP reolaeth weithredol o ddydd i ddydd, yn ogystal â lleoliadau lle mae gennym reolaeth ariannol neu lle rydym yn dwyn risgiau a buddiannau cysylltiedig. Mae'r dull gweithredu hwn yn sicrhau sylw cynhwysfawr i effeithiau perthnasol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn unol â disgwyliadau'r TCFD o ran eglurder, cysondeb a thryloywder mewn prosesau adrodd yn y sector cyhoeddus. Datgelir unrhyw eithriadau neu gyfyngiadau ar sail cydymffurfio neu egluro, yn gyson â fframwaith y TCFD.

Metrigau a Thargedau

Mae'r Protocol Nwyon Tŷ Gwydr yn sefydlu fframwaith safonol, byd-eang, cynhwysfawr ar gyfer mesur a rheoli allyriadau. Mae BTP yn defnyddio'r fframwaith hwn ac yn sicrhau bod ei ffiniau a'i fethodolegau adrodd er mwyn monitro, adrodd a datgelu'r defnydd o ynni ac allyriadau carbon yn flynyddol gan ddefnyddio ffactorau trosi carbon diwygiedig a gyhoeddwyd gan Adran Diogeledd Ynni a Sero Net y DU (DESNZ).

Mae cymhlethdod casglu a chyfrifo data ôl troed carbon yn golygu mai'r data mwyaf diweddar sydd ar gael yw'r data ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024/25. Bydd data ar gyfer 2025/26 ar gael ym mis Awst 2026.

Dewisodd BTP 2019/20 fel y flwyddyn llinell sylfaen i adrodd yn ei herbyn gan fod hon yn adlewyrchu blwyddyn sydd â'r data mwyaf cadarn cyn y pandemig. Cafodd y data eu hailfesur yn gyntaf yn 2022/23, gan nad oedd blynyddoedd Covid-19 yn adlewyrchu blynyddoedd gweithredu nodweddiadol.

Mae cwmpas ein hadroddiadau cynaliadwyedd yn dilyn dull rheoli gweithredol y Protocol Nwyon Tŷ Gwydr.

Mae allyriadau Cwmpas 1 a Chwmpas 2 sy'n deillio o weithrediadau o dan reolaeth uniongyrchol BTP wedi'u cynnwys, gan gynnwys allyriadau o foeleri nwy, cerbydau â pheiriant hylosgi mewnol yn y fflyd, nwyon oeri, a'r defnydd o drydan mewn adeiladau a feddiannir gan BTP ac eiddo a ddarperir gan Trafnidiaeth Llundain, yn ogystal â safleoedd lle mai dim ond data ynni heb ei fesur sydd ar gael.

Ar gyfer cwmpas 3, gwnaethom asesiad o berthnasedd i bennu pa allyriadau anuniongyrchol sydd fwyaf perthnasol i'n gweithgareddau gweithredol, y rhai sy'n gwneud penderfyniadau, a rhanddeiliaid. Ar y sail hon, ar hyn o bryd, mae BTP yn rhoi adroddiad ar gategorïau Cwmpas 3 lle y gallwn effeithio ar allyriadau, lle maent yn fesuradwy gyda chywirdeb rhesymol ac y gellir eu defnyddio wrth wneud penderfyniadau. Rydym yn cydnabod bod y categori hwn fel arfer yn un o'r ffynonellau mwyaf sylweddol o allyriadau anuniongyrchol i sefydliadau'r sector cyhoeddus gan eu bod yn cynnwys: teithio busnes, gwariant cyfalaf ar fflyd a chyfarpar TGCh, colledion yn y grid trydan, cymudo staff, a gweithgareddau perthnasol cadwyni cyflenwi megis caffael lifrai'r heddlu a gwaredu gwastraff. Mae'r categorïau hyn yn adlewyrchu meysydd lle mae BTP yn cael dylanwad ystyrlon dros y galw, dewisiadau caffael, neu ymddygiad, a lle gallai allyriadau effeithio'n rhesymol ar ein strategaeth hirdymor, rheoli risg, neu berfformiad.

Ar hyn o bryd, ni ellir rhoi adroddiad llawn ar rai categorïau o gadwyni cyflenwi ymhellach i fyny'r gadwyn gyflenwi oherwydd argaeledd data, cyfyngiadau system, a pharodrwydd cyflenwyr. Yn yr achosion hyn, rydym yn defnyddio dull amcangyfrif tryloyw gan ddefnyddio ffactorau allyriadau yn seiliedig ar wariant fel methodoleg dros dro. Wrth i ansawdd data wella, byddwn yn ehangu ffin Cwmpas 3 ac yn newid o ddulliau sy'n seiliedig ar wariant i ddata sy'n fwy penodol i weithgarwch. Bydd diweddariadau yn cael eu datgelu mewn cylchoedd adrodd yn y dyfodol.

Mae ein cynllun gwella ansawdd data yn canolbwyntio ar gryfhau'r ffordd rydym yn mesur ac yn adrodd ar ddefnydd ynni ac allyriadau yn ein holl weithrediadau. Ymhlith y camau gweithredu allweddol mae:

- Sicrhau data ynni bob hanner awr ar gyfer pob safle trydan a nwy cymwys er mwyn gwella cywirdeb a nodi defnydd anarferol yn gyflym,
- Cynnal arolwg teithio staff blynyddol i gael darlun cliriach o batrymau cymudo a deall allyriadau cysylltiedig yn well,
- Paratoi i gasglu data allyriadau oddi wrth gyflenwyr sy'n ganolfannau data, sydd y tu allan i'r cwmpas ar hyn o bryd ond a fydd yn ofynnol mewn cylchoedd adrodd yn y dyfodol, a
- Datblygu strategaeth is-fesur gynhwysfawr ar gyfer trydan, nwy a dŵr er mwyn nodi ble mae gwastraff yn digwydd a thargedu mesurau effeithlonrwydd.

Gyda'i gilydd, bydd y gwelliannau hyn yn rhoi gwybodaeth fwy dibynadwy i ni, yn helpu i nodi gwastraff ynni a dŵr ar ein hystad, ac yn cryfhau hygrededd a thryloywder cyffredinol ein hadroddiadau hinsawdd.

Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr Gweithredol yn ôl Cwmpas (tCO_2e), 2019/20–2024/25

Cwmpas	Disgrifiad	2019/20 (Llinell sylfaen)	2022/23	2023/24	2024/25	Targed gweithredol 2030 Cwmpas 1 a 2, 2035 Cwmpas 3
Cwmpas 1: Allyriadau nwyon tŷ gwydr uniongyrchol	Hylosgi Sefydlog – Boeleri Nwy	224	195	215	215	< 46.2% erbyn 2030
	Hylosgi Symudol – Cerbydau Fflyd ag injan tanio mewnol	3,078	3033	2652	2610	
	Yn ffoi – Gollyngiadau Oeri	41	38	34	45	
Cwmpas 2: Allyriadau nwyon tŷ gwydr anuniongyrchol	Trydan – Adeiladau	2619	1792	2644	1844	
	Trydan – Fflyd	0	4	20	38	
Cwmpas 3: Allyriadau nwyon tŷ gwydr anuniongyrchol eraill	Nwyddau a Gwasanaethau – Lifrai'r Heddlu	2026	2069	445	612	< 67.2% erbyn 2035
	Nwyddau a Gwasanaethau – Dŵr	79	35	31	29	
	Nwyddau a Gwasanaethau – Gwastraff	2098	2390	4	2	
	Nwyddau a Gwasanaethau – Glanhau	217	447	412	361	
	Nwyddau a Gwasanaethau – Postio, deunydd ysgrifennu, ac eraill	236	178	166	157	
	Offer Cyfalaf – Fflyd	485	1131	841	1229	
	Offer Cyfalaf – TG	3381	4862	2974	2942	
	Colledion o'r Grid Trydan	193	164	229	163	
	Teithio Busnes – Hedfan	60	18	17	38	
	Teithio Busnes – ar y Rheilffyrdd	48	48	61	50	
	Teithio Busnes – Gwesty	223	149	163	144	
	Cymudo Cyflogeion	3865	3231	3528 (a ailddatganwyd)	3448	
	Asedau ar les ymhellach i fyny'r Gadwyn Gyflenwi	Wedi'u cynnwys yng Nghwmpas 1 a Chwmpas 2				
CYFANSWM		**18,873**	**19,785**	**14,115**	**13,927**	**< 9,020 tCO_2e – 2030 < 5,499 tCO_2e – 2035**
Cyfanswm y Cyflogeion	Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE)	**4,565**	**5,045**	**5,100**	**5,064**	
tCO_2e fesul FTE		**4.134**	**3.921**	**2.767**	**2.750**	

Mae dwyster allyriadau fesul FTE yn rhoi dangosydd ychwanegol o effeithlonrwydd sefydliadol, gan gydnabod newidiadau ym maint y gweithlu dros amser.

Mae symudiadau o flwyddyn i flwyddyn yn adlewyrchu cyfuniad o newid gweithredol gwirioneddol a mireinio methodolegol, fel y'i heglurir isod.

Ôl troed Presennol

Cyfanswm ôl troed carbon 2024/25 oedd 13,927 tCO_2e, sef gostyngiad cymharol fach o 188 tCO_2e o 14,115 tCO2e yn 2023/24. Roedd cyfanswm yr allyriadau yn parhau'n gymharol sefydlog o flwyddyn i flwyddyn, gyda newidiadau wedi'u sbarduno gan symudiadau mewn nifer bach o gategorïau.

Gostyngodd allyriadau sy'n gysylltiedig â thrydan tua 800 tCO_2e. Roedd y lefel uwch a nodwyd yn 2023/24 yn adlewyrchu addasiad untro i ymgorffori defnydd trydan ychwanegol nad oedd wedi'i gofnodi'n llawn yn y flwyddyn adrodd 2022/23. Gan y cyfrifir am y cywiriad hwn bellach , mae ffigur 2024/25 yn dychwelyd i lefel fwy cynrychioliadol o ddefnydd trydan blynyddol nodweddiadol. Fel y cyfryw, dylid dehongli'r gostyngiad o flwyddyn i flwyddyn yn bennaf oherwydd yr addasiad data hwn yn hytrach na newid sylweddol yn y defnydd gweithredol.

Cynyddodd allyriadau corfforedig o gyfarpar cyfalaf y fflyd 388 tCO_2e, wedi'i sbarduno gan gynnydd o tua £2 filiwn mewn gwariant cyfalaf. Mae hyn yn adlewyrchu'r penderfyniad i brynu cerbydau newydd ym Manceinion a Birmingham, yn lle'r rhai a oedd wedi cyrraedd diwedd eu hoes ac a gafodd eu disodli yn unol â pholisi fflyd cylchol y sefydliad.


Gostyngodd allyriadau cyfalaf technoleg, er gwaethaf cwblhau'r broses o gyflwyno gliniaduron i bob swyddog yn 2025/26.

Cynyddodd allyriadau sy'n gysylltiedig â lifrai'r heddlu 167 tCO_2e oherwydd gwelliannau i fethodoleg fesur y cyflenwr, yn hytrach na chynnydd yn yr hyn a gaffaelwyd.

Amcangyfrifir allyriadau cymudo drwy ddefnyddio data arolwg teithio staff.



Cyfanswm Ôl troed Carbon 2024/25 BTP = 13,927 tCO_2e



Gwariant Ariannol Allyriadau 2024/25


Math	Disgrifiad o'r Eitem	tCO_2e	Nifer/Uned	Gros £
Cwmpas 1: Allyriadau nwyon tŷ gwydr uniongyrchol	Hylosgi Sefydlog – Boeleri Nwy	215	1,179,999 kWh	£137,407
	Hylosgi Symudol – Cerbydau Fflyd ag injan tanio mewnol	2,610	1,064,356 litr	£1,550,053
	Yn ffoi – Gollyngiadau Oeri	45	Dd/g	Dd/g
Cwmpas 2: Allyriadau nwyon tŷ gwydr anuniongyrchol	Trydan – Adeiladau	1,844	8,905,237 kWh	£1,943,946
	Trydan – Fflyd	38	185,513 kWh	£150,724
Cwmpas 3: Allyriadau nwyon tŷ gwydr anuniongyrchol eraill	Lifrai'r Heddlu	612	Dd/g	£1,571,609
	Dŵr	29	85,962 m^3	£59,863
	Cyfanswm y gwastraff	2.14	151.03 t	£269,214
	Gwastraff wedi'i ailgylchu	0.51	79.34 t	gan gynnwys yr uchod
	Gwastraff wedi'i gompostio (bwyd)	0	0 t	gan gynnwys yr uchod
	Gwastraff wedi'i losgi sy'n adennill ynni	0.43	67.33 t	gan gynnwys yr uchod
	Gwastraff wedi'i losgi heb adennill ynni	0.02	2.96 t	gan gynnwys yr uchod
	Tirlenwi gwastraff	0.72	1.39 t	gan gynnwys yr uchod
	TGCh wastraff a werthwyd/ailbwrpaswyd	Dd/g	6.06 t	£-37,664
	TGCh wastraff a ailgylchwyd	0.46	7.2 t	gan gynnwys yr uchod
	Tirlenwi TGCh wastraff	0	0 t	0
	Glanhau	361	Dd/g	£2,123,458
	Costau Postio	105	Dd/g	£458,113
	Deunydd ysgrifennu	52	Dd/g	£97,067
	Offer Cyfalaf – Fflyd	1,229	Dd/g	£7,164,906
	Offer Cyfalaf – TG	2,942	Dd/g	£4,783,428
	Colledion o'r Grid Trydan	163	Dd/g	Dd/g
	Teithio Busnes – Hedfan	38	147,664 cilometr	£26,474
	Teithio Busnes – ar y Rheilffyrdd	50	1,398,927 cilometr	£301,600
	Teithio Busnes – Nosweithiau Gwesty	144	13,568	£1,401,580
	Cymudo Cyflogeion	3,448	Dd/g	Dd/g
Cyfanswm		**13,927**		

Llinell amser a Llwybr at Sero Net yn 2050

Mae targedau lleihau wedi cael eu pennu yn unol â'r Fenter Targedau Seiliedig ar Wyddoniaeth o senario cynhesu byd-eang o 1.5°C, er mwyn sicrhau gostyngiad o tua 50% o allyriadau cwmpas 1 a 2 erbyn 2030 ac allyriadau cwmpas 3 erbyn 2035. Yn dilyn targed 2035, pennir targedau pellach i sicrhau'r lleihad mwyaf posibl erbyn 2050, er mwyn lleihau'r ddibyniaeth ar wrthbwyso ein hallyriadau a sicrhau y gellir cynnal Sero Net ymhell i'r dyfodol. Mae'r llwybr hwn at sero net hefyd yn cyd-fynd ag ymrwymiadau'r Llywodraeth ynglŷn â nwyon tŷ gwydr a Deddf Newid Hinsawdd 2008.

Er bod y llwybr at sero net hirdymor yn 2050 yn dal i fod yn gyraeddadwy, nid yw allyriadau blynyddol wedi dilyn taflwybr lleihau llinol. Mae amrywiadau o flwyddyn i flwyddyn yn adlewyrchu amseriad buddsoddiad cyfalaf a gofynion gweithredol i raddau helaeth yn hytrach nag ymrwymiad gwannach i ddatgarboneiddio. Yn benodol, mae cyfnodau o allyriadau cynyddol wedi cael eu sbarduno gan wariant cyfalaf uwch ar asedau fflyd a TGCh, lle mae allyriadau corfforedig (Cwmpas 3) yn cael eu cofnodi ar adeg prynu. Mae hyn yn cynnwys prynu cerbydau newydd yn lle'r rhai y mae eu hoes weithredol wedi dod i ben yn unol â'r polisi fflyd, fel y cyfeirir ato yn yr adran ar y Fflyd, er mwyn cynnal gallu plismona a diogelwch y cyhoedd.

Llwybr Lleihau at Sero Net yn unol â Senario Cynhesu Byd-eang SBTi 1.5° Gradd y Fenter Targedau Seiliedig ar Wyddoniaeth



Cyfrannu at niwtraleiddio carbon

Ni phrynwyd ac ni ddefnyddiwyd unrhyw gyfraniadau at niwtraleiddio carbon yn ystod y cyfnod adrodd fel rhan o gyfrifiad ôl troed carbon y sefydliad.

Felly mae'r holl allyriadau a nodwyd yn adlewyrchu allyriadau gros yn unig, heb unrhyw addasiadau drwy dduliau o gyfrannu at niwtraleiddio carbon.

Ymrwymiadau Gwyrddu'r Llywodraeth

Mae Ymrwymiadau Gwyrddu'r Llywodraeth yn fframwaith trawlywodraethol a ddefnyddir i fonitro a rheoli perfformiad amgylcheddol adrannau a chyrff hyd braich, gyda ffocws sylfaenol ar gyflawni gweithredol ac atebolrwydd mewnol. Maent yn canolbwyntio ar is-set ddiffiniedig o ddangosyddion gweithredol ac mae cyfanswm yr ôl troed carbon yn dilyn y Protocol Nwyon Tŷ Gwydr a gofynion y Canllaw Adrodd ar Gynaliadwyedd i roi darlun cynhwysfawr o allyriadau ar draws cwmpas 1 a chwmpas 2, a chwmpas 3 perthnasol. Mae llawer o'r canlyniadau a gwmpesir gan Ymrwymiadau Gwyrddu'r Llywodraeth, gan gynnwys defnydd ynni ac allyriadau, eisoes wedi'u datgelu yn yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon hyn drwy gyfanswm ôl troed carbon y sefydliad. Cyflwynir adroddiad ar wahân ar gynnydd yn erbyn y targed ynglŷn â cherbydau allyriadau isel iawn, gan ei fod yn rhoi amcan clir o sut mae'r sefydliad yn pontio i gludiant carbon is nad yw fel arall wedi'i gyflwyno'n benodol yn yr ôl troed carbon. Ni chaiff metrigau eraill Ymrwymiadau Gwyrddu'r Llywodraeth eu dyblygu er mwyn sicrhau bod prosesau adrodd yn parhau i fod yn gymesur ac i ganolbwyntio ar y wybodaeth sydd fwyaf perthnasol i ddefnyddwyr.

Y fflyd

Roedd fflyd cerbydau BTP yn cynnwys 571 o gerbydau ar 31 Mawrth 2026, gan gynnwys 85 o geir trydan llawn, sef 27% o'r fflyd geir. Mae hyn yn rhagori ar garreg filltir Ymrwymiad Gwyrdd y Llywodraeth ar gyfer Fflyd, sef 25% o geir di-allyriadau erbyn mis Rhagfyr 2022. Mae cyfran benodedig o'r fflyd yn weithredol esempt o ofynion Parthau Allyriadau Isel Iawn, sy'n adlewyrchu rolau plismona arbenigol a lle mae'r hyn sydd ar gael ar y farchnad ar hyn o bryd yn cyfyngu ar ddewisiadau amgen o ran cerbydau di-allyriadau addas heb beryglu gallu gweithredol na diogelwch y cyhoedd.

Ar gyfer cerbydau nad ydynt yn esempt, mae BTP yn hyderus y bydd y fflyd o geir sy'n weddill yn ddi-allyriadau wrth y bibell wastraff erbyn diwedd 2027, ac y bydd y fflyd o faniau yn dilyn erbyn 2030, a fydd yn cyrraedd targed o 100% ar gyfer Ymrwymiad Gwyrddu'r Llywodraeth o ran Parthau Allyriadau Isel Iawn. Mae'r ddarpariaeth yn cael ei rheoli drwy ddull fesul cam sy'n ymwybodol o gost, sy'n cysoni'r broses o brynu cerbydau newydd â pharodrwydd seilwaith ac ystyriaethau gwerth am arian. Lle nad yw trydaneiddio llawn yn ddichonadwy eto, yn weithredol neu o ran seilwaith, defnyddir cerbydau hybrid fel mesur trosiannol i leihau allyriadau ac osgoi prynu asedau newydd yn gynamserol.

Mae'r newid a gyflawnwyd hyd yma yn sicrhau lleihad blynyddol amcangyfrifedig o fwy na 450 tCO_2e mewn allyriadau pibell wastraff, o gymharu â fflyd lawn o gerbydau ag injan tanio mewnol.

Ystad

Drwy barhad polisi gweithio'n ddoethach yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig gellir cynllunio rhaglen o ad-drefnu ystadau, sy'n cefnogi effeithlonrwydd gweithredol ac amcanion cynaliadwyedd hirdymor. Mae'r dull hwn eisoes wedi sicrhau buddiannau sylweddol, gan gynnwys adleoli Pencadlys yr Heddlu ym mis Mawrth 2025 i adeilad llai, modern a mwy effeithlon o ran ynni, yr amcangyfrifir y bydd yn arwain at ostyngiad o fwy na 60% yn y defnydd o ynni o'i gymharu â'r pencadlys blaenorol.

Ar gyfer gweddill yr ystad, mae BTP yn parhau i flaenoriaethu datgarboneiddio a'r gallu i wrthsefyll newid hinsawdd drwy raglen o reoli ac adnewyddu asedau sy'n seiliedig ar risg. Mae hyn yn cynnwys caffael systemau newydd yn lle'r systemau gwresogi tanwydd ffosil sydd wedi cyrraedd diwedd eu hoes, gwelliannau i ffabrig adeiladau i wella effeithlonrwydd thermol, a gosod goleuadau LED effeithlon o ran ynni fel safon yn ystod gwaith adnewyddu.

Mae penderfyniadau ystad yn cael eu llywio gan werth cylch bywyd, pwysigrwydd gweithredol a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd sy'n dod i'r amlwg, gan sicrhau bod buddsoddiad yn cefnogi gwydnwch hirdymor, yn lleihau amlygiad i risgiau pontio a risgiau hinsawdd ffisegol yn y dyfodol, ac yn cyfrannu at gyflawni ymrwymiadau Carbon Sero Net BTP. Mae allbynnau o sgrinio risgiau hinsawdd yn cael eu defnyddio i flaenoriaethu lleoliadau ar gyfer asesiad pellach ac i lywio penderfyniadau cynllunio ystadau a buddsoddi yn y dyfodol.

Caffael Cynaliadwy

Mae BTP yn cymhwyso'r defnydd o Ddeddf Caffael 2023 a rheoli effeithiau cadwyni cyflenwi, fel sy'n ofynnol gan Ymrwymiadau Gwyrddu'r Llywodraeth. Mae meini prawf cynaliadwy wedi'u hymgorffori mewn prosesau caffael ac mae cadwyni cyflenwi mawr eu heffaith yn cael eu nodi a'u blaenoriaethu i leihau effeithiau. Rydym wedi mabwysiadu safbwynt Swyddfa'r Cabinet tuag at Garbon Sero Net ar gystadlaethau mawr gwerth £5m a mwy ond wedi gostwng y trothwy ymhellach, fel bod cystadlaethau sy'n werth fwy na £200k yn ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr gadarnhau eu hymrwymiad i Garbon Sero Net a rhoi cynlluniau lleihau carbon ar waith.

Mae penderfyniadau caffael yn ystyried costau oes gyfan ac egwyddorion cynaliadwyedd, ac mae sicrwydd yn cael ei geisio oddi wrth gyflenwyr ynghylch manylion cynaliadwyedd gweithgynhyrchwyr allweddol, gan gefnogi canlyniadau economi gylchol a llai o effeithiau carbon corfforedig.

Rydym yn cydweithio â chyflenwyr i nodi cyfleoedd i wella cynaliadwyedd y nwyddau a'r gwasanaethau a gaffaelir. Er enghraifft, mae eitemau o lifrai'r heddlu yn cael eu gweithgynhyrchu o ddeunyddiau adnewyddadwy, wedi'u hailgylchu, a chynaliadwy, nid ydym yn anfon unrhyw eitemau i safleoedd tirlenwi ac rydym yn gweithredu menter ailgylchu i ailddefnyddio i hyrwyddo cylcholrwydd. Mae cyflenwadau swyddfa wedi cael eu newid, gan gael gwared ar filoedd o eitemau plastig na ellir eu hailgylchu ac eitemau plastig untro defnyddwyr oddi ar ein porth archebu ac mae pob dyfais TGCh ac argraffu newydd yn fodelau sy'n effeithlon o ran ynni. Cyflwynwyd categori gwobr cyflenwr cynaliadwy blynyddol yng ngwobrau 'Ni ar ein Gorau' i gydnabod y cyflenwr sydd wedi gwneud y cyfraniad mwyaf i gefnogi BTP ar hyd ein taith tuag at Garbon Sero Net.

Rydym wedi dewis tariff Di-garbon i Fusnesau ar gyfer trydan sy'n golygu bod y cyflenwad yn cael ei gefnogi drwy gynhyrchu ynni niwclear di-garbon yn hytrach na phŵer o losgi tanwyddau ffosil.

Cymorth, ymgysylltu, recriwtio a dysgu i'r staff

Mae pobl yn ganolog i gyflawni uchelgeisiau Carbon Sero Net yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig. Mae meithrin ymwybyddiaeth, gallu a pherchnogaeth a rennir drwy'r sefydliad cyfan yn helpu i integreiddio cynaliadwyedd â

phenderfyniadau o ddydd i ddydd ac arferion gweithredol.

Mae BTP wedi sefydlu rhwydwaith o Lysgenhadon Sero Net i annog ymddygiadau sy'n ymwybodol o'r hinsawdd, helpu i ymgysylltu'n lleol a rhannu arferion da rhwng swyddogaethau a lleoliadau. Mae'r rhwydwaith yn cynnig ffordd o raeadru diweddariadau ar uchelgeisiau a chynnydd cynaliadwyedd, gan helpu i ymgorffori negeseuon cyson a chefnogi newid diwylliannol drwy'r sefydliad cyfan.

Mae'r gweithgarwch hwn yn cael ei ategu gan brosesau cyfathrebu mewnol sy'n codi ymwybyddiaeth o ymrwymiadau a chyfrifoldebau BTP ynglŷn â'r hinsawdd, a ategir gan ardal adnoddau fewnol barhaol sy'n cynnwys deunyddiau dysgu a chanllawiau ymarferol ar Sero Net a newid hinsawdd. Gyda'i gilydd, mae'r adnoddau hyn yn cefnogi dysgu parhaus ac yn helpu cydweithwyr i ddeall sut mae eu gweithredoedd unigol yn cyfrannu at amcanion sefydliadol.

Er mwyn galluogi dewisiadau teithio carbon is, mae BTP yn gweithredu cynllun aberthu cyflog ar gyfer Cerbydau Trydan, sy'n galluogi cydweithwyr i gael gafael ar gerbydau di-allyriadau. Mae nifer y staff sy'n manteisio ar y cynllun yn parhau i gynyddu, gan adlewyrchu mwy o ymgysylltu ag opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy.

Mae ymrwymiad BTP i gynaliadwyedd hefyd yn cael ei adlewyrchu mewn prosesau recriwtio a chyfathrebu â'r gweithlu, ac mae negeseuon ynglŷn â Sero Net yn cael eu cynnwys ym mhob swydd wag fewnol ac allanol, gan atgyfnerthu cynaliadwyedd fel blaenoriaeth graidd y sefydliad.

Lleihau effeithiau amgylcheddol gwasanaethau TGCh a digidol

Yn unol â'i ymrwymiad i leihau effaith amgylcheddol gwasanaethau TGCh a digidol, mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn parhau i wella effeithlonrwydd, gwydnwch a chynaliadwyedd ei ystad dechnoleg. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae hyn wedi cynnwys adleoli'r brif ganolfan ddata i gyfleuster modern oddi ar y safle, sy'n helpu o ran defnydd ynni is a gwell gwydnwch gweithredol.

Yn ystod y flwyddyn adrodd, mae BTP wedi parhau i leihau effaith amgylcheddol TGCh drwy gael gwared ar seilwaith diangen, optimeiddio'r defnydd o weinyddion, a symud gwasanaethau'n raddol i lwyfannau cwmwl sy'n fwy effeithlon o ran ynni. Gyda'i gilydd, mae'r camau gweithredu hyn yn helpu i leihau'r galw am ynni yn barhaus ac maent yn gyson â phenderfyniadau technoleg ag amcanion Carbon Sero Net.

Caiff pob ased TGCh ei olrhain drwy gydol ei gylch oes a'i reoli drwy broses diwedd oes reoledig. Caiff cyfarpar ei adnewyddu a'i ailbwrpasu lle y bo'n addas, ei ailfarchnata i'w ailddefnyddio, neu ei ailgylchu'n llawn drwy ddarparwyr cymeradwy, gan sicrhau nad oes unrhyw gyfarpar TGCh yn cael ei waredu mewn safleoedd tirlenwi.

Mae BTP yn gweithio gyda chyflenwyr TGCh a darparwyr gwasanaethau i nodi cyfleoedd pellach i leihau effeithiau amgylcheddol, gan gynnwys dod o hyd i dechnolegau mwy effeithlon o ran ynni, lleihau gwastraff electronig, a lleihau'r defnydd o fetelau daear prin ac adnoddau cyfyngedig eraill.

Strategaeth

Mae Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig (BTPA) wedi ymrwymo i gyflawni Carbon Sero Net (NZC) erbyn 2050, drwy ei Strategaeth Carbon Sero Net ar gyfer 2022–2035, a adolygir yn flynyddol i sicrhau ei bod yn cyd-fynd â blaenoriaethau sefydliadol, tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg a chanllawiau cenedlaethol. Mae'r Strategaeth yn elfen graidd o waith cynllunio strategol ac mae wedi'i hymgorffori fel rhan o weithgaredd busnes fel arfer, a gyflawnir drwy'r strwythurau llywodraethu sy'n bodoli eisoes ac a gefnogir gan rwydwaith o Lysgenhadon Sero Net i alluogi perchnogaeth gan y sefydliad cyfan a newid ymddygiad. Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, yr Adran Drafnidiaeth, cwmnïau trenau a gwasanaethau brys eraill, yn llywio cyfeiriad strategol a chydweithio ac yn cefnogi dysgu a rennir ac yn cyflawni mentrau fel datgarboneiddio'r fflyd.

(a) Risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd dros y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor

Mae BTP wedi cynnal Asesiad Risg o Newid Hinsawdd (Sgrinio Cam 1) sy'n cyd-fynd â'r TCFD er mwyn nodi risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd a allai effeithio'n rhesymol ar y gwaith o gyflawni ei swyddogaethau statudol i blismona'r rheilffyrdd. Mae'r ymarfer sgrinio yn cynig asesiad cymesur dros y portffolio cyfan o risgiau ffisegol o ganlyniad i'r hinsawdd yn yr ystad weithredol, y fflyd, systemau TGCh, y gweithlu a dibyniaethau allweddol, ac mae wedi'i lywio gan ddata hinsawdd cenedlaethol ac Asesiad Risg y DU o Newid Hinsawdd.

Mae risgiau byrdymor (o'r presennol i ddechrau'r 2030au) yn ymwneud yn bennaf â pheryglon hinsawdd ffisegol acíwt, gan gynnwys digwyddiadau tywydd eithafol fel llifogydd, tonnau gwres a stormydd.

Disgwylir i risgiau tymor canolig (2030au–2040au) godi o gyfuniad o ddigwyddiadau acíwt a newidiadau cronig mewn amodau hinsawdd sylfaenol. Mae sgrinio yn dangos bod amlygiad hirfaith i wres yn debygol o ddigwydd yn amlach ac am gyfnodau hwy, sydd â goblygiadau i lesiant y gweithlu, perfformiad adeiladau, cadernid TGCh ac adfer ar ôl achosion o darfu.

Mae risgiau hirdymor (2040au a thu hwnt) yn gysylltiedig yn bennaf â pheryglon hinsawdd ffisegol sy'n dwysáu o dan amodau cynhesu uwch.

Ochr yn ochr â'r risgiau, ceir cyfleoedd i wella gwydnwch drwy gynllunio'r ystad, mesurau addasu, ac integreiddio ystyriaethau hinsawdd â phenderfyniadau caffael a buddsoddi. Mae cyflawni strategol yn canolbwyntio ar ysgogiadau gweithredol allweddol, Ystadau: lleihau ôl troed a chyflwyno dewisiadau amgen effeithlon o ran ynni yn lle asedau sy'n heneiddio, a ddangoswyd drwy adleoli'r pencadlys sy'n sicrhau gostyngiad o ~60% mewn allyriadau, Y fflyd: parhau i bontio i gerbydau allyriadau isel a cherbydau di-allyriadau er mwyn gefnogi datgarboneiddio a gwelliannau ansawdd aer, Y gadwyn gyflenwi: ymgysylltu â chyflenwyr i leihau allyriadau o nwyddau a gwasanaethau a brynir a hyrwyddo caffael cynaliadwy.

(b) Effaith risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd ar strategaeth, gweithrediadau a chynllunio ariannol

Bydd canfyddiadau'r ymarfer sgrinio risg hinsawdd yn cael eu defnyddio i lywio gwaith cynllunio strategol BTP,

trefniadau gwydnwch gweithredol blaenoriaethau buddsoddi yn yr hirdymor. Mae risgiau hinsawdd ffisegol a nodwyd drwy'r asesiad yn rhai gweithredol yn bennaf yn hytrach na rhai ariannol, gan adlewyrchu rôl BTP fel corff plismona yn hytrach na sefydliad masnachol sydd â llawer o asedau. Mae ystyriaethau allweddol yn cynnwys cynnal y gwasanaethau plismona sydd ar gael yn ystod cyfnodau o darfu ar y rhwydwaith; gan sicrhau gallu cadarn i reoli a chyfathrebu; a rheoli'r galw cynyddol am blismona yn ystod digwyddiadau tywydd eithafol.

Mae'r ymarfer sgrinio yn tynnu sylw at bwysigrwydd rhyngddibyniaeth BTP â'r rhwydwaith rheilffyrdd, y cyflenwad ynni a'r seilwaith digidol. Mae'r dibyniaethau hyn yn cael eu hystyried wrth gynllunio parhad busnes, gweithdrefnau ymateb brys a chysylltu â gweithredwyr trafnidiaeth a phartneriaid seilwaith.

O safbwynt ariannol a buddsoddi, mae allbynnau o asesiadau risg yn llywio penderfyniadau buddsoddi, gwaith cynllunio gweithredol a threfniadau gwydnwch.

(c) Gwydnwch strategaeth o dan wahanol senarios sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd

Mae sgrinio Cam 1 yn ystyried sut y gall perthnasedd a difrifoldeb y risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd a nodwyd o dan amodau hinsawdd gwahanol yn y dyfodol. Mae'r ymarfer sgrinio yn defnyddio rhagolygon hinsawdd y DU ac yn ystyried llwybrau cynhesu is ac uwch dros derfynliniau yn y tymor agos, y tymor canolig a'r hirdymor.

Mae sgrinio senarios yn dangos bod risgiau hinsawdd ffisegol—yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig â gwres eithafol, llifogydd a tharfu sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd ar y rheilffyrdd a'i seilwaith ategol—yn debygol o gynyddu o ran perthnasedd dros amser. O dan senarios cynhesu uwch, mae risgiau sy'n gysylltiedig â gwres yn dangos y cynnydd mwyaf, gyda photensial cynyddol ar gyfer effeithiau ar y gweithlu, straen TGCh a tharfu sy'n rhaeadru o ganlyniad i wendidau mewn systemau pŵer a systemau'r rheilffyrdd.

Er mwyn cryfhau gwydnwch hirdymor, bydd BTP yn ymgymryd ag asesiadau risg o newid hinsawdd mewn perthynas â safleoedd penodol ar gyfer is-set â blaenoriaeth o leoliadau sy'n weithredol hanfodol a nodwyd drwy'r broses sgrinio. Bydd allbynnau o'r asesiadau hyn yn llywio gwaith cynllunio addasu yn y dyfodol, strategaeth ynglŷn ag ystadau a phenderfyniadau buddsoddi, gan sicrhau bod gallu plismona BTP yn wydn o hyd o dan ystod o amodau hinsawdd tebygol yn y dyfodol.

Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig

Mae Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig (SDGs) yn cynnig fframwaith a gydnabyddir yn fyd-eang i ddeall sut mae sefydliadau yn cyfrannu at ganlyniadau datblygu cynaliadwy. Er nad yw BTP yn adrodd yn uniongyrchol yn erbyn targedau'r Nodau Datblygu Cynaliadwy, rydym yn cydnabod eu gwerth fel cyfeirbwynt i ddangos sut mae ein gweithgareddau yn cefnogi amcanion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd ehangach.

Mae ein blaenoriaethau o ran cynaliadwyedd, fel y'u nodir yn yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon hyn, yn cyd-fynd yn agosaf ag is-set o Nodau Datblygu Cynaliadwy sy'n berthnasol i rôl BTP fel heddlu cenedlaethol ac i'r ffordd rydym yn gweithredu.



Mae ein camau gweithredu i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, gwella effeithlonrwydd ynni a chryfhau cymorth gwydnwch gweithredol Nod Datblygu Cynaliadwy 13 (Gweithredu ar Newid Hinsawdd) drwy liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd ac ymaddasu iddynt. Mae gwaith i ddatgarboneiddio ein hystad, ein fflyd a'n seilwaith TGCh, ochr yn ochr â phontio i gerbydau allyriadau is ac adeiladau mwy effeithlon o ran ynni, hefyd yn cyfrannu at Nod Datblygu Cynaliadwy 11 (Dinasoedd a Chymunedau Cynaliadwy).



Mae ein dull o gaffael cyfrifol, lleihau gwastraff ac arferion economi gylchol yn cyd-fynd â Nod Datblygu Cynaliadwy 12 (Defnydd a Chynhyrchu Cyfrifol), ac mae buddsoddiad mewn seilwaith digidol sy'n effeithlon o ran ynni a chyfleusterau wedi'u moderneiddio yn cefnogi Nod Datblygu Cynaliadwy 9 (Diwydiant, Arloesi a Seilwaith). Hefyd, mae ymgysylltu â'n gweithlu drwy fentrau dysgu, recriwtio a chymorth yn cyfrannu at Nod Datblygu Cynaliadwy 8 (Gwaith Gweddus a Thwf Economaidd).

Rydym yn parhau i adolygu i ba raddau rydym yn cyd-fynd â'r Nodau Datblygu Cynaliadwy a byddwn yn parhau i'w defnyddio fel fframwaith cyd-destunol i lywio prosesau gwneud penderfyniadau a chyfleu ein cyfraniad at ganlyniadau cynaliadwy pan fo hyn yn gymesur ac yn berthnasol.



Hugh Ind
Swyddog Cyfrifyddu

Dyddiad 3 Gorffennaf 2026

Adroddiad Atebolrwydd



Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

Mae'r adroddiad llywodraethu corfforaethol yn amlinellu cyfansoddiad a threfniadaeth strwythurau llywodraethu BTPA, a sut maent yn helpu i oruchwylio'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig.



Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Strwythur Llywodraethu ar 31 Mawrth 2026

Yr Awdurdod

Mae Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn gyfrifol am sicrhau heddlu effeithlon ac effeithiol ar gyfer y rheilffyrdd. Fe'i sefydlwyd gan Ddeddf Diogelwch Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003.

Gweithrediaeth yr Awdurdod

Mae tîm Gweithredol yr Awdurdod yn cefnogi'r Aelodau drwy:

- Sicrhau bod prosesau effeithlon ac effeithiol ar waith i gyflawni dyletswyddau statudol yr Awdurdod
- Datblygu cynlluniau a strategaethau i ategu'r trefniadau llywodraethu ffurfiol
- Darparu swyddogaeth sicrwydd
- Cymryd perchenogaeth o'r model dyrannu costau i dalu costau plismona a'i weithredu

Dyletswyddau Statudol

- Sicrhau y cynhelir heddlu effeithlon ac effeithiol
- Sicrhau bod y rheilffyrdd yn cael eu plismona mewn ffordd effeithlon ac effeithiol
- Penodi'r Prif Gwnstabl, y Dirprwy Brif Gwnstabl a'r Prif Gwnstabliaid Cynorthwyol
- Llunio Cytundebau Gwasanaeth rhwng yr Heddlu a gweithredwyr rheilffyrdd
- Cyflogi cwnstabliaid a staff yr heddlu
- Rheoleiddio prosesau llywodraethu a gweinyddu BTP ac amodau'r rhai a gyflogir ganddo
- Pennu strategaeth, amcanion a chyllideb ar gyfer plismona'r rheilffyrdd
- Sicrhau yr ymgynghorir â'r cyhoedd yn ôl y gofyn

Is-bwyllgorau

Penodiadau, Cydnabyddiaeth ac Arfarnu

- Cymeradwyo recriwtio uwch-swyddogion BTP a Phrif Weithredwr a Phrif Swyddog Ariannol BTPA
- Monitro perfformiad blynyddol uwch-staff BTP a BTPA
- Arwain y gwaith ar faterion y gweithlu gan gynnwys amodau gwasanaeth swyddogion yr heddlu, y staff a swyddogion gwirfoddol yr heddlu
- Arwain y broses o ymgysylltu â chymdeithasau staff

Plismona Rheilffyrdd yr Alban

- Rhoi atebolrwydd a thryloywder ynghylch plismona rheilffyrdd yn yr Alban
- Goruchwylio a chraffu ar y ffordd y rheolir plismona'r rheilffyrdd yn yr Alban mewn ffordd ddiogel ac effeithiol
- Asesu gwerth am arian mewn perthynas â'r elfennau hynny o Gronfa BTPA a fuddsoddwyd ym mhlismona'r rheilffyrdd yn yr Alban a chyflwyno adroddiad arno

Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

- Adolygu a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â'r archwiliad mewnol ac allanol o BTPA
- Rhoi argymhelliad i'r Awdurdod a'r Swyddog Cyfrifyddu i lofnodi'r datganiadau ariannol a'r datganiad llywodraethu
- Cynghori'r Awdurdod ar effeithiolrwydd gynlluniau BTPA a BTP ar gyfer rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu

Y Gweithgor Pensiynau

- Goruchwylio cynlluniau pensiwn swyddogion yr heddlu a staff yr heddlu
- Cefnogi argymhellion ynglŷn â phensiynau i'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant

Cyllid, Cyfreithlondeb a Pherfformiad

- Monitro a herio perfformiad gweithredol a busnes a chyflawni cynlluniau strategol a blynyddol

Pobl a Diwylliant

- Goruchwylio ac arfarnu sut mae BTP yn ymdrin â materion sy'n ymwneud â phobl, diwylliant, arweinyddiaeth ac ymddygiadau

Strategaeth a Chynllunio

- Sicrhau dull integredig o ddatblygu'r Strategaeth, y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, y Cynllun Plismona a'r Gyllideb flynyddol

Y Panel Adolygu Cwynion

- Adolygiad annibynnol o'r ffordd y mae BTP yn ymdrin â chwynion gan aelodau'r cyhoedd
- Mae'n ystyried dysgu sefydliadol a thueddiadau sy'n codi

Llywodraethu'r Heddlu

Bwrdd Gweithredol BTP

- Pennu naws a chyfeiriad strategol BTP
- Gweithredu fel y fforwm gwneud penderfyniadau lefel uwch i BTP
- Ystyried adroddiadau prif bwyntiau gan fyrddau llywodraethu BTP a chymeradwyo cyfarwyddiadau neu roi cyfarwyddiadau pellach fel y bo'n briodol
- Ystyried risgiau lefel uchel a chamau gweithredu i liniaru risg
- Rhoi trywydd archwilio ar gyfer penderfyniadau allweddol

Grŵp Prif Swyddogion BTP

- Pennu'r cyfeiriad a datblygu cynnig y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

Awdurdod yr Heddlu

Mae'r Awdurdod yn cyfarfod hyd at chwe gwaith y flwyddyn ac mae'n ofynnol iddo wneud penderfyniadau penodol yn unol â'r dyletswyddau statudol a nodir uchod.

Penodir Cadeirydd ac Aelodau BTPA gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae'r aelodau yn cynnwys pobl sydd â phrofiad o'r diwydiant rheilffyrdd, staff rheilffyrdd, y cyhoedd sy'n teithio ac eraill sydd â phrofiad dynodedig ledled Cymru, Lloegr a'r Alban. Ni fwriedir i'r aelodau fod yn gynrychioliadol o'r buddiannau hynny ond maent i gyd yn gweithio gyda'i gilydd ac yn gweithredu fel un corff corfforaethol.

Ceir manylion yr Aelodau presennol yn adroddiad y Cyfarwyddwyr; sydd hefyd yn cyfeirio at yr is-bwyllgorau y maent yn aelodau ohonynt. Ceir y manylion ynglŷn â phresenoldeb mewn cyfarfodydd yn yr adran hon.

Is-bwyllgorau

Mae'r is-bwyllgorau a restrir isod wedi'u hamserlennu'n ffurfiol drwy gydol y flwyddyn. Nid yw hyn yn cynnwys cyfarfodydd arbennig ychwanegol gan bwyllgorau, briffiau rheolaidd dros frecwast, sesiynau hyfforddi a sesiynau i'r aelodau yn unig.

Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Cadeirir y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg gan Kenna Kintrea. Ar hyn o bryd mae pum Aelod ar y pwyllgor, cyfarfu bum gwaith yn 2025/26 ac ymgymerodd ag ystod eang o weithgareddau sicrwydd, gan gynnwys goruchwylio:

- Gweithgareddau Rheoli Risg ac Atal Twyll
- Cydymffurfiaeth ariannol, gan gynnwys paratoi cyfrifon a chydymffurfio â safonau a rheoliadau
- Y rhaglenni Archwilio Mewnol ac Archwilio Allanol
- Rhaglen arolygu Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS) ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth yr Alban Ei Fawrhydi (HMICS)
- Cyflwyno'r Ffurflen Sicrwydd Rheoli i'r Adran Drafnidiaeth
- Goruchwylio'r gwaith o gymryd camau unioni sy'n deillio o archwiliadau, adolygiadau allanol ac argymhellion i'r Adran Drafnidiaeth
- Monitro ac asesu cydymffurfiaeth â dyletswyddau statudol a pherfformiad yn eu herbyn
- Adolygu archwiliadau dwfn o risg
- Adolygu ei effeithiolrwydd yn unol â chanllawiau Llawlyfr Trysorlys EF i Bwyllgorau Archwilio a Sicrwydd Risg

Y Pwyllgor Penodiadau, Cydnabyddiaeth ac Arfarnu

Cadeiriwyd y Pwyllgor Penodiadau, Cydnabyddiaeth ac Arfarnu gan Ron Barclay-Smith tan 4 Mawrth 2026, ac yna gan Patricia Hayes. Ar hyn o bryd mae pedwar aelod ar y pwyllgor, cyfarfu ddwywaith yn 2025/26 ac ystyriodd faterion gan gynnwys:

- Penodiadau Prif Swyddogion ac Estyniadau Contractau
- Adolygiadau Perfformiad Uwch-swyddogion ac Uwch-staff
- Cyflogau Uwch-swyddogion
- Dyfarniad Cyflog 2025
- Penodi'r Dirprwy Brif Gwnstabl

Y Pwyllgor Cyllid, Cyfreithlondeb a Pherfformiad

Cadeirir y Pwyllgor Cyllid, Cyfreithlondeb a Pherfformiad gan Craig Mackey. Ar hyn o bryd mae pedwar Aelod ar y pwyllgor, cyfarfu bedair gwaith yn ystod

2025/26 ac mae'n bodoli i graffu ar y ffordd y mae BTP yn cyflawni yn erbyn blaenoriaethau'r cynllun plismona, perfformiad ariannol a masnachol a'i berfformiad mewn meysydd allweddol o Gyfreithlondeb. Yn ystod y flwyddyn, ystyriodd amrywiaeth o faterion sefydlog a thematig fel y'u nodir yn ei gynllun gwaith blynyddol, gan gynnwys:

- Monitro'r Cynllun Plismona a pherfformiad ariannol a masnachol bob chwarter
- Monitro Cyfreithlondeb bob chwarter, gan gynnwys Arestiadau, Cadw yn y Ddalfa, Defnyddio Grym, a Stopio a Chwilio
- Archwiliad Dwfn Risg Strategol o Gyfreithlondeb
- Eitemau thematig ar Ddefnyddio Pwerau Plismona, Cadw yn y Ddalfa, ymgysylltu BTP â dioddefwyr troseddau, arolygon Staff Rheilffyrdd a Theithwyr Rheilffyrdd, Strategaeth Atal Troseddau BTP, a'r heriau a achosir iddo oherwydd oedi yn y system cyfiawnder troseddol

Y Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio

Cadeirir y Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio gan Andy Cooper. Ar hyn o bryd mae pum Aelod ar y pwyllgor, cyfarfu bedair gwaith yn ystod 2025/26 ac mae'n bodoli i sicrhau dull integredig o ddatblygu'r Strategaeth, y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, y Cynllun Plismona a'r Gyllideb flynyddol. Drwy gydol y flwyddyn ystyriodd:

- Eitemau sefydlog ar Berfformiad y Cynllun Strategol a pherfformiad portffolio trawsnewid A Force on Move
- Adroddiadau perfformiad chwarterol ar raglen Ystadau Llundain BTP, a ddaeth i ben yn ystod y flwyddyn
- Datblygu Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2026/29
- Datblygu Cynllun Strategol 2026/29
- Datblygu Cynllun Plismona 2026/27
- Argymell achosion busnes i'r Awdurdod Llawn
- Strategaeth Effeithlonrwydd BTP
- Sut mae BTP yn defnyddio Dronau
- Datblygu system lywodraethu i alluogi BTP i arloesi'n well
- Strategaeth Ystadau BTP
- Adnodd Sganio'r Gorwel BTP sy'n cael ei ddatblygu
- Heriau a achosir i BTP gan Derfynau Gwariant Dirprwyo Cyfalaf a bennwyd gan yr Adran Drafnidiaeth

Pwyllgor Plismona Rheilffyrdd yr Alban

Cadeirir Pwyllgor Plismona Rheilffyrdd yr Alban gan Iain Whyte. Mae dau Aelod o BTPA a dau Aelod o Awdurdod Heddlu'r Alban (SPA) ar y pwyllgor. Cyfarfu bedair gwaith yn ystod 2025/26. Mae'r Pwyllgor yn rhoi sicrwydd i BTPA, SPA a Gweinidogion Llywodraeth yr Alban ynghylch plismona'r rheilffyrdd yn yr Alban. Drwy gydol y flwyddyn ystyriodd:

- Monitro perfformiad Cynllun Plismona BTP yn yr Alban bob chwarter
- Monitro enghreifftiau o gydweithio rhwng BTP a Heddlu'r Alban bob chwarter
- Monitro gweithgarwch archwilio ac arolygu BTP bob chwarter gyda chyfeiriad at yr Alban
- Adroddiad Gwerth Gorau blynyddol ar gyfer BTP yn yr Alban
- Eitemau llais y diwydiant gan randdeiliaid, gan gynnwys Trafnidiaeth yr Alban
- Eitemau thematig ar Ddefnyddio Pwerau Plismona, Materion Allanol BTP, Arolygon Staff Rheilffyrdd a Theithwyr Rheilffyrdd a Throseddau Manwerthu

- Adroddiad bob chwe mis ar risgiau strategol BTPA yng nghyd-destun yr Alban

Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant

Cadeirir y Pwyllgor Pobl a Diwylliant gan Nick Hawkins. Ar hyn o bryd mae pum Aelod ar y pwyllgor. Cyfarfu bedair gwaith yn 2025/26 ac ystyriodd nifer o faterion gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Monitro data perfformiad Pobl bob chwarter
- Adroddiadau ar y bwlch cyflog rhywedd ac ethnigrwydd
- Adroddiad Blynyddol ar Lesiant, Iechyd a Diogelwch
- Archwiliad Dwfn o Risg Strategol ynglŷn â Recriwtio a Chadw Staff
- Strategaeth Pobl BTP
- Cyflwyno Rheoliadau ynglŷn â BTP, gan gynnwys y rhai sy'n llywodraethu Fetio.
- Arolwg Pawb 2025 BTP

Y Gweithgor Pensiynau

Roedd y Gweithgor Pensiynau yn atebol i'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant. Fe'i cadeiriwyd gan Fiona Brunskill cyn iddi adael BTPA. Roedd yn gyfrifol am oruchwylio materion sy'n ymwneud â phensiynau mewn perthynas â'r Heddlu a'r Awdurdod, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i Brisio Cynllun Swyddogion yr Heddlu a Staff yr Heddlu, y Cynlluniau eu hunain, a Pholisi Pensiwn BTP. Daethpwyd â'r Gweithgor Pensiynau i ben yn ffurfiol ar 25 Mehefin 2025 a throsglwyddwyd ei gylch gwaith i'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant.

Y Panel Adolygu Cwynion

Mae'r Panel Adolygu Cwynion yn bodoli'n annibynnol i adolygu'r ffordd y caiff cwynion eu trin a'u canlyniad a phenderfynu a yw'r Heddlu yn ymdrin â chwynion yn rhesymol ac yn gymesur. Gall y Panel hefyd wneud argymhellion neu sylwadau ar gyfer dysgu sefydliadol. Mae hyn yn unol â Rheoliadau Cwynion a Chamymddwyn 2020 a Chanllawiau Statudol Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu. Mae'n cynnwys tri Aelod a Phennaeth Cyfreithlondeb a Pherfformiad a chyfarfu 12 gwaith (2024/25: 12).

Uwch-grŵp Dylanwad BTPA

Nid yw Uwch-grŵp Dylanwad BTPA yn is-bwyllgor ffurfiol ond yn hytrach mae'n grŵp ymgynghorol o dan gadeiryddiaeth Dirprwy Gadeirydd BTPA, Dyan Perry. Mae'n cynnwys uwch-swyddogion yn y diwydiant rheilffyrdd, ynghyd ag uwch-swyddogion ac uwch-staff o BTPA a BTP. Sefydlwyd y Grŵp gan BTPA i gynnig her a chyngor strategol iddo ynglŷn â chynllunio ariannol tymor canolig BTP, gan sicrhau bod penderfyniadau buddsoddi yn gadarn, yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r diwydiant rheilffyrdd, ac yn rhoi manteision clir. Mae hefyd yn gweithredu fel uwch-fforwm ar gyfer ymgysylltu a pharodrwydd a rennir ynglŷn â phlismona a diogelwch ar gyfer y rheilffyrdd, yn enwedig yn sgil y newid i Great British Railways. Cyfarfu'r Grŵp bedair gwaith yn ystod 2025/26 a chyfrannodd at ddatblygu Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2026/29 BTP a gymeradwywyd gan Awdurdod Llawn BTPA ym mis Rhagfyr 2025.

Aelodau'r Awdurdod



PATRICIA HAYES – Cadeirydd

Fe'i penodwyd i'r Awdurdod ar 15 Ionawr 2024 am gyfnod o bedair blynedd. Fe'i penodwyd yn Gadeirydd ar 5 Mawrth 2026 am gyfnod o bedair blynedd a chyfnod rhybudd o fis.

Cyfrifoldebau BTPA:

- Y Pwyllgor Penodiadau, Cydnabyddiaeth ac Arfarnu: Cadeirydd
- Yr Awdurdod Llawn: Cadeirydd

Penodiadau y tu allan i BTPA:

- Baringa Management Consulting: Cynghorydd
- London Travelwatch: Cadeirydd
- Cyd-fenter Skanska, Costain, Strabag: Cadeirydd, Bwrdd Partneru Tîm y Rhaglen Integredig
- Ffocws ar Drafnidiaeth: Cyfarwyddwr Anweithredol
- Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladau: Cyfarwyddwr Anweithredol
- Tricia Hayes Consultancy Ltd: Cyfarwyddwr a chyflogai



DYAN PERRY – Dirprwy Gadeirydd

Fe'i penodwyd ar 12 Chwefror 2024 am gyfnod o bedair blynedd a chyfnod rhybudd o dri mis.

Cyfrifoldebau BTPA:

- Y Pwyllgor Penodiadau, Cydnabyddiaeth ac Arfarnu: Dirprwy Gadeirydd
- Y Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio: Dirprwy Gadeirydd
- Yr Awdurdod Llawn: Dirprwy Gadeirydd

Penodiadau y tu allan i BTPA:

- Awdurdod y Rheilffyrdd Cyflym Iawn: Cyfarwyddwr Anweithredol
- Network Rail: Cyfarwyddwr Anweithredol
- Rheilffyrdd Sawdi Arabia: Cyfarwyddwr Anweithredol
- Newton: Uwch-gynghorydd



RON BARCLAY-SMITH

Fe'i penodwyd ar 5 Mawrth 2018. Fe'i hailbenodwyd ar 5 Mawrth 2022 am gyfnod o bedair blynedd a chyfnod rhybudd o dri mis. Daeth y cyfnod i ben ar 4 Mawrth 2026.

Cyfrifoldebau BTPA:

- Y Pwyllgor Penodiadau, Cydnabyddiaeth ac Arfarnu: Cadeirydd
- Yr Awdurdod Llawn: Cadeirydd

Penodiadau y tu allan i BTPA:

- Pitteadie Castle Ltd: Cyfarwyddwr
- Cyd-gyngor Cenedlaethol Gwasanaethau Tân ac Achub Awdurdodau Lleol: Cadeirydd Annibynnol
- Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth: Aelod Lleyg a Chadeirydd y Cyngor



ABDUL ELGHEDAFI

Fe'i penodwyd ar 15 Ionawr 2024 am gyfnod o bedair blynedd a chyfnod rhybudd o dri mis.

Cyfrifoldebau BTPA:

- Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
- Y Panel Adolygu Cwynion
- Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant
- Yr Awdurdod Llawn

Penodiadau y tu allan i BTPA:

- Cymdeithas Deieteg Prydain: Cyfarwyddwr (Cyfarwyddwr Anweithredol)
- Yr Adran Addysg a Llywodraeth Cymru: Asesydd Annibynnol Apeliadau a Chwynion Cyllid Myfyrwyr
- Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol: Ombwdsmon Cyswllt
- Cyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban: Aelod o'r Cyngor
- (Yn cyfateb i Gyfarwyddwr Anweithredol)
- Awdurdod Gwastraff Gogledd Llundain: Dirprwy Bennaeth Cyfreithiol
- Bwrdd Cyflogau Amaethyddol yr Alban, Llywodraeth yr Alban: Aelod (yn cyfateb i Gyfarwyddwr Anweithredol)
- Prifysgol Aberdeen: Uwch-diwtor/ Tiwtor



ALEXIA COURSE

Fe'i penodwyd ar 17 Tachwedd 2025 am gyfnod o bedair blynedd a chyfnod rhybudd o fis.

Cyfrifoldebau BTPA:

- Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
- Y Pwyllgor Cyllid, Cyfreithlondeb a Pherfformiad
- Yr Awdurdod Llawn

Penodiadau y tu allan i BTPA:

- Trafnidiaeth Cymru: Prif Swyddog Masnachol
- Pullman Rail Ltd: Cyfarwyddwr
- Transport for Wales Rail Ltd: Cyfarwyddwr
- TfW Fibre Ltd: Cyfarwyddwr
- TfW Innovation Services Ltd: Cyfarwyddwr



ANDREW COOPER

Fe'i penodwyd ar 20 Mai 2019 am gyfnod o bedair blynedd. Fe'i penodwyd yn Ddirprwy Gadeirydd Dros Dro ar 1 Rhagfyr 2020 ar sail dros dro tan 19 Mai 2023. Fe'i hailbenodwyd ar 20 Mai 2023 am gyfnod o bedair blynedd a chyfnod rhybudd o dri mis.

Cyfrifoldebau BTPA:

- Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
- Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant
- Y Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio: Cadeirydd
- Yr Awdurdod Llawn

Penodiadau y tu allan i BTPA: Dim



BRIAN LYNCH

Fe'i penodwyd ar 15 Ionawr 2024 am gyfnod o bedair blynedd a chyfnod rhybudd o dri mis.

- Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
- Y Pwyllgor Cyllid, Cyfreithlondeb a Pherfformiad: Dirprwy Gadeirydd
- Yr Awdurdod Llawn

Penodiadau y tu allan i BTPA:

- Transport for London: Pennaeth Gweithrediadau



EMMA STRAIN

Fe'i penodwyd ar 10 Tachwedd 2025 am gyfnod o bedair blynedd a chyfnod rhybudd o fis.

Cyfrifoldebau BTPA:

- Y Panel Adolygu Cwynion
- Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant
- Yr Awdurdod Llawn

Penodiadau y tu allan i BTPA:

- Coleg Eingl Ewropeaidd Hockerill: Ymddiriedolwr
- Amgueddfa Trafnidiaeth Llundain: Cyfarwyddwr
- Transport for London: Cyfarwyddwr Cwsmeriaid



EMIR FEISAL

Fe'i penodwyd ar 28 Chwefror 2022 am gyfnod o bedair blynedd a chyfnod rhybudd o dri mis. Daeth y cyfnod i ben ar 27 Chwefror 2026.

Cyfrifoldebau BTPA:

- Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg: Dirprwy Gadeirydd
- Y Pwyllgor Cyllid, Cyfreithlondeb a Pherfformiad
- Yr Awdurdod Llawn

Penodiadau y tu allan i BTPA:

- Yr Arolygiaeth Gynllunio: Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd Archwilio
- YMCA Dinas Llundain a'r Gogledd: Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol (Rhan Amser)
- Tŷ'r Cwmnïau: Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio
- Bwrdd Safonau'r Bar: Cyfarwyddwr Anweithredol
- Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd: Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio
- Y Weinyddiaeth Gyfiawnder: Ynad Heddwch, a Barnwr yn y Llys Teulu
- Abaty Wycombe, Ysgol Annibynnol i Ferched: Llywodraethwr
- Corfforaeth Datblygu Oxford Street: Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd Archwilio



FIONA BRUNSKILL

Fe'i penodwyd ar 23 Chwefror 2022 am gyfnod o bedair blynedd a chyfnod rhybudd o dri mis. Gadawodd ar 27 Mehefin 2025.

Cyfrifoldebau BTPA:

- Y Gweithgor Pensiynau: Cadeirydd
- Y Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio
- Yr Awdurdod Llawn

Penodiadau y tu allan i BTPA:

- Transport for London: Prif Swyddog Pobl



IAIN WHYTE

Fe'i penodwyd ar 6 Tachwedd 2023 am gyfnod o bedair blynedd a chyfnod rhybudd o dri mis.

Cyfrifoldebau BTPA:

- Pwyllgor Plismona Rheilffyrdd yr Alban: Cadeirydd
- Y Pwyllgor Cyllid, Cyfreithlondeb a Pherfformiad
- Yr Awdurdod Llawn

Penodiadau y tu allan i BTPA:

- Cyngor Dinas Caeredin: Cynghorydd
- Edinburgh March Riding Association Ltd: Cadeirydd/ Cyfarwyddwr
- Edinburgh International Conference Centre Limited: Cyfarwyddwr
- EDI Group Ltd: Cyfarwyddwr



KENNA KINTREA

Fe'i penodwyd ar 20 Mai 2019 am gyfnod o bedair blynedd. Fe'i hailbenodwyd ar 20 Mai 2023 am gyfnod o bedair blynedd a chyfnod rhybudd o dri mis.

Cyfrifoldebau BTPA:

- Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg: Cadeirydd
- Pwyllgor Plismona Rheilffyrdd yr Alban
- Y Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio
- Yr Awdurdod Llawn

Penodiadau y tu allan i BTPA:

- Akoroa Ltd: Perchennog a Chyfarwyddwr
- NNB Generation Company (HPC) Limited: Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol



YR ARGLWYDD JACKSON o PETERBOROUGH (STEWART JACKSON)

Fe'i penodwyd ar 28 Chwefror 2022 am gyfnod o bedair blynedd a chyfnod rhybudd o dri mis. Daeth y cyfnod i ben ar 27 Chwefror 2026

Cyfrifoldebau BTPA:

- Y Panel Adolygu Cwynion
- Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant
- Yr Awdurdod Llawn

Penodiadau y tu allan i BTPA:

- Yr Adran Drafnidiaeth: Comisiynydd Preswylwyr HS2
- Wheelpower: Cadeirydd y Pwyllgor Codi Arian
- Regen Aspire Limited: Cyfarwyddwr
- Political Insight UK Ltd: Sylfaenydd, Cadeirydd a Chyfarwyddwr
- Tŷ'r Arglwyddi: Arglwydd y Deyrnas fel y Barwn Jackson o Peterborough



MIKE JACKSON

Fe'i penodwyd ar 10 Tachwedd 2025 am gyfnod o bedair blynedd a chyfnod rhybudd o fis.

Cyfrifoldebau BTPA:

- Pwyllgor Plismona Rheilffyrdd yr Alban
- Yr Awdurdod Llawn

Penodiadau y tu allan i BTPA:

- Cyngor Dinas Sheffield: Prif Swyddog Gweithredu Dros Dro



NICK HAWKINS

Fe'i penodwyd ar 28 Chwefror 2022 am gyfnod o bedair blynedd a chyfnod rhybudd o dri mis.

Cyfrifoldebau BTPA:

- Y Pwyllgor Penodiadau, Cydnabyddiaeth ac Arfarnu
- Y Panel Adolygu Cwynion
- Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant: Cadeirydd
- Yr Awdurdod Llawn

Penodiadau y tu allan i BTPA:

- Sefydliad Siartredig y Cyfrifwyr Rheoli: Aelod o'r Pwyllgor Ymchwilio
- Cyngor y Trawsgludwyr Trwyddedig: Cadeirydd y Panel Dyfarnu
- Tenantiaeth yn Siambrau Normanton: Bargyfreithiwr (Hunangyflogedig fel tenant mewn siambrau)
- The Hawkins Consultancy Ltd: Cyfarwyddwr
- Canolfan Chwaraeon a Chymunedol Wellesbourne: Ymddiriedolwr



PAULA CARTER

Fe'i penodwyd ar 15 Ionawr 2024 am gyfnod o bedair blynedd a chyfnod rhybudd o dri mis.

Cyfrifoldebau BTPA:

- Y Pwyllgor Penodiadau, Cydnabyddiaeth ac Arfarnu
- Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant
- Y Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio
- Yr Awdurdod Llawn

Penodiadau y tu allan i BTPA:

- Mainc De-ddwyrain Llundain: Ynad Heddwch
- Rugby Football Union (RFU): Cyfarwyddwr Anweithredol
- Awdurdod Hafan Harwich: Cyfarwyddwr Anweithredol



SYR CRAIG MACKEY

Fe'i penodwyd ar 20 Mai 2019 am gyfnod o bedair blynedd. Fe'i hailbenodwyd ar 20 Mai 2023 am gyfnod o bedair blynedd a chyfnod rhybudd o dri mis.

Cyfrifoldebau BTPA:

- Y Pwyllgor Cyllid, Cyfreithlondeb a Pherfformiad: Cadeirydd
- Y Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio
- Yr Awdurdod Llawn

Penodiadau y tu allan i BTPA:

- Corff Adolygu Cyflogau Meddygon a Deintyddion: Aelod
- Adolygiad Annibynnol o Strwythurau'r Heddlu: Cynghorydd Arbennig

Swyddogion yr Awdurdod

Prif Swyddog Gweithredol

Hugh Ind

Prif Swyddog Ariannol a Thrysorydd

Sarah Church

Rubeela Qayyum (dros dro o 2 Ebrill 2024 – 7 Mai 2025)

Grŵp Prif Swyddogion BTP

Prif Gwnstabl

Lucy D'Orsi CVO QPM

Dirprwy Brif Gwnstabl

Stuart Cundy, a benodwyd ar 27 Hydref 2025

Alistair Sutherland QPM, daeth ei gyfnod mewn swydd i ben ar 22 Ebrill 2025

Prif Gwnstabl Cynorthwyol: Cyswllt Cyhoeddus a Throseddau Arbenigol

Charlie Doyle

Prif Gwnstabl Cynorthwyol: Galluoedd Arbenigol

Sean O'Callaghan OBE

Prif Gwnstabl Cynorthwyol: Plismona Rhwydwaith

Ian Drummond-Smith (Penodiad dros dro o 4 Tachwedd 2024 i 3 Tachwedd 2026)

Cyfarwyddwr Datblygu Corfforaethol

Steff Sharp

Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant

Rachael Etebar

Vanita Patel (dros dro o 27 Awst 2025 i 6 Mawrth 2026)

Presenoldeb yr Aelodau mewn Pwyllgorau rhwng Ebrill 2025 a Mawrth 2026

Enw'r aelod	Nifer cyfarfodydd yr Awdurdod Llawn a fynychwyd/nifer cyfarfodydd yr Awdurdod sydd ar gael	Nifer y Pwyllgorau Penodiadau, Cydnabyddiaeth ac Arfarnu a fynychwyd/nifer dyddiadau'r Pwyllgor sydd ar gael	Nifer cyfarfodydd y Panel Adolygu Cwynion a fynychwyd/nifer dyddiadau'r Pwyllgor sydd ar gael	Nifer cyfarfodydd y Pwyllgor Pobl a Diwylliant a fynychwyd/nifer dyddiadau'r Pwyllgor sydd ar gael
Abdul Elghedafi	4/4		12/12	4/4
Alexia Course	1/1			
Andrew Cooper	3/4			3/3
Brian Lynch	4/4			
Sir Craig Mackey	2/4			
Dyan Perry	2/4	1/1		
Emir Feisal[13]	3/3			
Emma Strain	1/1		3/3	1/1
Fiona Brunskill[14]	0/1			
Iain Whyte	4/4			
Kenna Kintrea	3/4			
Mike Jackson	1/1			
Nick Hawkins	4/4	1/1	9/12	4/4
Paula Carter	4/4	1/1		4/4
Lord Jackson[15]	3/3		8/11	3/3
Tricia Hayes	4/4	1/1		3/4
Ron Barclay-Smith[16]	3/3	1/1		

[13] Gadawodd Emir Feisal ar 27 Chwefror 2026
[14] Gadawodd Fiona Brunskill ar 27 Mehefin 2025
[15] Gadawodd yr Arglwydd Jackson ar 27 Chwefror 2026
[16] Gadawodd Ron Barclay-Smith ar 4 Mawrth 2026

Presenoldeb yr Aelodau mewn Pwyllgorau rhwng Ebrill 2025 a Mawrth 2026

Enw'r aelod	Nifer cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a fynychwyd/ nifer dyddiadau'r Pwyllgor sydd ar gael	Nifer cyfarfodydd y Pwyllgor Cyllid, Cyfreithlondeb a Pherfformiad a fynychwyd/ nifer dyddiadau'r Pwyllgor sydd ar gael	Nifer cyfarfodydd y Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio a fynychwyd/nifer dyddiadau'r Pwyllgor sydd ar gael	Nifer cyfarfodydd Pwyllgor Plismona Rheilffyrdd yr Alban a fynychwyd/nifer dyddiadau'r Pwyllgor sydd ar gael
Abdul Elghedafi	5/5			
Alexia Course	1/1	1/1		
Andrew Cooper	5/5		4/4	
Brian Lynch	5/5	3/4		
Sir Craig Mackey		4/4	3/4	
Dyan Perry			3/4	
Emir Feisal[17]	3/4	3/3		
Emma Strain				
Fiona Brunskill[18]			1/1	
Iain Whyte		3/3		4/4
Kenna Kintrea	5/5		4/4	4/4
Mike Jackson				1/1
Nick Hawkins				
Paula Carter			4/4	
Lord Jackson[19]				
Tricia Hayes		4/4		1/1
Ron Barclay-Smith[20]				

[17] Gadawodd Emir Feisal ar 27 Chwefror 2026
[18] Gadawodd Fiona Brunskill ar 27 Mehefin 2025
[19] Gadawodd yr Arglwydd Jackson ar 27 Chwefror 2026
[20] Gadawodd Ron Barclay-Smith ar 4 Mawrth 2026

Trefniadau pensiwn

Mae BTP yn dilyn IAS 19: Buddiannau Cyflogeion sydd wedi arwain at gofnodi rhwymedigaethau Cronfa Bensiwn yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ("Cynllun Swyddogion yr Heddlu") ac Adran Cost a Rennir yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yng Nghynllun Pensiwn y Rheilffyrdd ("Cynllun y Staff") ar y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol. Cyfeiriwch at Nodyn 23 am ddatgeliad pellach ynghylch y ddau gynllun pensiwn. Cyfeiriwch at Nodyn 2.19 am bolisi cyfrifyddu BTPA ar gyfer pensiynau.

Cynhaliwyd y prisiad llawn diwethaf o Gynllun Swyddogion yr Heddlu ar 31 Rhagfyr 2024. Roedd ganddo sylfaen asedau gwerth £1,615 miliwn a lefel ariannu Darpariaethau Technegol o 126%.

Cynhaliwyd y prisiad llawn diwethaf o Gynllun y Staff ar 31 Rhagfyr 2022. Roedd ganddo sylfaen asedau gwerth £244 miliwn a lefel ariannu Darpariaethau Technegol o 109%.

Archwilwyr

Mae cyfrifon Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn cael eu harchwilio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Diogelwch Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003. Cost yr archwiliad yw £179,800 (2024/25: £171,500). Mae'r gwaith o gynnal yr archwiliad hwn wedi'i is-gontractio i KPMG LLP. Ni wnaeth KPMG LLP na'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol unrhyw waith nad yw'n waith archwilio ar gyfer BTPA (2024/25: £dim).

Hyd y gŵyr y Prif Weithredwr fel y Swyddog Cyfrifyddu, mae'r holl wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Digwyddiadau sy'n ymwneud â Data Personol

Yn ystod 2025/26, cofnodwyd 104 o ddigwyddiadau sy'n ymwneud â data personol (2024/25: 81). Aseswyd pob digwyddiad am fygythiad, risg a niwed a chymerwyd camau lliniaru priodol. Hysbyswyd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am bedwar digwyddiad (2024/25: naw), y mae tri ohonynt wedi'u cau heb fod angen cymryd unrhyw gamau pellach; mae un yn aros am ymateb o hyd ar y dyddiad adrodd.

Cafwyd pum atgyfeiriad Pryder Diogelu Data oddi wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ystod y flwyddyn (2024/25: naw). Caewyd pob un heb gamau gorfodi ffurfiol.

Digwyddiadau ar ôl y dyddiad adrodd

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau i'w nodi. Awdurdododd y Swyddog Cyfrifyddu y datganiadau ariannol hyn i'w cyhoeddi ar ddyddiad llofnod y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.



Hugh Ind
Swyddog Cyfrifyddu

Dyddiad 3 Gorffennaf 2026

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Ddeddf Diogelwch Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth (2003), mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cyfarwyddo BTPA i baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar y ffurf a'r sail a nodwyd yn y Cyfarwyddyd Cyfrifyddu. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o sefyllfa BTPA a'i incwm a'i wariant, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, newidiadau yn ecwiti trethdalwyr a llifau arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth ac yn benodol i:

- Dilyn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- Llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- Nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u nodwyd yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau perthnasol yn y datganiadau ariannol;
- Paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol;
- Cadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a chymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon a'r dyfarniadau sy'n ofynnol er mwyn penderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae Swyddog Cyfrifyddu'r Adran Drafnidiaeth wedi dynodi'r Prif Swyddog Gweithredol yn Swyddog Cyfrifyddu Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig. Hefyd, mae'r Prif Swyddog Gweithredol, gyda chytundeb yr Adran Drafnidiaeth, wedi penodi'r Prif Gwnstabl yn Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol, i fod yn atebol am yr adnoddau a'r asedau, y rhwymedigaethau a'r llifau arian cysylltiedig sydd o dan ei rheolaeth. Nid yw'r penodiad hwn yn effeithio ar gyfrifoldeb cyffredinol y Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer cyfrifon BTPA.

Mae cyfrifoldeb statudol ar y Prif Gwnstabl am gyfeiriad a rheoli'r Heddlu ac mae'n ofynnol iddi roi sylw i'r cynlluniau a'r strategaethau a gyhoeddir gan yr Awdurdod. Mae Cod Llywodraethu Corfforaethol yr Awdurdod yn nodi'r berthynas rhwng cyfrifoldebau statudol y Prif Gwnstabl a'i chyfrifoldebau yn y gyfraith gyffredin, ei hannibyniaeth ym materion plismona a chyfrifoldebau'r Prif Gwnstabl fel Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol. Mae'r rhain yn cynnwys rheoli BTP a'i wariant, a chyfrifoldeb ar y cyd am baratoi'r cyfrifon hyn. Mae'r penodiad hwn yn adlewyrchu'r ymreolaeth y mae BTPA yn ei rhoi i BTP wrth wario'r gyllideb a roddir iddo gan BTPA, ac annibyniaeth lawn BTP mewn materion plismona. Fodd bynnag, rôl BTPA o hyd yw goruchwylio BTP yn briodol.

Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu yn cynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano; am gadw cofnodion priodol; a diogelu asedau BTPA , fel y'u nodwyd yn Managing Public Money a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF.

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd pob cam y dylwn fod wedi ei gymryd i fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod archwilwyr Cronfa BTP yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd y gwn i, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.

Rwyf hefyd yn cadarnhau bod yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy, ac rwy'n cymryd cyfrifoldeb personol am bob barn a luniwyd er mwyn sicrhau eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.



Datganiad Llywodraethu

Cyflwyniad y Swyddog Cyfrifyddu i lywodraethu corfforaethol

Fel Swyddog Cyfrifyddu Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, rwy'n gyfrifol am gynnal system effeithiol o lywodraethu, rheolaeth fewnol a rheoli risg.

Mae Prif Swyddog Ariannol BTPA yn cyflawni rôl Trysorydd yr Awdurdod sy'n gyfrifol am reoli Cronfa BTP yn briodol. Mae hyn yn galluogi BTPA i gael cyngor ariannol annibynnol ym mhob agwedd ar ei weithgarwch, gan gynnwys y broses cynllunio strategol a llunio polisïau, a hefyd ar faterion cyllidebol.

Penodir y Prif Gwnstabl yn Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol gyda chyfrifoldeb am gyllideb, trafodiadau a materion cysylltiedig BTP sy'n ymwneud â rheoli ariannol, polisïau, nodau ac amcanion BTP. Mae hyn yn gofyn am ffocws cyfartal ar reolaethau mewnol a rheoli risg – y caf sicrwydd yn eu cylch.

Fel Corff Hyd Braich o dan yr Adran Drafnidiaeth, mae Cadeirydd a Gweithrediaeth BTPA yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd â swyddogion. Ym mis Awst 2025, amlinellodd yr Ysgrifennydd Gwladol feysydd â blaenoriaeth ar gyfer BTPA. Diweddarwyd y brif ddogfen lywodraethu â'r adran noddi, y Fframwaith, yn ystod 2025/26 er mwyn sicrhau bod blaenoriaethau a ffyrdd o weithio'r adran yn cael eu hadlewyrchu'n gywir ac, ar adeg ysgrifennu, roedd yn cael ei chymeradwyo'n derfynol gan Drysorlys EF.

Mae llywodraethu a rheoli yn golofn graidd o'r Fframwaith Risg a Rheoli yn Llyfr Oren Trysorlys EF. Drwy'r sefydliad cyfan, mae sylfaen sefydledig ac aeddfed sy'n cefnogi atebolrwydd, prosesau gwneud penderfyniadau effeithiol a naws arweinyddiaeth. Mae sefyllfa unigryw BTPA, sef lle mae'r diwydiant rheilffyrdd a phlismona yn croesi, yn golygu bod angen trefniadau llywodraethu sy'n ymestyn i bartneriaid allanol. Mae'r penderfyniad i greu Uwch-grŵp Dylanwad ym mis Medi 2025 wedi cynnig dolen gyswllt effeithiol rhwng rhanddeiliaid y diwydiant a'n strwythurau llywodraethu. Bydd gwelliant parhaus yn y maes hwn, gan gynnwys mwy o gysondeb yn arferion y bwrdd ac integreiddio rheoli risg yn ddyfnach yn BTP a BTPA, yn helpu i gyflawni amcanion strategol diwygiedig BTPA.

Ar y cyfan, mae rolau a chyfrifoldebau yn glir a chynhelir y galluoedd a'r atebolrwyddau sydd eu hangen i gynnal rheolaethau mewnol cryf. Fodd bynnag, fel sefydliad darbodus, mae risg ynghylch rhai unigolion allweddol lle mae diffyg gwydnwch yn creu gwendidau. Gallai bylchau mewn dogfennaeth, fel dirprwyo rolau mewn prosesau, waethygu'r risg hon, er anfantais i'r broses o gyflawni'r strategaeth. Mae maint y newid yn BTP yn golygu bod angen ffurfioli atebolrwyddau sy'n datblygu, yn enwedig ym maes cyflawni rhaglenni.

Mae strategaeth, cynllunio a phrosesau adrodd yn sylfaen gryf arall o fframwaith Risg a Rheoli yn BTPA. Yn sail i'r gwaith o gyflawni strategaeth 2027-2029 a'n cynllun ariannol tymor canolig amlflwydd cyntaf roedd diwylliant llywodraethu aeddfed a dull gweithredu strwythuredig a chydweithredol. Roedd deall y dirwedd newidiol o ran galw am blismona ac o fewn yr amgylchedd rheilffyrdd yn sail i'r

penderfyniadau hyn. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd aeddfedu ein data i lywio penderfyniadau a phrosesau adrodd; a byddwn yn ceisio integreiddio data hanesyddol â gwaith cynllunio yn well.

Wrth gydymffurfio â safonau, polisïau a gweithdrefnau, rydym yn hyrwyddo diwylliant o atebolrwydd ac yn meithrin ymddiriedaeth ymhlith ein rhanddeiliaid a'r cyhoedd. Mae gofynion statudol ar gyrff plismona a chyhoeddus rydym yn ceisio sicrwydd yn seiliedig ar risg yn eu cylch. Mae map sicrwydd yn rhoi darlun o'r hyn a gwmpesir sydd ar waith. Rydym yn croesawu arolygiadau plismona gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth, Gwasanaethau Tân ac Achub EF. Trefniadau'r ddalfa oedd prif faes yr arolygiad yn 2025/26, a arweiniodd at sgôr gadarnhaol. O ran sicrwydd arall a gafwyd yn 2025/26, croesawyd y sgôr archwilio mewnol sylweddol o'n cydymffurfiaeth â GDPR y flwyddyn hon.

Drwy gydol 2025/26, a hyd at ddyddiad llofnodi'r Cyfrifon, rwyf wedi ceisio sicrwydd i fodloni fy hun bod y system lywodraethu, rheolaethau mewnol a rheoli risg wedi'u cynllunio'n effeithiol ac yn gweithredu'n effeithiol. Ceir crynodeb o effeithiolrwydd y trefniadau hyn isod.

Effeithiolrwydd y Bwrdd

Mae BTPA yn cynnal Adolygiadau o Effeithiolrwydd y Bwrdd yn unol â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet, gan asesu yn erbyn pob un o'r 15 maes meincnodi dros gylch tair blynedd. Roedd yr adolygiad mwyaf diweddar yn cynnwys canfyddiadau o Archwiliad Mewnol o Lywodraethu a chafodd ei ystyried gan yr Awdurdod Llawn ym mis Mehefin 2025. Arweiniodd hyn at Gynllun Gwella a roddwyd ar waith yn ystod 2025/26. Ymhlith y meysydd dan sylw roedd gwneud penderfyniadau, ansawdd gwybodaeth, rheoli risg a chysondeb â blaenoriaethau Gweinidogol.

Yn sail i'r gweithgarwch hwn ar Effeithiolrwydd y Bwrdd mae adolygiadau blynyddol o gylchoedd gorchwyl a chynlluniau gwaith y Pwyllgorau, ac i ba raddau y mae pob Pwyllgor yn cyfrannu at oruchwyliaeth gyfannol o BTP. Yn ystod y flwyddyn, cwblhaodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg hunanasesiad o effeithiolrwydd hefyd gan ddefnyddio Adnodd Hunanasesu Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth a ddaw o Lawlyfr Trysorlys Ei Fawrhydi i Bwyllgorau Archwilio a Sicrwydd Risg. Ymhlith y camau gweithredu a nodwyd i'w cyflawni yn 2026/27 roedd aeddfedrwydd rheoli risg, sicrwydd mwy systematig ynghylch dyletswyddau statudol a sgiliau pwyllgorau a chynllunio ar gyfer olyniaeth.

Llywodraethu Risg Gwybodaeth

Mae BTPA yn cydnabod pwysigrwydd rheoli risg gwybodaeth yn effeithiol o ran cefnogi gweithrediadau diogel a chyfreithlon. Mae cydymffurfio â fframweithiau polisi diogelwch Swyddfa'r Cabinet, canllawiau'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol, gofynion y Swyddfa Gartref a deddfwriaeth diogelu data'r DU yn orfodol.

Cefnogir llywodraethu risg gwybodaeth drwy drefniadau perchnogaeth wedi'u diffinio, strwythur llywodraethu sicrwydd gwybodaeth sefydledig ac adroddiadau rheolaidd i uwch-reolwyr, Bwrdd Gweithredol yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Mae rolau a chyfrifoldebau ynglŷn ag asedau gwybodaeth wedi'u diffinio'n glir, ac mae rheolaethau yn gweithredu dros gylch oes y wybodaeth.

Caf sicrwydd ynghylch risg gwybodaeth drwy'r trefniadau llywodraethu ac adrodd hyn.

Cydymffurfiaeth â'r Gymraeg

Mae'r Awdurdod yn ymrwymedig i sicrhau'r un mynediad at ein gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg ag a roddwn i siaradwyr Saesneg. Pan fyddwn yn cynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, mae dyletswydd gyfreithiol arnom i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

Yn unol â'n polisi ar gydymffurfio â Deddf yr Iaith Gymraeg, mae cyhoeddiadau BTPA yn cael eu paratoi a'u cyhoeddi yn Gymraeg. Ni chynhaliwyd unrhyw gyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru yn 2025/26.

Rheolaeth Fewnol

Diben y system rheolaeth fewnol yw rheoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg o fethu. Mae'n cynnwys polisïau, gweithdrefnau, awdurdodau dirprwyedig, monitro perfformiad a dulliau goruchwylio sy'n gweithredu ym mhob rhan o BTPA a BTP.

Cefnogir effeithiolrwydd rheolaethau gan sicrwydd ar draws y tair llinell amddiffyn. Pan fydd bylchau neu ddiffygion mewn rheolaeth yn cael eu nodii, cânt eu monitro drwy'r strwythur llywodraethu perthnasol.

Rheolaethau Ariannol a Phriodoldeb

Mae BTPA yn cael darpariaeth gyllidebol gan yr Adran Drafnidiaeth ac mae'n ofynnol iddo weithredu o fewn terfynau gwariant dirprwyedig. Er mwyn caniatáu annibyniaeth weithredol, mae llawer o'r gyllideb hon wedi'i dirprwyo i BTP, ac mae trefniadau atebolrwydd wedi'u diffinio.

Mae rheolaethau ariannol yn cynnwys fframweithiau awdurdod dirprwyedig, monitro cyllidebau'n rheolaidd, hyfforddiant i ddeiliaid cyllidebau ac adroddiadau chwarterol ar sicrwydd i Fwrdd Sicrwydd Cyllid.

Cafwyd un gymeradwyaeth ôl-weithredol gan Drysorlys EF yn 2025/26 pan nad oedd BTP wedi nodi taliad setliad fel un newydd neu ddadleuol. Bu'n destun adolygiad o wersi a ddysgwyd, gan arwain at reolaethau cryfach. Gwnaeth BTP dorri ei ddirprwyaeth fewnol ar un achlysur, pan oedd gwariant yn fwy na'r gymeradwyaeth gytundebol, a oedd hefyd yn destun ymarfer gwersi a ddysgwyd a oedd yn mynd rhagddo ar adeg ysgrifennu.

Ni chafwyd unrhyw achosion eraill o dorri rheolaethau ariannol yn 2025/26.

Twyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth

Mae BTPA yn dilyn Safonau Swyddogaethol Atal Twyll Swyddfa'r Cabinet ac yn cymryd camau gweithredu cadarn os nodir unrhyw dwyll, llwgrwobrwyo neu lygredigaeth. Cynhelir ymchwiliad cynhwysfawr i unrhyw achosion a amheuir yn unol â Pholisi Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredigaeth BTP. Mae'r polisi ar gael i'w ddarllen ar wefan BTPA.

Yn unol ag arfer gorau, mae BTP a BTPA yn rhagweithiol o ran atal a chanfod, gan ddefnyddio asesiadau risg i bennu ffrydiau gwaith a meysydd ffocws. Cynhelir Asesiadau Risg Twyll Cychwynnol ar gyfer meysydd gwariant newydd gwerth uchel neu arloesol, er mwyn deall risgiau twyll yn rhagweithiol ar y cyfle cyntaf posibl.

Mae gan BTP a BTPA Strategaeth Atal Twyll a Chynllun Ymateb cyhoeddedig sy'n manylu ar y meysydd ffocws â blaenoriaeth ar gyfer gwaith atal twyll a gwaith gorfodi ac maent yn cymryd rhan mewn rhaglen hyfforddiant ac ymwybyddiaeth i'r holl gyflogeion.

Codi Llais a Chwythu'r Chwiban

Mae gan BTP a BTPA bolisïau chwythu'r chwiban sydd wedi cael cyhoeddusrwydd da. Anogir cyflogeion yn weithredol i 'godi llais' a chodi unrhyw bryderon. Ceir system rhoi gwybod yn ddienw lle gall cyflogeion roi gwybod am unrhyw amheuon neu bryderon. Cynyddodd y defnydd o systemau rhoi gwybod mewnol cyfrinachol yn ystod y flwyddyn, gan roi sicrwydd cadarnhaol ynghylch hyder y gweithlu i roi gwybod am bryderon ynglŷn ag ymddygiad ac uniondeb.

Cyflwynir adroddiadau chwythu'r chwiban i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg bob chwarter. Rhoddir adolygiad manwl i'r aelodau bob blwyddyn ochr yn ochr â hyfforddiant gloywi.

Cyfreithlondeb

Mae'r broses o oruchwylio safonau proffesiynol a chyfreithlondeb wedi'i hymgorffori yn fframwaith llywodraethu BTP ac mae'n destun craffu rheolaidd drwy ei drefniadau goruchwylio a'i strwythurau llywodraethu a goruchwyliaeth gan BTPA. Mae'r trefniadau hyn yn cefnogi goruchwyliaeth, herio a dysgu sefydliadol effeithiol.

Yn ystod y flwyddyn, llwyddodd yr Adran Safonau Proffesiynol i ymdopi â galw cynyddol o ran cwynion a materion ymddygiad, gan adlewyrchu tueddiadau ehangach ym maes plismona. Ymdriniwyd â hyn drwy ffocws o hyd ar ymyrryd yn gynnar, ymdrin ag achosion yn gymesur ac adfer gwasanaeth, gan leihau'r angen i uwchgyfeirio achos i ymchwiliad ffurfiol lle y bo'n briodol.

Mae amseroldeb ymchwiliadau a'r ffordd yr ymdrinnir â chwynion yn parhau i fod yn faes ffocws. Mae gwelliannau wedi cael eu gwneud yn ystod y flwyddyn er gwaethaf llwythi achosion cynyddol. Mae canlyniadau mewn achosion o gamymddwyn yn dal i gael eu cymhwyso'n gyson ac yn gymesur.

Mae dull ataliol yn parhau i fod yn ganolog i drefniadau cyfreithlondeb, gyda gweithgarwch ymyrryd yn gynnar wedi'i dargedu sy'n cefnogi gwelliannau mewn ymddygiad, diwylliant a hyder goruchwylwyr. Mae'r defnydd cynyddol o 'Ymarfer Myfyriol' yn dangos mwy o hyder ymhlith goruchwylwyr i fynd i'r afael â phryderon ar gam cynnar ac mewn ffordd gymesur ac adeiladol.

Mae goruchwylio'r defnydd o bwerau'r heddlu yn parhau i fod yn flaenoriaeth graidd o ran cyfreithlondeb. Ceir fframwaith llywodraethu strwythuredig, sy'n cyfuno craffu mewnol, gwybodaeth ddadansoddol a her allanol, gan gynnwys defnyddio cyrff cynghori annibynnol. Mae hyn yn sicrhau bod y defnydd o bwerau yn gymesur, y gellir ei gyfiawnhau a'i fod yn cael ei adolygu'n briodol.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth BTP dreialu trefniadau craffu allanol ar benderfyniadau yr Adran Safonau Proffesiynol hefyd. Roedd yr adborth gan wirfoddolwyr annibynnol yn gadarnhaol, felly mae trefniadau ar y gweill i ffurfioli'r paneli craffu allanol hyn, er mwyn cryfhau tryloywder, atebolrwydd a hyder y cyhoedd.

Gweithdrefnau Fetio

Erys fetio yn rheolaeth hollbwysig o hyd o ran cynnal hyder y cyhoedd a sicrhau mai dim ond y rhai sy'n addas i wasanaethu ym maes plismona sy'n cael eu penodi a'u cadw. Mae'n gymwys i swyddogion yr heddlu, staff yr heddlu, contractwyr a phersonél eraill nad ydynt yn aelodau o'r heddlu.

Yn ystod y flwyddyn, roedd BTP yn gweithredu mewn amgylchedd fetio heriol, a nodweddwyd gan weithgarwch recriwtio cynyddol, cyfraddau gwrthod cynyddol a newid rheoleiddiol sylweddol. Mae gwelliannau o ran amseroldeb fetio wedi'u sicrhau drwy adnoddau ychwanegol a gwella prosesau.

Ar yr un pryd, mae'r broses o wneud penderfyniadau fetio wedi mynd yn fwy cymhleth, gyda chynnydd mewn cyfraddau gwrthod sydd wedi'i ysgogi gan safonau cryfach, Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig wedi'i ddiweddaru ac asesiadau sy'n seiliedig ar guddwybodaeth. Mae gweithgarwch apelio wedi cynyddu yn unol â hynny, ac mae trefniadau craffu ychwanegol wedi cael eu cyflwyno er mwyn sicrhau bod penderfyniadau'n parhau i fod yn gadarn ac yn amddiffynadwy.

Gwnaeth BTPA roi Rheoliadau Fetio newydd a Phroses Tynnu'n ôl Fetio Staff yr Heddlu ar waith yn ystod y flwyddyn, gyda chymorth hyfforddiant, canllawiau wedi'u diweddaru a threfniadau llywodraethu diwygiedig. Mae'r newidiadau hyn yn cryfhau'r fframwaith fetio yn sylweddol ac yn sicrhau bod BTP yn gweithredu'n unol â gofynion cenedlaethol diwygiedig.

Rheoli Buddiannau Allanol

Ceir manylion am rolau'r Aelodau y tu allan i BTPA yn adroddiad y Cyfarwyddwyr. Cedwir cofrestr o fuddiannau yn yr Awdurdod ar gyfer Aelodau BTPA a'r staff Gweithredol; ac ar wahân yn BTP ar gyfer ei uwch-bersonél. Hefyd, mae'r polisi ynglŷn â Buddiannau Busnes yn nodi'r gofynion i bob cyflogai. Cedwir Cofrestr Buddiannau Busnes ar gyfer pob aelod o'r staff er mwyn iddynt allu rhoi gwybod am gyflogaeth eilaidd (gan gynnwys gwaith gwirfoddol) a rhaid i gydweithwyr sy'n ymwneud â chaffael ddatgan unrhyw fuddiannau fel rhan o'r broses honno.

Mae polisïau BTP a BTPA ynglŷn â rhoddion a lletygarwch yn diffinio'r ffordd briodol o ymdrin ag unrhyw roddion neu letygarwch a dderbynnir neu a gynigir. Caiff pob achos ei gofnodi a'i fonitro a cheisir cymeradwyaeth gan y person awdurdodi perthnasol. Caiff y rhain eu hadolygu bob chwarter yn y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Anfonir nodiadau atgoffa at gyflogeion yn rheolaidd.

Sicrwydd

Archwilio Mewnol

Darperir gwasanaethau archwilio mewnol gan Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth (GIAA). Mae'n cyflawni rhaglen archwilio flynyddol yn seiliedig ar risg sy'n cwmpasu trefniadau llywodraethu, rheolaethau ariannol, risg weithredol a chydymffurfiaeth.

Ar gyfer 2025/26, rhoddodd **farn sicrwydd gymedrol ar y cyfan (2024/25: Cymedrol)**, wedi'i ddiffinio fel 'mae angen rhai gwelliannau i wella effeithiolrwydd llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol'. Cafodd y rhan fwyaf o archwiliadau unigol sicrwydd cymedrol, gydag un farn sicrwydd sylweddol mewn perthynas â deddfwriaeth diogelu data. Yn ogystal ag wyth ymrwymiad archwilio, cynhaliodd yr Asiantaeth adolygiad ymgynghorol o fodel Cynllun Ariannol Tymor Canolig BTPA. O gymharu â 2024/25, cydnabu'r Asiantaeth welliant cynyddrannol yn yr amgylchedd rheoli o fewn y sgôr 'gymedrol', gyda'r gwelliannau'n dangos ymrwymiad y rheolwyr i barhau i gryfhau trefniadau llywodraethu a rheolaethau.

Ymhlith y themâu allweddol a nodwyd drwy'r archwiliadau roedd eglurder

atebolrwydd mewn rhai amgylcheddau rheoli a chyfleoedd i wella effeithiolrwydd systemau a phrosesau. Mae'r rheolwyr wedi derbyn pob un o'r argymhellion archwilio mewnol ac mae cynnydd yn cael ei fonitro drwy drefniadau llywodraethu sefydledig. Un maes cyffredinol i'w wella a nodwyd yw cwblhau gweithredu ar argymhellion erbyn y dyddiad y cytunwyd arno. Bydd cynnydd o ran gweithredu ar argymhellion yn parhau i gael ei fonitro'n fanwl.

FFurflen Sicrwydd Rheoli

Mae BTPA yn cyflwyno Ffurflen Sicrwydd Rheoli flynyddol i'r Adran Drafnidiaeth, sy'n rhoi sicrwydd ynghylch meysydd allweddol llywodraethu a rheolaeth fewnol. Cefnogir yr asesiad gan dystiolaeth o sawl ffynhonnell o sicrwydd ac mae'n destun adolygiad ail linell amddiffyn annibynnol.

Caiff cynnydd yn erbyn cynlluniau gweithredu'r Ffurflen Sicrwydd Rheoli ei adolygu bob chwarter gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Arolygiad ac Adolygiad Allanol

O dan Ddeddf Diogelwch Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003, gall Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi gael ei phenodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol i asesu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd BTP yn annibynnol. Mae BTP hefyd yn cael ei arolygu a'i adolygu gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Fawrhydi yn yr Alban. Yn ystod y flwyddyn, roedd arolygiadau yn cwmpasu trefniadau'r ddalfa a meysydd thematig cenedlaethol. Ymdrinnir ag argymhellion sy'n deillio o arolygiadau drwy gynlluniau gweithredu ffurfiol a chânt eu monitro drwy drefniadau llywodraethu.

Ffynonellau Eraill o Sicrwydd

Caiff map sicrwydd ei gynnal a'i adolygu gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, sy'n nodi'r cwmpas sicrwydd ar draws y tair llinell amddiffyn ar gyfer pob risg strategol. Ceir sicrwydd ychwanegol o archwiliadau arbenigol, arolygiadau rheoleiddiol ac adolygiadau mewnol o gydymffurfiaeth. Yn ystod y flwyddyn, arweiniodd archwiliadau annibynnol o Iechyd, Diogelwch a Llesiant a Seiberddiogelwch at sgoriau sicrwydd gwell.

Safonau Swyddogaethol y Llywodraeth

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu wedi penodi'r Prif Swyddog Ariannol fel yr uwch-swyddog sy'n gyfrifol am oruchwylio cydymffurfiaeth â Safonau Swyddogaethol y Llywodraeth. Yn ystod y flwyddyn, adolygodd BTPA gydymffurfiaeth â'r Safonau Swyddogaethol. Cyflwynwyd adroddiad ar yr asesiad hwn i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Er nad yw'r gyfres lawn o safonau wedi cael ei rhoi ar waith llawn eto, mae ffynonellau eraill o sicrwydd ar gael.

Rheoli Risg

Mae BTPA yn ymdrin â rheoli risg mewn ffordd strwythuredig, drwy nodi 'prif' risgiau strategol, eu hasesu a'u monitro (gweler y Prif Risgiau isod).

Cynhaliwyd gweithdy blynyddol ar risgiau strategol gydag Aelodau, Gweithrediaeth a Phrif Swyddogion BTPA ym mis Ionawr 2026 i sganio'r gorwel, ystyried parodrwydd i gymryd risg ac adolygu risgiau a chyfleoedd strategol. Ystyriwyd y risgiau strategol yn erbyn y Strategaeth ar ei newydd wedd ac mae adborth o'r gweithdy yn cael ei ddefnyddio i ddiweddaru'r Gofrestr Risg Strategol. Nodwyd dau gyfle newydd: arloesedd a phlismona, diwygio'r rheilffyrdd a diwygiadau ehangach. Mae'r fframwaith parodrwydd

i gymryd risg a'r prosesau adrodd yn cael eu mireinio'n barhaus, er mwyn ymgorffori risg yn well drwy'r sefydliad cyfan.

Roedd rheoli risg yn eitem sefydlog ym mhwyllgorau BTPA a Bwrdd Gweithredol yr Heddlu. Neilltuwyd y dasg o oruchwylio risgiau strategol penodol i bwyllgorau a oedd yn cyd-fynd â'u cyfrifoldebau, gyda'r Pwyllgor Archwilio yn gyfrifol am oruchwylio gweithgarwch rheoli risg yn gyffredinol ar ran y Bwrdd. Parhaodd yr Awdurdod i fod yn atebol yn gyffredinol am y gofrestr risg strategol.

Mae Fframwaith Rheoli Risg BTPA yn cyd-fynd â Llyfr Oren Rheoli Risg Trysorlys EF. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd asesiad yn erbyn Matrics Asesu'r Llyfr Oren ar sail 'cydymffurfio neu egluro'. Nododd hyn gydymffurfiaeth gryf yn yr adrannau Llywodraethu ac Arweinyddiaeth, Cydweithio a Gwybodaeth a Gwelliant Parhaus. Mae cyfleoedd i ddatblygu ymhellach, yn enwedig mewn perthynas â phrosesau, yn cael eu datblygu drwy'r gwaith adnewyddu sy'n mynd rhagddo.

Ymdrinnir â chamau gweithredu sy'n codi drwy'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Cynhaliwyd archwiliadau dwfn strwythuredig o bedair risg strategol yn ystod y flwyddyn. Ategwyd hyn gan y penderfyniad i gyflwyno Dangosyddion Risg Allweddol i gryfhau goruchwyliaeth sy'n seiliedig ar ddata. Bu'r broses hon yn fodd i archwilio'r risgiau yn llawn a, lle y bo'n briodol, eu hailbennu a'u hailganolbwyntio er mwyn sicrhau bod y risgiau yn dal i fod yn berthnasol ac yn cael eu rheoli.

Caiff camau lliniaru eu neilltuo i berchnogion risg a'u monitro drwy drefniadau llywodraethu ac adrodd sefydledig. Adolygir effeithiolrwydd rheolaethau drwy fyrddau llywodraethu, gweithgarwch sicrwydd annibynnol ac adroddiadau rheolaidd, ac mae adolygiadau chwarterol yn cadarnhau camau gweithredu i reoli risgiau yn unol â'r parodrwydd i gymryd risg.

Nodir yr asesiad cyfredol o'r prif risgiau ac ansicrwydd isod. .



Prif Risgiau ac Ansicrwydd

Allwedd i Amcanion Strategol 2022-27:

- **Atal troseddau a diogelu er mwyn lleihau'r tebygolrwydd y bydd pobl yn cael eu niweidio ar y rheilffyrdd**
- **Targedu ein hymdrechion i sicrhau bod llai o bobl yn dioddef y troseddau mwyaf difrifol**
- **Arloesi a chydweithio â'n rhanddeiliaid i leihau achosion o darfu**
- **Meithrin ymddiriedaeth a hyder teithwyr a staff rheilffyrdd i drechu troseddoldeb gyda'n gilydd**
- **Cynhyrchu gwerth am arian drwy fanteisio ar dechnoleg, gan ymaddasu at y dyfodol**
- **Adeiladu Heddlu modern a chynhwysol lle mae ein pobl yn cael cyfarpar da, hyfforddiant da, eu harwain yn dda, gofal da ac yn adlewyrchu elfennau gorau ein cymunedau**

Allwedd i Dueddiadau yn y Dyfodol

(Tymor canolig – hirdymor, dros yr 1–3 blynedd nesaf):

Disgwylir i'r risg aros yn sefydlog:

Disgwylir i'r risg gynyddu dros y 1-3 blynedd nesaf:

Disgwylir i'r risg leihau dros y 1-3 blynedd nesaf:

Risg	Camau Lliniaru Allweddol sydd ar waith	Tuedd yn y Dyfodol (1-3 blynedd)
Recriwtio a Chadw: Oherwydd cystadleuaeth ym maes recriwtio, cadw a datblygu gyrfaoedd, efallai na fydd BTP na'r Awdurdod yn gallu cynnal lefelau digonol o gyflogeion talentog sydd â'r sgiliau a'r gwerthoedd sydd eu hangen i gyflawni amcanion strategol BTPA	• Argymhellir Dyfarniadau Cyflog gan Gorff Adolygu Cydnabyddiaeth yr Heddlu, sef sefydliad annibynnol. Yn 2025/26, gweithredwyd ar ei argymhelliad ar gyfer dyfarniad cyflog. • Mae cynllun y gweithlu yn nodi'r cynllun 5 mlynedd ar gyfer blaenoriaethau recriwtio ar gyfer yr Heddlu er mwyn llywio penderfyniadau ynglŷn ag adnoddau - o dan oruchwyliaeth Bwrdd Strategol Cynllunio'r Gweithlu. • Mae'r Strategaeth Cynhwysiant ac Amrywiaeth wedi'i diweddaru, ac mae'r Bwrdd Cynhwysiant ac Amrywiaeth yn olrhain cynnydd. • Mae'r strategaeth Dysgu a Datblygu yn amlinellu themâu allweddol i BTP fodloni ei ofynion i fod yn heddlu modern a chynhwysol sy'n datblygu staff mewn ffordd hyblyg. • Gwiriadau cyn cyflogi a phrosesau'r Adran Safonau Proffesiynol (ar adeg recriwtio ac yn barhaus), i atal pobl anaddas rhag ymuno â BTP. • Casglu adborth staff a monitro'r broses o gwblhau camau gweithredu cyfatebol gan Fwrdd BTP a Bwrdd BTPA. • Proses hyrwyddo glir, wedi'i chyfleu'n dda. • Hyfforddiant ar gyfer rheolwyr llinell. • Adolygiadau datblygiad personol a chreu 'cronfeydd talent' i gefnogi a chynnal datblygiad.	 Mae lefelau trosiant isel yn parhau ac mae'r rheolwyr yn ymateb i adborth cyflogeion ynglŷn â datblygu gyrfa. Bydd mwy o swyddogion yn cael eu recriwtio yn ystod y tair blynedd nesaf ac mae cynlluniau i wella'r adnoddau cefn swyddfa sydd eu hangen i gyflawni hyn. Gall ffactorau mewnol ac allanol sy'n ymwneud â'r gweithlu gynyddu'r risg hon dros y blynyddoedd sydd i ddod.

Risg	Camau Lliniaru Allweddol sydd ar waith	Tuedd yn y Dyfodol (1-3 blynedd)
Cyfreithlondeb: Mae BTP yn methu â darparu gwasanaeth heddlu cyfreithlon, teg ac effeithiol oherwydd camddefnydd neu ddefnydd aneffeithlon o bwerau ac arferion plismona. Gall hyn arwain at effaith andwyol ar hyder y cyhoedd, staff y rheilffyrdd a rhanddeiliaid y diwydiant yn BTP. 	• Mae Paneli Craffu Annibynnol yn adolygu achosion o Stopio a Chwilio a Defnyddio Grym. • Mae'r Strategaeth Cynhwysiant ac Amrywiaeth wedi'i hadnewyddu (yn cynnwys Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu). • Monitro anghymesuredd pwerau (Stopio a Chwilio/Defnyddio Grym). • Cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus) a chynnwys Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb wrth wneud penderfyniadau. • Cyhoeddi penderfyniadau gwrandawiadau camymddygiad swyddogion. • Hyfforddiant yr Heddlu ar atal llygredigaeth, gan gynnwys "Camarfer mewn Swydd". • Cyhoeddi a Chydymffurfio â Chod Moeseg yr Heddlu • Mae'r Adran Safonau Proffesiynol wedi ymrwymo i gynnal y safonau ymddygiad uchaf ym maes plismona, ymchwilio i honiadau o ymddygiad amhriodol a sicrhau bod moeseg plismona wedi'i hintegreiddio â'r diwylliant. • Mae prosesau adrodd clir ar waith i'w gwneud yn bosibl i unigolion roi gwybod am gamymddwyn yn fewnol - rhoddir cyhoeddusrwydd eang i'r rhain.	 Disgwylir i'r risg hon leihau, gan ddefnyddio mwy o ddata i ysgogi dadansoddiad o berfformiad BTP, ymddygiadau cyflogeion ac ymdeimlad y cyhoedd a staff y rheilffyrdd. Gall hyn yn ei dro arwain at newid a chamau cywirol er mwyn cael effaith ystyrlon ar ymddiriedaeth a hyder. Gyda'u cysylltiad agos â'r risg o ran Pobl, mae rheolaethau fetio cryfach yn sicrhau bod BTP yn recriwtio pobl addas i Blismona.
Hyder ymhlith y Diwydiant: Mae risg na fydd BTP na'r Awdurdod yn ymgysylltu'n ddigonol â rhanddeiliaid y diwydiant, er mwyn gwella a chynnal hyder mewn plismona. 	• Mae BTPA yn parhau i ymgysylltu â phartneriaid allweddol yn y diwydiant rheilffyrdd i ddylanwadu ar ddyfodol darparu diogelwch ar y rheilffyrdd. • Mae strategaeth ymgysylltu yn llywio gweithgareddau ymgysylltu strategol. • Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd ag arweinwyr ymgysylltu BTPA er mwyn sicrhau eu bod yn gyson â'i gilydd ac yn rhannu allbynnau allweddol. • Cyfraniad y diwydiant at y Cynllun Plismona, y Strategaeth ar ei newydd wedd a'r cynllun ariannol tymor canolig drwy'r Grŵp Dylanwadwyr-Randdeiliaid. • Traciwr cyfarfodydd â rhanddeiliaid i bawb sy'n ymgymryd â gweithgarwch ymgysylltu yn BTP • Mae cylchlythyr misol ar weithgarwch BTP yn cael ei anfon at y diwydiant, y Llywodraeth a rhanddeiliaid BTPA.	 Yn 2025/26, ailbennwyd ffocws y risg tuag at hyder y diwydiant yn hytrach na gweithio mewn partneriaeth ehangach. Mae'r risg wedi bod yn sefydlog ac mae'n cwmpasu cyfleoedd ar gyfer mwy o gydweithio gan gynnwys ym maes diwygio'r rheilffyrdd a phlismona. Wrth i'r cyfleoedd hynny gael eu gwireddu, rydym yn disgwyl i'r risg hon leihau.

Risg	Camau Lliniaru Allweddol sydd ar waith	Tuedd yn y Dyfodol (1-3 blynedd)
Seiberddiogelwch a Diogelwch Data: Gall methu â diogelu a rheoli ein data a'n gwybodaeth arwain at golli data ar raddfa sylweddol a all arwain at golli hyder, risg weithredol, beirniadaeth reoleiddiol a cholled ariannol.	• Mae Fframwaith, Strategaeth a chynllun rhaglen gysylltiedig ar gyfer Seiberddiogelwch i wella aeddfedrwydd cyffredinol Seiberddiogelwch ym mhob rhan o BTP ar waith, sy'n unol â'r Strategaeth Seiberddiogelwch Genedlaethol. • Mae gwaith yn mynd rhagddo i gwblhau pob ffrwd gwaith yn y Rhaglen Galluogi Genedlaethol ar gyfer Plismona. • Mae'r cynllun ymateb i ddigwyddiadau seiber wedi'i ddiweddaru, gydag ymarferion a phrofion rheolaidd. • Mae uwchraddio ataliol, monitro a diweddariadau rheolaidd yn diogelu'r rhwydwaith. • Mae rhannu gwybodaeth yn rhoi cyfle i'r tîm seiber gael gwybod am brosiectau mawr a newidiadau i ddiogelwch ffisegol. • Er mwyn sicrhau gwydnwch, mae Cynllun Parhad Busnes ar waith. Mae cymwysiadau â blaenoriaeth yn cael eu hasesu ac mae gofynion gweithredol yn cael eu dogfennu. • Mae'r Bwrdd Seiber a Sicrwydd Gwybodaeth yn sicrhau goruchwyliaeth, cyfeiriad clir a chymorth gweladwy i reolwyr er mwyn cael sicrwydd ynglŷn â gwybodaeth a systemau. Mae hyn yn cynnwys llywodraethu ein gwybodaeth o safbwynt ymwybyddiaeth o risg, monitro a rheoli risg a lliniaru risg. • Profion gwe-rwydo a chyfrineiriau i sicrhau bod gan staff ddigon o wybodaeth am fygythiadau seiber	Disgwylir i'r risg hon leihau yn seiliedig ar y buddsoddiad a'r adnoddau mewn cynlluniau presennol i liniaru a rheoli risg. Mae BTP yn parhau i gael ei asesu yn erbyn y fframwaith plismona cenedlaethol, gyda sgoriau gwell yn dangos sut mae'r risg weddilliol wedi lleihau. Er bod bygythiad cynhenid ymosodiadau seiber yn cynyddu yn yr hinsawdd fyd-eang sydd ohoni, mae ein hamgylchedd rheolaeth a'n buddsoddiad parhaus yn lleihau'r risg. Fodd bynnag, rydym yn parhau i fod yn wyliadwrus o fygythiadau i'n gweithrediadau sy'n dod i'r amlwg.

Risg	Camau Lliniaru Allweddol sydd ar waith	Tuedd yn y Dyfodol (1-3 blynedd)
Cynaliadwyedd Ariannol: Efallai nad oes gan BTP na'r Awdurdod ddigon o gyllid i ddarparu'r lefel ofynnol o wasanaeth oherwydd sefydlogrwydd ariannol y llywodraeth a'r diwydiant neu reolaeth a rheoli ariannol gwan gan BTPA gan gynnwys dangos gwerth am arian, gan arwain at benderfyniadau aneffeithiol ac anamserol, colled ariannol, colli ymddiriedaeth ac anallu i gyflawni amcanion strategol.	• Disgyblaeth ariannol fewnol drwy gydymffurfio â pholisïau cadarn ac effeithiol i reoli'r defnydd o adnoddau, gan gynnwys llythyrau dirprwyo deiliaid cyllideb, hyfforddiant ar arweinyddiaeth ariannol, cyllidebau blynyddol, rhagolygon chwarterol, gweithgareddau atal twyll, targedau ariannol a dangosyddion perfformiad i helpu i asesu'r hyn a gyflawnir. • Adroddiadau misol a chwarterol i sicrhau bod goruchwyliaeth lefel uwch ac allanol o'r sefyllfa ariannol, rhagolygon, buddiannau ac arbedion effeithlonrwydd, a risgiau a chyfleoedd. Mae hyn yn cynnwys Bwrdd Sicrwydd Cyllid chwarterol yn BTP i oruchwylio rheolaethau ariannol; adroddiadau ariannol cyfnodol i uwch-benderfynwyr a'r Aelodau, gan gynnwys pwysau heb eu hariannu yn y tymor canolig i'r hirdymor, risgiau a chyfleoedd ariannol a gwybodaeth am bensiynau. • Sicrwydd trydydd parti (archwiliad mewnol o un maes ariannol o leiaf bob blwyddyn, archwiliad allanol o'r datganiadau ariannol a'r Ffurflen Sicrwydd Rheoli). • Caffael, prosiectau a phrosesau ar waith i sicrhau gwerth am arian ac enillion effeithlonrwydd/ cynhyrchiant. • Ymgysylltu a rhyngweithio rheolaidd â'r Adran Drafnidiaeth a rhanddeiliaid allweddol eraill (e.e. Grŵp Cyflawni'r Rheilffyrdd, Transport for London, cwmnïau trên) i ddeall diwygiadau yn y dyfodol, nodi cyfleoedd ariannu newydd posibl a dod o hyd i arbedion effeithlonrwydd/enillion cynhyrchiant. • Cymeradwyaeth gan yr Awdurdod o gynllun ariannol 3 blynedd ystyrlon.	Mae'r rheolaethau a roddwyd ar waith yn 2025/26, gan gynnwys cytuno ar gynllun ariannol tymor canolig 3 blynedd, wedi dechrau lleihau'r risg hon. Mae'r rheolaethau ariannol yn gadarn a cheir sicrwydd rheolaidd ynglŷn â'r rhain. Felly, rydym yn disgwyl i'r risg hon barhau i leihau.

Risg	Camau Lliniaru Allweddol sydd ar waith	Tuedd yn y Dyfodol (1-3 blynedd)
Trawsnewid: Oherwydd dylanwadau ar ein strategaeth a'n cynllun polisi sy'n dod i'r amlwg, efallai na fydd BTP na'r Awdurdod yn llunio nac yn cyflawni portffolio trawsnewid strategol sydd â chyllid ac adnoddau cynaliadwy i ddarparu gwasanaeth fforddiadwy, effeithiol ac effeithlon, gan arwain at effeithiau ar weithrediadau, enw da a chyllid. 	• Mae gwaith cynllunio buddsoddi a phroses flaenoriaethu'r cynllun ariannol tymor canolig ar waith er mwyn sicrhau bod buddsoddi yn gyson â fforddiadwyedd a blaenoriaethau strategol. • Mae methodoleg rheoli prosiectau a rhaglenni ENTERPRISE ar waith i lywodraethu cylch oes prosiect trwy 7 cam a chynnig cyfres lawn o reolaethau prosiect. • Swyddfa Rheoli Portffolios gyda staff sydd wedi'u hachredu'n broffesiynol (neu wedi'u hyfforddi ar gyfer y cymhwyster) • Prosesau olrhain ac adrodd rheolaidd o ran yr hyn y mae rhaglenni / prosiectau yn ei gyflawni, i uwch-arweinwyr a BTPA • Cynllun Dirprwyo ar waith i sicrhau bod achosion busnes buddsoddi gwerth uchel yn cael eu harfarnu a'u cymeradwyo. • Pensaernïaeth rhaglen ddatganoledig ar waith sy'n rhoi perchnogaeth i Uwch-swyddogion Cyfrifol ar lefel Grŵp y Prif Swyddogion o newid o fewn rhychwant yr hyn y maent yn ei reoli. • Strategaeth newid a phroses raeadru a arweinir gan y Prif Gwnstabl a Bwrdd Gweithredol yr Heddlu, gyda chymorth arweinyddiaeth sefydliadol. • Bwrdd Portffolios BTP ar waith i adolygu hynt y portffolio a chymeradwyo achosion busnes / Adroddiadau Trosglwyddo Busnes fel Arfer / Adolygiadau Ôl-Weithredu a Rheoli Newid. • Adolygiadau rheolaidd o'r hyn a gyflawnir ym Mhortffolios Uwch-swyddogion Cyfrifol. • Strategaeth Effeithlonrwydd a Chynllun Cyflawni wedi'u cyhoeddi.	 Mae'r portffolio trawsnewid wedi bod yn ffactor galluogi allweddol i gyflawni'r strategaeth bresennol a bydd angen iddo helpu i gyflawni'r glasbrint yn strategaeth 2027-2029. Mae trefniadau llywodraethu cadarn yn parhau i fod ar waith o ran rheoli rhaglenni a phrosiectau a bydd sicrwydd newydd ynghylch effeithlonrwydd a buddiannau yn cael ei roi yn y blynyddoedd i ddod. Rydym yn rhagweld y bydd y risg yn parhau i leihau.

Risg	Camau Lliniaru Allweddol sydd ar waith	Tuedd yn y Dyfodol (1-3 blynedd)
Llesiant, Iechyd a Diogelwch: Bydd cyflawni strategaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant yn llwyddiannus ochr yn ochr â diwylliant iechyd, diogelwch a llesiant effeithiol yn lleihau'r risg o niwed ac effaith niwed ac yn hyrwyddo amgylchedd gwaith diogel yn BTP sy'n gwella iechyd a llesiant cyflogeion, gwirfoddolwyr a BTPA.	• Strwythur a fframwaith llywodraethu Iechyd a Diogelwch llawn ar waith gyda Pholisi Iechyd a Diogelwch cyfredol, trefniadau a chanllawiau sy'n cydymffurfio â'r gyfraith. • System Rheoli Diogelwch sydd wedi'i hymgorffori ac sy'n cael ei defnyddio'n eang gan yr holl gyflogeion, gan sicrhau proses safonol o roi gwybod am ddigwyddiadau. • Pwyllgorau Iechyd a Diogelwch Rhanbarthol a Chanolog a gynhelir bob chwarter i adolygu risgiau/materion Iechyd a Diogelwch gan gynnwys ymosodiadau ar swyddogion a'r agenda Llesiant ehangach; lle mae eithriadau yn cael eu rhaeadru i uwch-arweinwyr a BTPA. • Datganiad Llesiant, Iechyd a Diogelwch blynyddol wedi'i adolygu gan yr Awdurdod. • Strategaeth Llesiant, Iechyd a Diogelwch wedi'i chyhoeddi sy'n nodi ein hamcanion i wella dealltwriaeth o gyfrifoldebau a'r cymorth sydd ar gael. • Cymorth Rheoli Risg Trawma Arbenigol ar gael i'r rhai y mae angen cymorth arnynt yn dilyn digwyddiadau trawmatig. • Iechyd Galwedigaethol bellach yn cael ei ddarparu'n fewnol. • Prosiectau Llesiant BTP sy'n cyd-fynd â phrosiectau ac ymchwil Gwasanaeth Llesiant Cenedlaethol yr Heddlu; mae gwasanaethau wedi'u hymgorffori ac yn cael eu deall yn eang.	 Rhagwelir y bydd y risg hon yn parhau i leihau dros y 3 blynedd nesaf wrth i'n rheolaethau ymsefydlu ac aeddfedu. Rydym yn mabwysiadu ymagwedd ragweithiol yn y maes hwn ac mae'r sicrwydd yn 2025/26 yn dangos bod ein gallu i nodi a lleihau risgiau wedi aeddfedu.

Risg	Camau Lliniaru Allweddol sydd ar waith	Tuedd yn y Dyfodol (1-3 blynedd)
Digwyddiadau Mawr: Methiant i gynllunio a pharatoi'n effeithiol, gan gynnwys profi senarios, ar gyfer digwyddiad mawr, ymosodiad terfysgol, pandemig neu drychineb naturiol, a allai arwain at effaith weithredol, colled ariannol a cholli hyder y cyhoedd	• Eglurder ynglŷn ag awdurdodaeth BTP ar gyfer ymatebion i ddigwyddiadau mawr a swyddogion wedi'u hyfforddi i ryngweithredu â gwasanaethau brys eraill. • Calendr Ymarfer a Phrofi ar waith, gan gynnwys • cymryd rhan gyda heddluoedd/sefydliadau eraill. • Strwythurau profedig ar waith ar gyfer derbyn a rhannu gwybodaeth briodol • Hyfforddiant ychwanegol ar waith i swyddogion-fyfyrwyr newydd yn Spring House gyda phwyslais ar "Wyliadwriaeth" a hyfforddiant ychwanegol wedi'i ddarparu i uwch-swyddogion ar ddyletswydd ynglŷn ag ymateb i ddigwyddiadau mawr. • Mae BTP wedi'i ymgorffori yn strwythurau a fforymau gwrthderfysgaeth cenedlaethol ehangach Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu ar lefelau strategol a thactegol. • Ymgyrch ddwywaith y dydd i gynyddu presenoldeb yr heddlu mewn lleoliadau strategol ac ar amseroedd strategol i atal troseddau, gan gynnwys gweithredoedd terfysgol. • Cynlluniau argyfwng wedi'u cynnal, gydag adolygiadau ac ymarferion sganio'r gorwel rheolaidd. Mae cynlluniau bellach ar gael ar ddyfeisiau symudol.	 Er bod hyn yn parhau i fod yn fygythiad cynhenid mawr ei effaith, mae BTPA wedi ymgorffori rheolaethau cadarn. Yn y tymor hwy, disgwylir i'r risg weddilliol aros yn sefydlog.
Technoleg: Methiant i ddarparu gwasanaeth heddlu digidol priodol ac effeithiol oherwydd diffyg cynllun strategol cadarn a reolir yn dda, cyllid, adnoddau a gallu, gan arwain at ymddieithrio ymhlith y staff, heriau gweithredol a cholled ariannol.	• Gwiriadau Iechyd Technoleg Gwybodaeth Blynyddol wedi'u cynnal. • Y Strategaeth Unioni'r Hanfodion wedi'i rhoi ar waith. • Mae TG yn gweithredu gyda Fframwaith Llywodraethu Mewnol effeithiol. • Cynllun trosiannnol gwasanaeth ar gyfer pob prosiect. • Rheoli cyflenwyr TG craidd yn rhagweithiol i sicrhau diogelwch, rheolaeth ariannol ac optimeiddio. Mae Cynlluniau Rheoli Contractau ar waith. • Mae Tîm Plismona Digidol pwrpasol ar waith i reoli'r uchelgais ddigidol a mesur buddiannau'r ddarpariaeth ddigidol. • Deallusrwydd Artiffisial fel adnodd i sicrhau effeithlonrwydd yn cael ei weithredu'n gyfrifol, gyda pholisi ac asesiadau risg ar waith.	 Lleihaodd y risg hon a chyrhaeddodd ei sgôr darged. Bydd angen goruchwyliaeth a buddsoddiad o hyd i sicrhau bod y risg weddilliol yn aros ar lefel y parodrwydd i gymryd risg.

Risg	Camau Lliniaru Allweddol sydd ar waith	Tuedd yn y Dyfodol (1-3 blynedd)
Ystadau: Efallai nad oes gan BTP na'r Awdurdod ystad addas at y diben oherwydd cynllunio strategol aneffeithiol, gofynion cyflawni anfforddiadwy a gwaith cynnal a chadw parhaus, sy'n arwain at aneffeithlonrwydd ar raddfa eang, digwyddiadau iechyd a diogelwch a diogeledd ac effeithiau ar weithrediadau ac enw da.	• Llwybr at y strategaeth ystadau a gyflwynwyd i BTPA, a gysylltir â Strategaeth gyffredinol a rhaglen bwrpasol BTPA. • Y cynnydd o ran yr adnoddau sydd eu hangen wedi'i ddeall ac wedi cael sylw. • Strwythur llywodraethu wedi'i amlinellu, sy'n tywys prosesau gwneud penderfyniadau a goruchwylio drwy Fwrdd Ystadau. • Adolygwyd Ystadau fel rhan o'r Model Plismona Wedi'i Optimeiddio, er mwyn sicrhau y bydd adeiladau yn addas ar gyfer gofynion staffio ledled y wlad. • Arolwg o gyflwr yn mynd rhagddo gyda chynllun gweithredu yn cael ei fonitro. • Mae gofynion buddsoddi ar gyfer Ystadau wedi'u cynnwys yn nhrefniadau llywodraethu cyffredinol Cynllun Buddsoddi BTP. • Cynlluniau parhad busnes ar waith i liniaru os na fydd unrhyw safleoedd ar gael. • Mae trefniadau llywodraethu diogelwch ffisegol yn sicrhau asesiadau rheolaidd a gwaith monitro camau gweithredu. • Contract Rheoli Cyfleusterau Cyflawn newydd wedi'i roi ar waith ac yn cael ei fonitro gan staff penodol.	 Disgwylir i'r risg hon barhau i fod yn sefydlog wrth i gyflwr yr ystad gael ei ddeall, wrth i'r strategaeth gael ei chwblhau ac wrth i adnoddau ychwanegol gael eu rhoi ar waith. Yna bydd yn lleihau dros y tymor hwy.

Adolygiad o Effeithiolrwydd

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol a'r trefniadau llywodraethu. Mae fy adolygiad yn cael ei lywio gan farn archwilwyr mewnol, prosesau sicrwydd rheoli, canfyddiadau arolygiadau a sylwadau archwilwyr allanol, ynghyd â chyngor gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol, rwy'n fodlon, yn unol â'm cyfrifoldebau, fod BTPA a BTP wedi gweithredu system rheolaeth fewnol effeithiol drwy gydol y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol.



Hugh Ind
Accounting Officer

Date 3 July 2026

Adroddiad Taliadau

Penodi Aelodau'r Awdurdody

Nodir cyfansoddiad BTPA yn Neddf Diogelwch Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003 sy'n pennu'r ystod angenrheidiol o wybodaeth a phrofiad ar gyfer Aelodau.

Penodir aelodau BTPA gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth, gyda'r bwriad ei fod yn gynrychioliadol o'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu a'i fod yn cael gwybod am safbwyntiau a buddiannau'r grwpiau hyn.

Polisi a gweithdrefnau cydnabyddiaeth

Yr Adran Drafnidiaeth sy'n pennu polisi cydnabyddiaeth Aelodau'r Awdurdod.

Y Pwyllgor Penodiadau, Cydnabyddiaeth ac Asesu sy'n pennu'r polisi cydnabyddiaeth i uwch-swyddogion BTPA a Grŵp Prif Swyddogion BTP yn unol â chanfyddiadau'r Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion.

Pennir polisi cydnabyddiaeth cyffredinol BTPA yn ôl:

- yr angen i recriwtio, cadw a chymell pobl â gallu a chymwysterau priodol i arfer eu gwahanol gyfrifoldebau;
- amrywiadau rhanbarthol a lleol mewn marchnadoedd llafur a'u heffeithiau ar recriwtio a chadw staff;
- y ffactorau penodol sy'n ymwneud â pholisïau a chanllawiau gan Gorff Adolygu Cydnabyddiaeth yr Heddlu sy'n dylanwadu ar y trefniadau cydnabyddiaeth ar gyfer rhengoedd uwch-arolygu a'r rhengoedd a gynrychiolir gan Ffederasiwn yr Heddlu;
- o ran staff yr heddlu, mae cyd-fargeinio â chymdeithasau cyflogeion cydnabyddedig yn pennu setliadau blynyddol.

Pennir cyflogau a lwfansau'r Aelodau gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth ar ôl ymgynghori â BTPA. Mae'r Aelodau yn gallu hawlio treuliau teithio, llety a chynhaliaeth pan fyddant ar fusnes yr Awdurdod.

Telerau penodi

Datgelir telerau penodi Aelodau'r Awdurdod yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr.

Swyddogion yr Awdurdod

Swyddogion yr Awdurdod	Dechrau'r Contract	Y dyddiad y daw'r cyfnod i ben	Cyfnod rhybudd gofynnol (misoedd)
Hugh Ind, Prif Weithredwr	03/06/2019	Penodiad parhaol	3
Sarah Church, Prif Swyddog Ariannol a Thrysorydd a Dirprwy Brif Weithredwr	09/04/2018	Penodiad parhaol	3
Rubeela Qayyum, Prif Swyddog Ariannol a Thrysorydd a Dirprwy Brif Weithredwr (dros dro)	02/04/2024	07/05/2025	3

Grŵp Prif Swyddogion BTP

Grŵp Prif Swyddogion BTP	Dechrau'r Contract	Y dyddiad y daw'r cyfnod i ben	Cyfnod rhybudd gofynnol (misoedd)
Lucy D'Orsi, Prif Gwnstabl	22/03/2021	21/03/2028	6
Stuart Cundy, Dirprwy Brif Gwnstabl	27/10/2025	26/10/2029	3
Alistair Sutherland, Dirprwy Brif Gwnstabl	08/11/2021	22/04/2025	3
Sean O'Callaghan OBE, Prif Gwnstabl Cynorthwyol	25/06/2018	Penodiad parhaol	3
Steff Sharp, Cyfarwyddwr Datblygu Corfforaethol	18/11/2024	Penodiad parhaol	3
Rachael Etebar, Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant	13/08/2018	Penodiad parhaol	3
Vanita Patel, Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant (dros dro)	27/08/2025	06/03/2026	3
Charlie Doyle, Prif Gwnstabl Cynorthwyol	20/09/2018	Penodiad parhaol	3
Ian Drummond-Smith, Prif Gwnstabl Cynorthwyol	04/11/2024	03/11/2026	3



Cydnabyddiaeth Aelodau'r Awdurdod (Archwiliedig)

	2025/26				2024/25			
	Cyflog[21]	Buddi-annau mewn da (i'r £100 agosaf)	Buddi-annau Pensiwn	Cyfan-swm	Cyflog	Buddi-annau mewn da (i'r £100 agosaf)	Buddi-annau Pensiwn	Cyfan-swm
Aelodau	**£'000**	**£**	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£**	**£'000**	**£'000**
Ron Barclay-Smith[22]	30-35	-	-	**30-35**	30-35	-	-	**30-35**
William Gallagher[23]					10-15	-	-	**10-15**
Kenna Kintrea	15-20	-	-	**15-20**	15-20	-	-	**15-20**
Andrew Cooper	15-20	-	-	**15-20**	15-20	-	-	**15-20**
Sir Craig Mackey	15-20	-	-	**15-20**	15-20	-	-	**15-20**
Emir Feisal[24]	10-15	-	-	**10-15**	15-20	-	-	**15-20**
Nick Hawkins	15-20	-	-	**15-20**	15-20	-	-	**15-20**
Fiona Brunskill[25]	0-5	-	-	**0-5**	15-20	-	-	**15-20**
Stewart Jackson[26]	10-15	-	-	**10-15**	15-20	-	-	**15-20**
Iain Whyte	10-15	-	-	**10-15**	10-15	-	-	**10-15**
Abdul Elghedafi	10-15	-	-	**10-15**	10-15	-	-	**10-15**
Dyan Perry	20-25	-	-	**20-25**	20-25	-	-	**20-25**
Patricia Hayes[27]	15-20	-	-	**15-20**	10-15	-	-	**10-15**
Paula Carter	10-15	-	-	**10-15**	10-15	-	-	**10-15**
Brian Lynch	10-15	-	-	**10-15**	10-15	-	-	**10-15**
Alexia Course[28]	5-10	-	-	**5-10**	-	-	-	**-**
Emma Strain[29]	5-10	-	-	**5-10**	-	-	-	**-**
Mike Jackson[30]	5-10	-	-	**5-10**	-	-	-	**-**

[21] Dangosir cyflog ar sail croniadau.
[22] Gadawodd Ron Barclay-Smith ar 04/03/2026. Yr hyn sy'n cyfateb i flwyddyn lawn yw £35-40k.
[23] Gadawodd William Gallagher ar 24/01/2025 ac o ganlyniad ni chwaraeodd unrhyw ran yn y broses gwneud penderfyniadau yn y flwyddyn 1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2026. Y swm sy'n cyfateb i flwyddyn lawn yw £15-£20k.
[24] Gadawodd Emir Feisal ar 27/02/2026. Y swm sy'n cyfateb i flwyddyn lawn yw £15-£20k.
[25] Gadawodd Fiona Brunskill ar 27/06/2025. Y swm sy'n cyfateb i flwyddyn lawn yw £15-£20k.
[26] Gadawodd Stewart Jackson ar 27/02/2026. Y swm sy'n cyfateb i flwyddyn lawn yw £15-£20k.
[27] Dechreuodd Patricia Hayes yn rôl newydd Cadeirydd yr Awdurdod ar 05/03/2026. Y swm sy'n cyfateb i flwyddyn lawn yw £35-£40k.
[28] Ymunodd Alexia Course ar 17/11/2025. Y swm sy'n cyfateb i flwyddyn lawn yw £10-£15k.
[29] Ymunodd Emma Strain ar 10/11/2025. Y swm sy'n cyfateb i flwyddyn lawn yw £10-£15k.
[30] Ymunodd Mike Jackson ar 10/11/2025. Y swm sy'n cyfateb i flwyddyn lawn yw £10-£15k.

Cydnabyddiaeth Swyddogion yr Awdurdod a Grŵp y Prif Swyddogion (Archwiliedig) 2025/26

	Cyflog[31]	Taliadau digolledu	Buddiannau mewn da (i'r £100 agosaf)	Buddi-annau Pensiwn	Cyfan-swm
	£000	£000	£	£000	£000
Swyddogion yr Awdurdod					
Hugh Ind	175-180	-	1,600	30	**210-215**
Sarah Church[32]	115-120	-	2,700	14	**135-140**
Rubeela Qayyum[33]	10-15	-	-	-	**10-15**
Grŵp y Prif Swyddogion					
Lucy D'Orsi	205-210	-	200	51	**255-260**
Stuart Cundy[34]	70-75	-	-	-	**70-75**
Alistair Sutherland[35]	5-10	-	-	-	**5-10**
Sean O'Callaghan	155-160	-	4,700	36	**195-200**
Rachael Etebar	160-165	-	200	28	**190-195**
Vanita Patel[36]	110-115	-	-	37	**150-155**
Charlie Doyle	155-160	-	200	-	**155-160**
Allan Gregory[37]					
Steff Sharp[38]	135-140	-	-	213	**345-350**
Paul Furnell[39]					
Ian Drummond-Smith[40]	190-195	-	-	-	**190-195**

[31] Dangosir cyflog ar sail croniadau.

[32] Dychwelodd Sarah Church o absenoldeb mamolaeth ar 07/04/2025 ar sail 0.8 Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE). Y swm sy'n cyfateb i flwyddyn lawn yw £150-£155k.

[33] Gadawodd Rubeela Qayyum ar 07/05/2025. Y swm sy'n cyfateb i flwyddyn lawn yw £140-£145k.

[34] Ymunodd Stuart Cundy ar 27/10/2025. Y swm sy'n cyfateb i flwyddyn lawn yw £170-£175k.

[35] Gadawodd Alistair Sutherland ar 22/04/2025. Y swm sy'n cyfateb i flwyddyn lawn yw £160-£165k.

[36] Roedd Vanita Patel yn Gyfarwyddwr Pobl a Diwylliant Dros Dro o 27/08/2025 i 06/03/2026. Y swm sy'n cyfateb i flwyddyn lawn yw £120-£125k.

[37] Gadawodd Allan Gregory ar 28/06/2024 ac o ganlyniad ni chwaraeodd unrhyw ran yn y broses gwneud penderfyniadau yn y flwyddyn 1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2026. Y swm sy'n cyfateb i flwyddyn lawn yw £130-£135k.

[38] Mae cynnydd mewn buddiannau pensiwn wedi digwydd o ganlyniad i gynnydd mewn cyflog pensiynadwy ar ddyddiad y penodiad.

[39] Gadawodd Paul Furnell ar 23/10/2024 ac o ganlyniad ni chwaraeodd unrhyw ran yn y broses gwneud penderfyniadau yn y flwyddyn 1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2026. Y swm sy'n cyfateb i flwyddyn lawn yw £115-£120k.

[40] Penodwyd Ian Drummond-Smith yn Brif Gwnstabl Cynorthwyol ar 04/11/2024 fel secondiad o Heddlu Dyfnaint a Chernyw, am gyfnod o ddwy flynedd. Cost y secondiad hwn yn 2025/26 oedd £190-£195k sy'n cynnwys talu ei gyflog, lwfansau a chyfraniadau pensiwn a wneir yn uniongyrchol gan Heddlu Dyfnaint a Chernyw, sy'n cynnwys cyflog cyfwerth ag amser llawn o £190-195k. Arhosodd ei drefniadau pensiwn gyda Heddlu Dyfnaint a Chernyw dros gyfnod y secondiad.

Cydnabyddiaeth Swyddogion yr Awdurdod a Grŵp y Prif Swyddogion (Archwiliedig) 2024/25

	Cyflog[41]	Taliadau digolledu	Buddiannau mewn da (i'r £100 agosaf)	Buddi-annau Pensiwn	Cyfan-swm
	£000	£000	£	£000	£000
Swyddogion yr Awdurdod					
Hugh Ind	170-175	-	900	44	**210-215**
Sarah Church[42]	85-90	-	3,000	48	**140-145**
Rubeela Qayyum[43]	140-145	-	-	-	**140-145**
Grŵp y Prif Swyddogion					
Lucy D'Orsi	190-195	-	200	53	**245-250**
Alistair Sutherland	160-165	-	200	-	**160-165**
Sean O'Callaghan	145-150	-	5,100	41	**190-195**
Rachael Etebar	155-160	-	200	43	**195-200**
Charlie Doyle	145-150	-	200	-	**145-150**
Allan Gregory[44]	35-40	-	200	-	**35-40**
Steff Sharp[45]	125-130	-	200	47	**175-180**
Paul Furnell[46]	65-70	-	3,100	-	**70-75**
Ian Drummond-Smith[47]	70-75	-	-	-	**70-75**

[41] Dangosir cyflog ar sail croniadau.

[42] Roedd Sarah Church ar absenoldeb mamolaeth am ran o'r flwyddyn a dychwelodd i'r gwaith ar 07/04/2025. Y swm sy'n cyfateb i flwyddyn lawn yw £145-150k.

[43] Ymunodd Rubeela Qayyum ar 02/04/2024 i gyflenwi yn ystod cyfnod mamolaeth Sarah Church tan 07/05/2025. Y swm sy'n cyfateb i flwyddyn lawn yw

[44] Dechreuodd rôl dros dro Allan Gregory fel Prif Gwnstabl Cynorthwyol ar 02/08/2021 a daeth i ben ym mis Mawrth 2023, ac ar yr adeg honno gwnaed y swydd yn barhaol ar 31/03/2023. Y swm sy'n cyfateb i flwyddyn lawn yw £130-£135k. Daeth y cyfnod i ben 28/06/2024.

[45] Dechreuodd rôl dros dro Steff Sharp fel Cyfarwyddwr Datblygu Corfforaethol ar 19/06/2023. Fe'i penodwyd yn Gyfarwyddwr Datblygu Corfforaethol parhaol ar 18/11/2024. Y swm sy'n cyfateb i flwyddyn lawn yw £125-£130k.

[46] Dechreuodd rôl dros dro Paul Furnell fel Prif Gwnstabl Cynorthwyol ar 08/01/2024. Y swm sy'n cyfateb i flwyddyn lawn yw £115-£120k. Daeth y cyfnod i ben 23/10/2024.

[47] Penodwyd Ian Drummond-Smith yn Brif Gwnstabl Cynorthwyol ar 04/11/2024 fel secondiad o Heddlu Dyfnaint a Chernyw, am gyfnod o ddwy flynedd. Cost y secondiad hwn yn 2024/25 oedd £70-£75k (ailddatganiad) sy'n cynnwys talu ei gyflog, lwfansau a chyfraniadau pensiwn a wneir yn uniongyrchol gan Heddlu Dyfnaint a Chernyw, sy'n cynnwys cyflog cyfwerth ag amser llawn o £120-125k. Arhosodd ei drefniadau pensiwn gyda Heddlu Dyfnaint a Chernyw dros gyfnod y secondiad.

Cyflog

Mae cyflog yn cynnwys cyflog cyfeirio, goramser, pwysoliad Llundain a/neu lwfansau Llundain, hawliau neilltuedig i lwfans tai ac unrhyw lwfans arall i'r graddau y mae'n destun trethiant y DU. Nid yw'n cynnwys symiau sy'n ad-dau treuliau y mae unigolyn yn mynd iddynt yn uniongyrchol wrth gyflawni ei ddyletswyddau.

Buddiannau mewn da

Mae gwerth ariannol buddiannau mewn da yn cwmpasu unrhyw fuddiannau a ddarperir gan y cyflogwr ac sy'n cael eu trin gan Cyllid a Thollau EF fel enillion trethadwy. Mae'r buddiannau mewn da a dderbyniwyd yn cynnwys gofal iechyd, defnydd o gerbyd a buddiannau teithio eraill.

Cyflog perfformiad

Mae cyfundrefn rheoli perfformiad ar waith, lle mae BTPA yn cytuno ar amcanion ar gyfer Grŵp y Prif Swyddogion. Mae'r adolygiadau datblygu perfformiad yn cael eu rhoi ar waith ar ddiwedd y flwyddyn gan y Prif Gwnstabl ar gyfer Grŵp y Prif Swyddogion a gan y Prif Weithredwr ar gyfer Gweithrediaeth BTPA. Mae Cadeirydd BTPA yn asesu'r Prif Gwnstabl a Phrif Swyddog Gweithredol BTPA yn erbyn amcanion diffiniedig. Caiff y rhain eu hasesu gan Bwyllgor Penodiadau, Cydnabyddiaeth ac Arfarnu Awdurdod yr Heddlu. Yr unig rai sy'n cael cyfle i gael cynnydd cyflog ar sail perfformiad yw Prif Gwnstabliaid Cynorthwyol (a staff cyfatebol), sy'n symud ymlaen drwy raddfa gyflog pan asesir bod eu perfformiad yn foddhaol neu'n eithriadol. Mae'r Prif Gwnstabl a'r Dirprwy Brif Gwnstabl yn cael cyflog ar gyfradd sefydlog.

Taliadau bonws

Mae BTPA yn talu bonysau bach o hyd at £500 i'r rhai sy'n cael sgôr eithriadol ar eu Hadolygiad Datblygiad Personol neu'r rhai a enwebir gan gydweithwyr am wobr "Gwneud y Gwahaniaeth", a feirniadir gan baneli drwy gydol y flwyddyn ar gyfer cyflogeion sy'n mynd y tu hwnt i'w dyletswyddau. Mae swyddogion arfau tân sydd wrth gefn yn cael bonws bach y noson am baratoi ar gyfer bod ar ddyletswydd, sydd wedi'i gynnwys yn y symiau bonws.

Datganiadau Cyflog Teg (Archwiliedig)

Mae'n ofynnol i gyrff sy'n adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng cydnabyddiaeth y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog uchaf yn eu sefydliad a chyflog chwartel isaf, canolrif a chwartel uchaf gweithlu'r sefydliad.

Newid canrannol yng nghyfanswm y cyflog a'r bonysau i'r cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog uchaf a chyfartaledd y staff

	2025/26		2024/25	
	Cyfanswm y cyflog a'r lwfansau	Taliadau Bonws	Cyfanswm y cyflog a'r lwfansau	Taliadau Bonws
Cyfartaledd y staff	7.56%	-7.55%	6.06%	2.92%
Cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog uchaf	7.79%	0%	5.48%	0%

Cymhareb rhwng cyfanswm cyflog y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog uchaf a'r chwartel isaf, y canolrif a'r chwartel uchaf ar gyfer cyflog y staff

	Chwartel isaf	Canolrif	Chwartel uchaf
2025/26	5.1 : 1	4.1 : 1	3.5 : 1
2024/25	5.1 : 1	4.0 : 1	3.5 : 1

Chwartel isaf, canolrif a chwartel uchaf ar gyfer cyflog y staff ar gyfer cyflogau a chyfanswm y taliadau a'r buddiannau

	Chwartel isaf		Canolrif		Chwartel uchaf	
	2025/26	2024/25	2025/26	2024/25	2025/26	2024/25
Cyflog	37,737	33,690	50,256	43,852	50,256	48,231
Cyfanswm y Taliadau a'r Buddiannau	**40,940**	**37,491**	**50,256**	**48,231**	**58,994**	**55,592**

Y gydnabyddiaeth ar ffurf band i'r cyfarwyddwr a enillodd y cyflog uchaf yn 2025/26 oedd £207,500 (2024/25, £192,500). Roedd y swm hwn 4.1 gwaith (2024/25, 4.0) cyflog canolrifol y gweithlu, sef £50,256 (2024/25, £48,231). Ni chafodd y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog uchaf unrhyw daliadau bonws yn 2025/26 nac yn 2024/25.

Yn 2025/26, ni chafodd unrhyw gyflogeion gydnabyddiaeth a oedd yn fwy na'r hyn a gafodd y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog mwyaf (2024/25, 0). Roedd cydnabyddiaeth, heb gynnwys y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog uchaf, yn amrywio o £15,000 - £20,000 i £180,000 - £185,000 (2024/25: £15,000 - £20,000 i £170,000 - £175,000). Y gydnabyddiaeth ar ffurf band i'r cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog uchaf oedd £205,000-£210,000 (2024/25, £190,000-£195,000).

Mae cyfanswm y gydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog, tâl ar sail perfformiad heb ei gyfuno a buddiannau mewn da. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na gwerth trosglwyddo pensiynau sy'n cyfateb i arian parod.

Cymeradwyodd yr Awdurdod godiad cyflog o 4.2% yn ystod 2025/26 i'r holl gyflogeion, yn ogystal â chynnydd mewn nifer o lwfansau. Dyma'r hyn sydd wedi achosi'r cynnydd yng nghyfanswm y cyflog a'r buddiannau yn 2025/26 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Gostyngodd taliadau bonws 7.55% am fod llai o gyflogeion wedi cael dyfarndaliadau cydnabod staff neu ddyfarndaliadau ar sail perfformiad.

Buddiannau pensiwn

Cynllun pensiwn y rheilffyrdd – staff heddlu BTPA a BTP

Darperir buddiannau pensiwn i staff heddlu'r Awdurdod a BTP drwy Adran Cost a Rennir BTP yng Nghynllun Pensiwn y Rheilffyrdd. Caeodd y cynllun hwn i ymunwyr newydd ar 30 Medi 2023. Cynllun pensiwn cofrestredig ydyw a bwriedir iddo fod yn gynllun a ariennir yn llawn sy'n darparu buddiannau ar "gyflog terfynol" ar oedran ymddeol arferol o 60. Mae buddiannau yn cronni ar gyfradd o 1/60ain o'r cyflog cyfartalog terfynol (llai 1/40ain o bensiwn sylfaenol cyfartalog terfynol y wladwriaeth) am bob

blwyddyn o wasanaeth pensiynadwy. Hefyd, mae cyfandaliad sy'n cyfateb i 1/40fed o'r cyflog cyfartalog terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth yn daladwy ar adeg ymddeol. Talodd yr aelodau gyfraniadau o 9.28% o gyflog pensiynadwy (llai 1.5 gwaith pensiwn sylfaenol y wladwriaeth). Newidiodd y gyfradd gyfrannu ar 1 Gorffennaf 2024. Mae pensiynau sy'n cael eu talu a'u gohirio yn cynyddu yn unol â Gorchmynion a wneir o dan Ddeddf Pensiynau (Cynnydd) 1971.

Ar adeg marwolaeth, mae pensiynau'n daladwy i'r priod sy'n goroesi ar gyfradd hanner pensiwn yr aelod. Os bydd aelod yn marw yn ystod gwasanaeth, mae'r cynllun yn talu budd-dal marwolaeth ar ffurf cyfandaliad sy'n bedair gwaith y cyflog cyfartalog terfynol ac mae hefyd yn ychwanegu at y gwasanaeth wrth gyfrifo pensiwn y priod, sy'n dibynnu ar hyd gwasanaeth.

Mae ymddeoliad meddygol yn bosibl yn achos afiechyd difrifol. Os felly, mae pensiynau'n cael eu talu ar unwaith heb ostyngiad actiwaraidd ac ychwanegir at y gwasanaeth fel yn achos pensiynau i wragedd neu ŵyr gweddw.

Darperir buddiannau pensiwn i newydd-ddyfodiaid drwy gynllun pensiwn Cyfraniadau Diffiniedig bellach; mae'r cynllun newydd yn cynnig ystod o gyfraddau cyfrannu.

Cronfa Bensiwn yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig – Swyddogion yr Heddlu

Darperir buddiannau pensiwn i Swyddogion yr Heddlu drwy Gronfa Bensiwn yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig. Cynllun pensiwn cofrestredig ydyw a bwriedir iddo fod yn gynllun wedi'i ariannu'n llawn sy'n darparu buddiannau ar sail "buddiannau diffiniedig. Mae tri strwythur buddiannau ar waith i aelodau, sy'n amrywio yn dibynnu ar b'un a oeddent wedi ymuno â'r Gronfa cyn 1 Ebrill 2007, rhwng 1 Ebrill 2007 a 31 Mawrth 2015, neu ar ôl 31 Mawrth 2015. Cyn 1 Ebrill 2015, roedd aelodau yn ennill buddiannau ar strwythur "cyflog terfynol", ac roedd y rhai a ymunodd o 1 Ebrill 2015 yn gallu ymuno â strwythur buddiannau Enillion Cyfartalog Gyrfa wedi'u Hailbrisio. Ar gyfer pob strwythur buddiannau, mae BTPA yn talu 60% o gyfanswm cost flynyddol cronni buddiannau newydd, lle mae'r aelodau yn talu'r 40% sy'n weddill%.

O ran aelodau a ymunodd cyn 1 Ebrill 2007, gallant gymryd buddiannau heb eu lleihau o 55 oed (ac eithrio pan fo gan aelodau oedran pensiwn 'gwarchodedig'). Mae buddiannau yn cronni ar gyfradd o 1/45ed o'r cyflog cyfartalog terfynol (llai 1/30ain o bensiwn sylfaenol cyfartalog terfynol y wladwriaeth) am bob blwyddyn o aelodaeth lesiannol. Hefyd, mae cyfandaliad sy'n cyfateb i 1/30ain o'r cyflog cyfartalog terfynol am bob blwyddyn o aelodaeth lesiannol yn daladwy ar adeg ymddeol. Ar hyn o bryd mae aelodau yn talu cyfraniadau o 16% o enillion pensiynadwy (llai 1.5 gwaith pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth). Mae pensiynau sy'n cael eu talu a'u gohirio yn cynyddu yn unol â gorchmynion a wneir o dan Ddeddf Pensiynau (Cynnydd) 1971.

O ran aelodau'r Gronfa a ymunodd rhwng 1 Ebrill 2007 a 31 Mawrth 2015, gellir cymryd buddiannau heb eu lleihau o 55 oed (ac eithrio pan fo gan aelodau oedran pensiwn 'gwarchodedig') os ydynt yn ymddeol o wasanaeth gweithredol ac yn 65 oed os ydynt yn ymddeol ar ôl gadael BTPA. Mae buddiannau yn cronni ar gyfradd o

1/70ain o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Hefyd, mae cyfandaliad sy'n cyfateb i 4/70ain o'r cyflog cyfartalog terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth yn daladwy ar adeg ymddeol. Ar hyn o bryd mae aelodau yn talu cyfraniadau o 12% o gyflog pensiynadwy. Mae pensiynau sy'n cael eu talu a'u gohirio yn cynyddu yn unol â gorchmynion a wneir o dan Ddeddf Pensiynau (Cynnydd) 1971.

O ran aelodau a ymunodd o 1 Ebrill 2015, yr oedran arferol i ymddeol o wasanaeth gweithredol yw 60 a'r oedran arferol i ymddeol ar ôl gadael cyflogaeth BTPA yw 65. Mae buddiannau yn cronni ar gyfradd o 1/55.3 o gyflog pensiynadwy am bob blwyddyn o wasanaeth gweithredol, gyda chyfradd ailbrisio ar gyfer aelodau gweithredol yn seiliedig ar Chwyddiant Prisiau Defnyddwyr ynghyd ag 1.25% y flwyddyn. Nid oes unrhyw fuddiannau arian parod ar wahân yn cronni, er bod aelodau yn cael yr opsiwn i gyfnewid rhywfaint o bensiwn am arian parod (yn unol â rheolau CThEF), ar delerau y cytunir arnynt rhwng yr Ymddiriedolwr a BTPA o bryd i'w gilydd. Ar hyn o bryd mae aelodau yn talu 10% o'u cyflog pensiynadwy. Mae pensiynau sy'n cael eu talu a'u gohirio yn cynyddu yn unol â gorchmynion a wneir o dan Ddeddf Pensiynau (Cynnydd) 1971.

Ar adeg marwolaeth, mae pensiynau'n daladwy i'r priod sy'n goroesi neu ddibynnydd cymwys ar gyfradd hanner pensiwn yr aelod. Mae pensiynau hefyd ar gael i blant aelodau. Efallai na fydd pensiynau goroeswyr yn daladwy mewn perthynas ag aelodau a ymunodd ar ôl 1 Ebrill 2007 os oes ganddynt lai na dwy flynedd o wasanaeth. Os bydd aelod yn marw yn ystod gwasanaeth, mae'r Gronfa yn talu budd-dal marwolaeth ar ffurf cyfandaliad o bedair gwaith y cyflog pensiynadwy ac mae hefyd yn ychwanegu at y gwasanaeth wrth gyfrifo pensiwn y priod, sy'n dibynnu ar hyd gwasanaeth.

Mae ymddeoliad meddygol yn bosibl yn achos analluogrwydd. Os felly, mae pensiynau yn cael eu talu ar unwaith heb ostyngiad actiwaraidd. Os na all yr aelod weithio mewn unrhyw swyddogaeth, (nid dim ond fel Swyddog yr Heddlu) gellir rhoi pensiwn uwch iddo yn ôl disgresiwn yr Ymddiriedolwyr.

Gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod

Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod (CETV) yw gwerth wedi'i gyfalafu a aseswyd yn actiwaraidd buddiannau'r cynllun pensiwn sydd wedi'u cronni gan aelod ar adeg benodol. Y buddiannau a brisiwyd yw buddiannau cronedig yr aelod a phensiwn unrhyw briod dibynnol sy'n daladwy o'r cynllun. Taliad a wneir gan gynllun pensiwn, neu drefniant i sicrhau buddiannau pensiwn mewn cynllun pensiwn arall, neu drefniant pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddiannau a gronnwyd yn ei gynllun blaenorol yw CETV.

Caiff ei gyfrifo gan yr Ymddiriedolwr yn unol â deddfwriaeth a chyngor actiwaraidd.

Mae a wnelo'r ffigurau ar gyfer pensiynau a ddangosir â'r buddiannau y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i gyfanswm ei aelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth ar lefel uwch y mae'r datgeliad yn gymwys iddo. Mae ffigurau'r CETV, ac o 2003/04 y manylion pensiwn eraill, yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiant pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i gynllun pensiwn arall.

Dangosir y cynnydd yn y CETV a ariennir i bob diben gan y cyflogwr. Mae'n ystyried y cynnydd mewn pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio safonol cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y flwyddyn.

Buddiannau Pensiwn (Archwiliedig)

Swyddogion	Gwerthoedd cronedig ar oedran pensiwn ar 31/03/26		Cynnydd gwirioneddol mewn gwerthoedd ar oedran pensiwn		CETV ar 31/03/25	CETV ar 31/03/26	Cynnydd gwirioneddol mewn CETV
	Pensi-wn	Cyfan-daliad	Pensi-wn	Cyfan-daliad			
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Aelodau'r Awdurdod							
	Nid yw Aelodau'r Awdurdod yn gymwys i ymuno â'r cynllun						
Swyddogion yr awdurdod							
Hugh Ind	15-20	15-20	0-2.5	2.5-5.0	241	278	14
Sarah Church	15-20	20-25	0-2.5	0-2.5	75	144	55
Rubeela Qayyum	Dewisodd beidio ag ymuno â'r cynllun						
Grŵp y Prif Swyddogion							
Sean O'Callaghan	15-20	20-25	0-2.5	2.5-5.0	216	236	1
Rachael Etebar	15-20	20-25	0-2.5	2.5-5.0	300	287	-
Lucy D'Orsi	10-15	10-15	2.5-5.0	2.5-5.0	165	220	29
Steff Sharp	30-35	40-45	10.0-12.5	5.0-7.5	126	239	98
Vanita Patel	30-35	50-55	0-2.5	2.5-5.0	247	286	22
Stuart Cundy	Dewisodd ymuno â chynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig						
Charlie Doyle	Dewisodd beidio ag ymuno â'r cynllun						
Alistair Sutherland	Dewisodd beidio ag ymuno â'r cynllun						
Paul Furnell	Dewisodd beidio ag ymuno â'r cynllun						
Ian Drummond-Smith	Mae trefniadau pensiwn Ian Drummond-Smith wedi aros gyda Heddlu Dyfnaint a Chernyw dros gyfnod ei secondiad.						

Adroddiad ar y Staff

Cyfanswm nifer cyfartalog yr unigolion a gyflogwyd (archwiliedig)

	2025/26	2024/25
Staff a gyflogwyd yn barhaol*	4,810	4,920
Staff dros dro**	131	133
Cwnstabliaid Gwirfoddol***	221	237
Cyfanswm	**5,162**	**5,290**

Mae nifer cyfartalog y staff yn seiliedig ar nifer y staff a thelerau cyflogaeth.

Cynyddodd trosiant staff yn 2025/26 gyda chyfradd o 10.0% (2024/25: 8.9%).

* Staff sydd wedi'u cyflogi'n barhaol a ddiffinnir fel staff sydd â chontract cyflogaeth parhaol (yn y DU)

** Staff a gwirfoddolwyr a gyflogwyd dros dro i gyflawni amcanion yr endid.

*** Mae gan Gwnstabliaid Gwirfoddol gontract â BTP sydd ychydig yn wahanol i gontract cyflogeion eraill, felly maent wedi'u datgelu ar wahân.

Mae cyfanswm costau staff yn cynnwys (Archwiliedig):

			2025/26 £'000	2024/25 £'000
	Staff a gyflogir yn barhaol	Aelodau eraill o staff	Cyfanswm	Cyfanswm
Mae cyfanswm costau staff yn cynnwys:				
Cyflogau	260,966	792	261,758	249,230
Costau nawdd cymdeithasol	31,728	-	31,728	24,685
Costau pensiwn	30,160	-	30,160	46,867
Is-gyfanswm	**322,854**	**792**	**323,646**	**320,782**
Llai symiau a adenillwyd mewn perthynas â secondiadau i'r tu allan	(339)	-	(339)	(541)
Cyfanswm costau net	**322,515**	**792**	**323,307**	**320,241**

Cyfanswm y gwariant ar ymgynghoriaeth ar gyfer 2025/26 yw £306,684 (£5,005 yn 2024/25). Nid oedd unrhyw gostau ymgynghoriaeth wedi'u cyfalafu yn 2025/26 (2024/25: £dim).

Cyfanswm y gwariant ar staff dros dro yw £792,419 ar gyfer 2025/26 (£875,914 yn 2024/25).

Adrodd ar hawliadau digolledu'r gwasanaeth sifil a hawliadau digolledu eraill - pecynnau ymadael (Archwiliedig):

	Nifer y diswyddiadau gorfodol		Nifer yr ymadawiadau eraill y cytunwyd arnynt		Cyfanswm y pecynnau ymadael yn ôl band cost	
	2025/26	2024/25	2025/26	2024/25	2025/26	2024/25
£0-£25,000	21	19	-	-	21	19
£25,001-£50,000	6	-	-	-	6	-
£50,001-£100,000	6	1		-	6	1
£100,001-£150,000	-	-	-	-	-	-
£150,000+	-	-	-	-	-	-
Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael	**33**	**20**	**-**	**-**	33	**20**
Cyfanswm gwerth y pecynnau	**796**	**183**	**–**	**–**	**796**	**183**

Roedd 33 o ymadawiadau gorfodol a oedd yn gwneud cyfanswm o £796k yn 2025/26 (20 yn 2024/25 yn gwneud cyfanswm o £183k).

Nid oedd unrhyw ymadawiadau eraill yn 2025/26 (dim yn 2024/25).

Cyfansoddiad y cyflogeion

Nifer yr unigolion o bob rhyw a oedd wedi'u cyflogi gan yr endid ar 31 Mawrth 2026:

	2025/26			2024/25		
	Gwryw	Benyw	Cyfanswm	Gwryw	Benyw	Cyfanswm
Aelodau'r Awdurdod	9	5	**14**	9	5	**14**
Swyddogion yr Awdurdod a'r Swyddogion Rheoli Strategol	5	5	**10**	5	5	**10**
Staff sy'n weddill	3,394	1,728	**5,122**	3,466	1,774	**5,240**
Cyfanswm	**3,408**	**1,738**	**5,146**	**3,480**	**1,784**	**5,264**

Diwrnodau o Absenoldeb oherwydd Salwch fesul unigolyn ar gyfartaledd 2025/26

Ar gyfer 2025/26 cynyddodd cyfartaledd nifer y diwrnodau dyletswydd salwch fesul unigolyn cyfwerth ag amser llawn yn BTP 1.60 diwrnod i gyfartaledd o 11.42 (2024/25: 9.82). Bu cynnydd y nifer y diwrnodau salwch ym mhob categori (Swyddogion yr Heddlu, Staff a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu) ers 2024/25. Mae'r gwaith o reoli salwch a phresenoldeb yn dal i fod yn ffocws allweddol i bawb, gyda'r nod o gefnogi llesiant cyflogeion a sicrhau'r lefel uchaf bosibl o bresenoldeb yn y gwaith.

Tablau Oddi ar y Gyflogres

Mae proses lywodraethu gadarn ar waith i herio a rheoli'r defnydd o benodiadau oddi ar y gyflogres a sicrhau cydymffurfiaeth. Ystyriwyd bod pob penodiad naill ai o fewn y cwmpas neu nad oedd yn ddarostyngedig i'r ddeddfwriaeth. I'r rhai nad oeddent yn ddarostyngedig i'r ddeddfwriaeth, cawsant eu penodi drwy gwmnïau ymbarél neu ar gyflogres sefydliad yn y gadwyn gyflenwi. Ailaseswyd dau benodiad er cysondeb a chydymffurfiaeth heb arwain at newid i'w statws cychwynnol.

Penodiadau gweithwyr oddi ar y gyflogres sy'n cael cyflog uchel ar 31 Mawrth 2026, sy'n ennill £245 y dydd neu fwy

	2025/26	2024/25
Nifer y penodiadau presennol ar 31 Mawrth 2026	**4**	**3**
O'r rheini, y nifer a barodd:		
am lai na blwyddyn ar y dyddiad adrodd	2	1
rhwng 1 a 2 flynedd ar y dyddiad adrodd	1	1
rhwng 2 a 3 blynedd ar y dyddiad adrodd	-	-
rhwng 3 a 4 blynedd ar y dyddiad adrodd	-	-
mwy na 4 blynedd ar y dyddiad adrodd	1	1

Yr holl weithwyr oddi ar y gyflogres a benodwyd ar unrhyw adeg rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026 a oedd yn ennill £245 y dydd neu fwy

	2025/26	2024/25
Nifer y gweithwyr dros dro oddi ar y gyflogres a benodwyd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026	**5**	**6**
Y rhai o'u plith nad oeddent yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth ynglŷn â phenodi oddi ar y gyflogres	2	3
Nifer y rhai a oedd yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth ynglŷn â phenodi oddi ar y gyflogres ac y pennir eu bod o fewn cwmpas IR35	3	3
Nifer y rhai a oedd yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth ynglŷn â phenodi oddi ar y gyflogres ac y pennir eu bod y tu allan i gwmpas IR35	-	-
Nifer y penodiadau a ailaseswyd at ddibenion cydymffurfiaeth neu sicrwydd yn ystod y flwyddyn	-	-
O'r rheini: Nifer y penodiadau y newidiwyd eu statws IR35 yn dilyn adolygiad	-	-

Unrhyw aelodau bwrdd a/neu uwch-swyddogion sydd â chyfrifoldeb ariannol sylweddol a benodwyd oddi ar y gyflogres, rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026

	2025/26	2024/25
Cyfanswm nifer yr unigolion a ystyriwyd yn 'aelodau bwrdd', a/neu'n uwch-swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol, yn ystod y flwyddyn ariannol. Dylai'r ffigur hwn gynnwys penodiadau ar y gyflogres ac oddi ar y gyflogres	11	10
Nifer yr aelodau bwrdd a/neu uwch-swyddogion sydd â chyfrifoldeb ariannol sylweddol a benodwyd oddi ar y gyflogres yn ystod y flwyddyn ariannol	–	–

Ymgysylltu â chyflogeion

Mae BTP yn cydnabod y cymdeithasau staff canlynol:

- Ffederasiwn yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig
- Cangen BTP o Gymdeithas yr Uwch-arolygwyr
- Cymdeithas Staff Cyflogedig Trafnidiaeth

Mae'r grwpiau cymorth canlynol yn gweithredu yn BTP:

- Cymdeithas Swyddogion Heddlu Mwslimaidd
- BRIAN – Rhwydwaith Niwroamrywiaeth
- Cymdeithas Swyddogion Heddlu Cristnogol
- Cymdeithas Swyddogion Heddlu Benywaidd
- Cymdeithas Swyddogion Heddlu Teithwyr Sipsiwn Roma
- Cymdeithas Swyddogion Heddlu Hindŵaidd
- Cymdeithas Swyddogion Heddlu Iddewig
- Cymdeithas Cymorth i Staff Ethnig Leiafrifol (SAME)
- Cymdeithas Swyddogion Heddlu Sikhaidd
- Rhwydwaith Anabledd
- Rhwydwaith yr Enfys
- Rhwydwaith Cydraddoldeb a Thegwch ar sail Rhyw (SEEN)

Rheoli anabledd

Mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn croesawu ymgeiswyr sydd ag anabledd ac mae'r tîm recriwtio yn gweithio mewn ymgynghoriad â'r Tîm Cynhwysiant ac Amrywiaeth, lle y bo'n briodol, i gefnogi cyfweliadau cynhwysol ar gyfer ymgeiswyr ag anabledd.

Mae BTP hefyd wedi rhoi proses ar waith i hwyluso ymgyngoriadau â'r Adran Iechyd Galwedigaethol ar bob cyflwr meddygol ac iechyd er mwyn sicrhau bod yr holl addasiadau rhesymol a chymorth priodol yn cael eu hystyried ar sail achos unigol.

Mae BTP wedi sefydlu grŵp llywio anabledd a niwroamrywiaeth ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol, o dan gadeiryddiaeth Prif Gwnstabl Cynorthwyol, i weithio drwy'r prosesau sydd eu hangen i sicrhau bod addasiadau a darpariaethau yn y gweithle yn cael eu rhoi ar waith i gefnogi cyflogeion, gan ddefnyddio'r model cymdeithasol o anabledd a niwroamrywiaeth. Mae hyn yn cynnwys lansio pasbort addasiadau i'r gweithle sy'n cynnig cymorth cyfannol ar gyfer pob cyflwr anfeddygol sy'n gofyn am addasiadau. Mae'r tîm Cynhwysiant ac Amrywiaeth yn cynnal digwyddiadau, gweminarau a sesiynau gwybodaeth yn rheolaidd i gefnogi'r gwaith hwn o godi ymwybyddiaeth o bynciau a themâu anabledd a niwroamrywiaeth, ac mae hyfforddiant wedi'i gynllunio ar gyfer uwch-arweinwyr a rheolwyr llinell.



Hugh Ind
Swyddog Cyfrifyddu

Dyddiad 3 Gorffennaf 2026

Adroddiad Atebolrwydd Seneddol ac Archwilio

Rheoleidd-dra gwariant:

Colledion a Thaliadau arbennig (archwiliedig)

	2025/26	2024/25
Cyfanswm nifer y colledion a'r taliadau arbennig	142	212
Cyfanswm gwerth y colledion a'r taliadau arbennig	£598,414	£1,408,386
Datganiad o golledion		
Nifer y colledion	83	79
Gwerth y colledion	£24,539	£139,365
Datganiad o daliadau arbennig		
Nifer y taliadau arbennig	59	133
Gwerth y taliadau arbennig	£573,874	£1,269,021

Colledion

Nid oes unrhyw golledion unigol sy'n fwy na £300,000 (2024/25: £dim)

Taliadau arbennig

Cyfanswm o £573,874 (2024/25: £1,235,297) i setlo hawliadau cyfreithiol gan gyn-gyflogeion a'r cyhoedd. Nid oedd unrhyw daliad unigol yn fwy na £300,000.

Mae holl daliadau pecynnau ymadael wedi'u datgelu ar wahân yn yr adroddiad ar Gydnabyddiaeth.

Tystysgrif ac Adroddiad Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Dau Dŷ Senedd y DU

Barn ar y datganiadau ariannol

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 o dan Ddeddf Diogelwch Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys mewn perthynas â Chronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig:

- Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2026;
- Datganiad o Incwm Cynhwysfawr, Datganiad o Lifau Arian Parod a Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- y nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

Mae'r fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn gyfraith gymwys ac yn safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ar 31 Mawrth 2026, ac o'i gwarged net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Diogelwch Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003 a chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a roddwyd o dan y ddeddf honno.

Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob achos perthnasol, mae'r incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodiadau ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU), cyfraith gymwys a Nodyn Ymarfer 10 *Audit of Financial Statements and Regularity of Public Sector Bodies in the United Kingdom (2024)*. Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran *Cyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol* o'm tystysgrif.

Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â Safon Foesegol Ddiwygiedig 2024 y Cyngor Adrodd Ariannol. Rwy'n annibynnol ar Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gafwyd gennyf yn ddigonol ac yn briodol i lunio sail dros fy marn.

Casgliadau mewn perthynas â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnydd Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig o sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gennyf, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau nac amodau a all, yn unigol neu ar y cyd, arwain at gryn amheuaeth ynghylch gallu Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r adeg y caiff y datganiadau ariannol eu hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol yn yr adrannau perthnasol o'r dystysgrif hon.

Caiff y sail cyfrifyddu busnes gweithredol ar gyfer Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ei mabwysiadu gan ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth Trysorlys EF, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu'r sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle y rhagwelir y bydd y gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn parhau yn y dyfodol.

Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth a geir yn yr Adroddiad Blynyddol, ond nid yw'n cynnwys y datganiadau ariannol na fy nhystysgrif archwilio arnynt. Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall.

Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall ac nid wyf, ac eithrio i'r graddau y nodir yn benodol yn fy nhystysgrif, yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sy'n rhoi sicrwydd ar y wybodaeth honno.

Rwy'n gyfrifol am ddarllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson iawn â'r datganiadau ariannol neu fy ngwybodaeth a geir yn yr archwiliad, neu yr ymddengys fel arall ei bod wedi'i chamddatgan yn sylweddol.

Os byddaf yn nodi anghysondebau sylweddol neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosol o'r fath, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gennyf, os byddaf yn dod i'r casgliad bod y wybodaeth arall hon wedi'i chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi adrodd ar y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w nodi yn hyn o beth.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, paratowyd y rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff i'w harchwilio yn briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a roddwyd o dan Ddeddf Diogelwch Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n destun harchwiliad wedi'u paratoi yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a roddwyd o dan Ddeddf Diogelwch Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003;

- mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr Adroddiadau ar Berfformiad ac Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol cymwys.

Materion rwyf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth o Gronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad ar Berfformiad na'r Adroddiad ar Atebolrwydd.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y byddaf yn cyflwyno adroddiad i chi arnynt os, yn fy marn i;

- nad yw Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig wedi cadw cofnodion cyfrifyddu digonol neu nad yw datganiadau sy'n ddigonol i'm harchwiliad wedi cael eu cyflwyno gan ganghennau nad ymwelodd fy staff â nhw; neu
- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer fy archwiliad; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol na'r rhannau o'r Adroddiad ar Atebolrwydd sy'n agored i gael eu harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- na wnaed datgeliadau penodol o gydnabyddiaeth a nodwyd gan Lawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth Trysorlys EF neu nad yw rhannau o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nad yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EF.

Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol

Fel y'i hesbonnir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Awdurdod a'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am y canlynol:

- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- rhoi mynediad i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i'r holl wybodaeth y mae'r rheolwyr yn ymwybodol sy'n berthnasol wrth baratoi'r datganiadau ariannol fel cofnodion, dogfennau a materion eraill;
- rhoi gwybodaeth ychwanegol ac esboniadau i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol sydd eu hangen arno i gynnal ei archwiliad;
- rhoi mynediad digyfyngiad i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol at bersonau yng Nghronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig y mae'n angenrheidiol iddo gael mynediad atynt ym marn yr archwilydd er mwyn cael tystiolaeth archwilio;
- sicrhau bod y cyfryw reolaethau mewnol ar waith ag a dybir yn angenrheidiol i baratoi datganiadau ariannol heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny o ganlyniad i dwyll neu wall;
- paratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun gwir a theg yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a roddwyd o dan Ddeddf Diogelwch Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003;

- paratoi'r adroddiad blynyddol, sy'n cynnwys yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff, yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a roddwyd o dan Ddeddf Diogelwch Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003;
- asesu gallu Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio'r sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni fydd y Swyddog Cyfrifyddu yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Gronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

Cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Diogelwch Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003.

Fy amcan yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn cynnwys unrhyw gamddatganiadau perthnasol ai peidio, boed hynny o ganlyniad i dwyll neu wall, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn cynnig lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol lle y bydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac ystyrir eu bod yn berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu ar y cyd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Y graddau yr ystyriwyd y gall yr archwiliad ganfod achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau gan gynnwys twyll

Lluniaf weithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll. Nodir y graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, yn cynnwys twyll, isod.

Nodi ac asesu risgiau posibl mewn perthynas ag achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, yn cynnwys twyll

Wrth nodi ac asesu risgiau o gamddatganiad perthnasol mewn perthynas ag achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, yn cynnwys twyll, gwneuthum y canlynol:

- ystyried natur y sector, amgylcheddol rheoli a pherfformiad gweithredol yn cynnwys y ffordd roedd polisïau cyfrifyddu Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig wedi cael llunio
- holi'r rheolwyr, Archwilydd Mewnol Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ynghylch:
  - nodi a gwerthuso cyfreithiau a rheoliadau a chydymffurfio â nhw;
  - canfod risgiau o dwyll ac ymateb iddynt;

- y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n ymwneud â thwyll neu achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yn cynnwys rheolaethau Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig mewn perthynas â chydymffurfiaeth Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig â Deddf Diogelwch Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003 a Rheoli Arian Cyhoeddus;

- holi'r rheolwyr, Archwilydd Mewnol Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch:
  - a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau;
  - a oeddent yn gwybod am unrhyw dwyll gwirioneddol, twyll a amheuir neu dwyll honedig;
- a oeddent wedi trafod â'r tîm ymgysylltu ynglŷn â sut a lle y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, ystyriais y cyfleoedd a'r cymhellion a all fodoli yng Nghronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig i gyflawni twyll a nodais y posibilrwydd mwyaf o dwyll yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw, cyflwyno dyddlyfrau anarferol, trafodiadau cymhleth a thuedd mewn amcangyfrifon rheoli. Fel gyda phob archwiliad o dan Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU), mae'n ofynnol i mi gyflawni gweithdrefnau penodol i ymateb i'r risg o ddiystyru rheolwyr.

Cefais ddealltwriaeth o fframwaith awdurdod Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn gweithredu'n unol â nhw. Canolbwyntiais ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar symiau a datgeliadau perthnasol yn y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig. Roedd y cyfreithiau a'r rheoliadau allweddol a ystyriais yn y cyd-destun hwn yn cynnwys Deddf Diogelwch Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003, *Managing Public Money*, cyfraith cyflogaeth, deddfwriaeth pensiynau a deddfwriaeth treth berthnasol.

Ymateb archwilio i risg a nodwyd

Er mwyn ymateb i'r risgiau a nodwyd sy'n deillio o'r gweithdrefnau uchod gwneuthum:

- adolygu'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a phrofi'r ddogfennaeth ategol er mwyn asesu cydymffurfiaeth â darpariaethau cyfreithiau a rheoliadau perthnasol y disgrifir uchod eu bod yn cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol;
- holi rheolwyr a'r Pwyllgor Archwilio Sicrwydd Risg ynghylch achosion cyfreithiol a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- adolygu cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ac adroddiadau'r Bwrdd ac adroddiadau archwilio mewnol;
- mynd i'r afael â'r risg o dwyll drwy ddiystyru rheolaethau drwy brofi priodoldeb cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill; asesu a yw'r farn a luniwyd ar amcangyfrifon yn dangos tuedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodiadau sylweddol sy'n anarferol neu y tu hwnt i fusnes arferol

Gwneuthum hefyd hysbysu pob aelod o'r tîm ymgysylltu am gyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau posibl o dwyll, gan gadw'n effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Ceir disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm tystysgrif.

Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Mae'n yn ofynnol i mi gael digon o dystiolaeth archwilio briodol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Senedd y DU a bod y trafodiadau ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith pethau eraill, gwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau sylweddol o'r archwiliad, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol y byddaf yn eu nodi yn ystod fy archwiliad.

Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Gareth Davies **3 Gorffennaf 2026**
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP



Adroddiad Ariannol



Datganiad o incwm cynhwysfawr

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026

	Nodyn	31 Mawrth 2026 £'000	31 Mawrth 2025 £'000
Incwm			
Cytundeb Gwasanaeth yr Heddlu	6	298,395	281,585
Incwm Arall	6	119,163	110,575
		417,558	**392,160**
Gwariant			
Costau staff	7	(325,827)	(320,241)
Dibrisio ac amorteiddio	8	(23,125)	(23,933)
Gwariant arall	8	(75,415)	(71,469)
		(424,367)	**(415,643)**
Diffyg gweithredu		**(6,809)**	**(23,483)**
Llog net derbyniadwy		917	952
Llog net derbyniadwy/(taladwy) ar gyfer cynlluniau pensiwn	23	10,090	(170)
Traul cyllid	8	(2,179)	(527)
Ennill o addasu'r les		4	22
Gwarged/(diffyg) net ar gyfer y flwyddyn ariannol		**2,023**	**(23,206)**
Incwm cynhwysfawr arall			
Eitemau na fyddant yn cael eu hailddosbarthu:			
Ennill/(colled) net ar ailbrisio asedau anghyfredol	22	662	1,458
Enillion/(colledion) actiwaraidd ar gynlluniau pensiwn buddiannau diffiniedig	22	106,920	194,630
		107,582	**196,088**
Cyfanswm y gwarged/(diffyg) cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026		**109,605**	**172,882**

Caiff unrhyw ddiffyg neu warged net ar gyfer y flwyddyn ariannol berthnasol ei drosglwyddo i'r cronfeydd wrth gefn. Nodir symudiadau yn y cronfeydd wrth gefn yn Nodyn 22.

Mae pob gweithrediad yn cael ei ddosbarthu'n un sy'n parhau; nid oedd unrhyw gaffaeliadau na gwarediadau perthnasol yn ystod y flwyddyn.

Datganiad o'r sefyllfa ariannol

Ar 31 Mawrth 2026

	Nodyn	31 Mawrth 2026 £'000	31 Mawrth 2025 £'000
Asedau anghyfredol			
Eiddo, offer a chyfarpar	9	117,816	122,192
Asedau anniriaethol	10	1,994	1,259
Symiau derbyniadwy eraill	13	6	6
Ased pensiwn	23	276,941	162,451
Cyfanswm yr asedau anghyfredol		**396,757**	**285,908**
Asedau cyfredol			
Stocrestrau	12	73	324
Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	13	15,652	15,231
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod	14	50,951	50,273
Cyfanswm yr asedau cyfredol		**66,676**	**65,828**
Cyfanswm yr asedau		**463,433**	**351,736**
Rhwymedigaethau cyfredol			
Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	15	(70,029)	(69,936)
Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau	16	(10,313)	(8,320)
Rhwymedigaethau les	15	(4,010)	(3,722)
Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol		**(84,352)**	**(81,978)**
Asedau anghyfredol ynghyd ag asedau cyfredol net		**379,081**	**269,758**
Rhwymedigaethau anghyfredol			
Rhwymedigaethau les	15	(49,410)	(50,076)
Cyfanswm y rhwymedigaethau anghyfredol		**(49,410)**	**(50,076)**
Asedau llai rhwymedigaethau		**329,671**	**219,682**
Gwarged net trethdalwyr			
Cronfa incwm a gwariant wrth gefn	22	39,134	41,563
Cronfa ailbrisio wrth gefn	22	13,596	15,668
Cronfa bensiwn wrth gefn	22,23	276,941	162,451
		329,671	219,682
		329,671	**219,682**

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol ar dudalennau 99 i 153 gan yr Awdurdod ar 01/07/2026 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan:



Hugh Ind
Swyddog Cyfrifyddu
Dyddiad 3 Gorffennaf 2026

Datganiad o newidiadau o ran ecwiti trethdalwyr

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026

	Nodyn	Cronfa incwm a gwariant wrth gefn £'000	Cronfa ailbrisio wrth gefn £'000	Cronfa bensiwn wrth gefn £'000	Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn £'000
Balans ar 01 Ebrill 2024		**44,942**	**17,967**	**(16,109)**	**46,800**
Newidiadau mewn ecwiti trethdalwyr 2024/25					
Ennill/(colled) net ar ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar ac asedau anniriaethol	9,10,22	-	1,458	-	1,458
Enillion/(Colledion) Actiwaraidd	22	-	-	194,630	194,630
Diffyg net ar gyfer y flwyddyn	22	(23,206)	-	-	(23,206)
Ailddosbarthu	22	-	-	-	-
Trosglwyddo i/o Gronfeydd Wrth Gefn	23	19,827	(3,757)	(16,070)	-
Balans ar 31 Mawrth 2025		**41,563**	**15,668**	**162,451**	**219,682**
Newidiadau mewn ecwiti trethdalwyr 2025/26					
Ennill/(colled) net ar ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar ac asedau anniriaethol	9,10,22	-	662	-	662
Enillion/(Colledion) Actiwaraidd	22	-	-	106,920	106,920
Diffyg net ar gyfer y flwyddyn	22	2,023	-	-	2,023
Cyllid grant yr Adran Drafnidiaeth wedi'i gydnabod*	22	382	-	-	382
Ailddosbarthu	22	2	-	-	2
Trosglwyddo i/o Gronfeydd Wrth Gefn	23	(4,836)	(2,734)	7,570	-
Balans ar 31 Mawrth 2026		**39,134**	**13,596**	**276,941**	**329,671**

* Mae hwn yn gymorth grant a ddarperir drwy gyllid yr Adran Drafnidiaeth (y parti rheoli) ar gyfer Ymgyrch Overhand a Strydoedd Diogelach.

Datganiad o lifau arian parod

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026

	Nodiadau	2025/26 £'000	2024/25 £'000
Llifau arian parod o weithgareddau gweithredu			
Diffyg gweithredu		(6,809)	(23,483)
Llai addasiadau nad ydynt yn arian parod			
(Elw)/Colled ar waredu eiddo, offer a chyfarpar		47	6
(Cynnydd)/Lleihad mewn symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	13	(421)	4,335
(Cynnydd)/lleihad mewn stocrestrau	12	251	(267)
Cynnydd/(Lleihad) mewn symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	15	5,738	(285)
Cynnydd/(Lleihad) mewn symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn	15	-	-
Cynnydd/(Lleihad) mewn rhwymedigaethau	16	1,831	(315)
Dibrisio eiddo, offer a chyfarpar	9	17,372	18,512
Dibrisio asedau hawl-i-ddefnyddio	9	5,104	4,776
Amorteiddio asedau anniriaethol	10	649	645
Addasiad pensiwn IAS 19	23	2,520	15,900
Datgydnabod asedau sy'n cael eu hadeiladu	9,10	738	159
Datgydnabod ased hawl-i-ddefnyddio	9	-	(10)
Llif arian parod net o weithgareddau gweithredu		**27,020**	**19,973**
Llifau arian parod o weithgareddau buddsoddi			
Prynu eiddo, offer a chyfarpar	9	(20,561)	(17,680)
Prynu asedau anniriaethol	10	(1,384)	(240)
Enillion o waredu asedau		256	1,749
Llog a dalwyd/(a dderbyniwyd)		-	-
Llif arian parod net o weithgareddau buddsoddi		**(21,689)**	**(16,171)**
Llifau arian parod o weithgareddau cyllido			
Ad-daliad cyfalaf rhwymedigaethau hawl-i-ddefnyddio	19	(5,952)	(4,916)
Cyllid grant a dderbyniwyd		382	-
Llog a dderbyniwyd		917	952
Llifau arian parod net o weithgareddau cyllido		**(4,653)**	**(3,964)**
Cynnydd/(lleihad) mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo		**678**	**(162)**
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar ddechrau'r cyfnod		**50,273**	**50,435**
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar ddiwedd y cyfnod		**50,951**	**50,273**

Nodiadau i'r Cyfrifon

1 Cyffredinol

Mae'r rhain yn gyfrifon endid sengl ar gyfer Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, sef yr endid statudol sy'n cynrychioli BTPA a BTP yn ariannol. Ni nodwyd unrhyw endidau y mae Cronfa'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn eu rheoli ac felly ni pharatowyd unrhyw gyfrifon cyfunol.

Y bunt sterling yw'r arian cyfred cyflwyniadol ar gyfer y cyfrifon. Oni nodir fel arall, mae symiau wedi'u talgrynnu i'r £1,000 agosaf.

2 Datganiad o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth 2025/26 a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF. Mae'r polisïau cyfrifyddu a geir yn y Llawlyfr Adrodd Ariannol yn cymhwyso'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol fel y'u mabwysiadwyd neu fel y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Pan fo'r Llawlyfr Adrodd Ariannol yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y bernir mai hwnnw yw'r un mwyaf priodol i amgylchiadau penodol Awdurdod yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig (yr Awdurdod) at ddiben rhoi darlun gwir a theg. Disgrifir isod y polisïau penodol a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod ar gyfer 2025/26. Maent wedi'u cymhwyso'n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

2.1 Confensiwn cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol wedi'i addasu i ystyried ailbrisio asedau anghyfredol.

2.2 Busnes gweithredol

Paratowyd y cyfrifon hyn ar sail busnes gweithredol am fod yr Awdurdod yn parhau i fod yn unig ddarparwr gwasanaethau plismona ar y rhwydwaith rheilffyrdd o dan Ddeddf Diogelwch Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003.

Prif ddiben statudol yr Awdurdod, yn unol â Deddf Diogelwch Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003, yw sicrhau y cynhelir heddlu effeithlon ac effeithiol ar gyfer y rheilffyrdd yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mae hyn yn cynnwys talu costau'r Heddlu ac adennill ei gostau oddi wrth y cwmnïau sy'n darparu ac yn defnyddio'r rhwydwaith rheilffyrdd. Mae hyn yn diogelu'r Awdurdod i ryw raddau o ran sicrhau digon o gyllid ar gyfer gwariant cyfredol a gwariant yn y dyfodol. Mae Managing Public Money yn nodi, pe na allai corff hyd braich gyflawni ei rwymedigaethau yn llawn, y byddai'r adran noddi, sef yr Adran Drafnidiaeth yn achos yr Awdurdod, yn gweithio gyda'r corff a noddir i reoli rhwymedigaethau'r corff. Felly mae'r Awdurdod wedi pennu y gall barhau i fodloni ei rwymedigaethau wrth iddynt fod yn ddyledus ac mae'n briodol paratoi ei gyfrifon ar sail busnes gweithredol.

2.3 Safonau cyfrifyddu a gyhoeddwyd ond heb eu mabwysiadu eto

Nid oes unrhyw safonau perthnasol sydd wedi'u cyhoeddi sy'n weithredol ar gyfer 2025/26.

2.4 Eiddo, offer a chyfarpar

Mae eiddo, offer a chyfarpar yn cynnwys gwelliannau a gwaith cyfalaf i adeiladau, offer a pheiriannau lesddaliadol, asedau hawl-i-ddefnyddio, cyfarpar technoleg gwybodaeth (TG), gosodiadau a ffitiadau, a cherbydau ffordd sydd eu hangen ar gyfer gweithrediadau'r Heddlu sy'n mynd rhagddynt. Caiff yr holl wariant ar gaffael, creu neu wella eiddo, offer a chyfarpar ei gyfalafu, yn amodol ar isafswm terfyn ariannol o £1,000, ar sail croniadau yn unol ag IAS 16 - Eiddo, offer a chyfarpar. Caiff yr asedau anghyfredol hyn eu cydnabod i ddechrau ar gost, sy'n cynnwys pris prynu (gan gynnwys Treth Ar Werth (TAW) na ellir ei hadennill ac unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â dod ag asedau i'r lleoliad a'r cyflwr sy'n angenrheidiol er mwyn iddynt allu gweithredu yn y modd a fwriadwyd). Ar ôl ei gydnabod, caiff cyfarpar diogelu personol ei ailbrisio a'i ailddatgan i'r gwerth cyfredol bob blwyddyn gan ddefnyddio'r mynegeion costio hanesyddol addasedig perthnasol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS). Dyddiad gweithredol yr ailbrisiad oedd 31 Mawrth 2026; nid oes unrhyw brisiwr annibynnol wedi bod yn rhan o'r broses.

Mae costau staff mewnol y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i adeiladu ased, gan gynnwys cynlluniau adnewyddu cyfalaf, yn cael eu cyfalafu. Mae hyn yn cynnwys staff ar gyflogres yr Awdurdod sy'n gweithio'n benodol ar brosiectau cyfalaf.

Mae'r Awdurdod yn gweithredu polisi grwpio ar brynu eiddo, offer a chyfarpar. Mae hyn yn golygu, pan fydd nifer o eitemau o natur gyfalaf yn cael eu prynu gyda'i gilydd a bod y gost gyfunol yn fwy na £1,000, eu bod yn cael eu cyfalafu hyd yn oed os yw cost yr eitemau unigol yn llai na £1,000.

Codir tâl am wariant sydd islaw'r gwerthoedd hyn fel treuliau yn y datganiad o incwm cynhwysfawr.

Mae'r Awdurdod yn datgydnabod asedau sydd â gwerth llyfr net o ddim pan gânt eu tynnu'n ôl o ddefnydd ac na ddisgwylir unrhyw fuddiannau economaidd yn y dyfodol o'u gwaredu. Yr ennill neu'r golled ar waredu yw'r gwahaniaeth rhwng yr enillion a'r swm cario ac fe'i cydnabyddir yn y datganiad o incwm cynhwysfawr (SoCI).

2.5 Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu

Mae asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu yn adlewyrchu prosiectau cyfalaf sy'n dal i fynd rhagddynt ac nad ydynt ar gael i'w defnyddio eto. Cânt eu mesur yn ôl cost hanesyddol ac maent yn destun adolygiad blynyddol o amhariad.

2.6 Dibrisiant

Darperir dibrisiant ar sail llinell syth dros gyfnodau sy'n cynrychioli oes ddefnyddiol amcangyfrifedig asedau. Mae cerbydau modur yn dechrau cael eu dibrisio unwaith

y bydd y cwmni rheoli fflyd wedi cadarnhau eu bod yn cael eu defnyddio. Mae pob ased arall yn dechrau cael ei ddibrisio fis ar ôl tybio eu bod ar gael i'w defnyddio.

Yr oesoedd a ddefnyddir ar gyfer y prif gategorïau o asedau yw:

Gwelliannau lesddaliadol	Nifer y blynyddoedd sy'n weddill ar y les ar adeg prynu
Offer a pheiriannau	5 mlynedd
Asedau hawl-i-ddefnyddio	Nifer y blynyddoedd sy'n weddill ar y les
Gosodiadau a ffitiadau	5 mlynedd
Cerbydau modur	5 mlynedd
Cyfarpar TG	2–5 mlynedd

Ni ddarperir unrhyw ddibrisiant ar asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu.

2.7 Asedau anniriaethol

Ased anariannol adnabyddadwy heb sylwedd ffisegol yw ased aniriaethol. Caiff asedau anniriaethol eu cyfalafu os yw'n debygol y bydd y buddiannau disgwyliedig yn y dyfodol y gellir eu priodoli iddynt yn llifo i'r Awdurdod ac os gellir mesur eu cost yn ddibynadwy. Mae meddalwedd a thrwyddedau cyfrifiadurol, prosiect y rhwydwaith ardal eang a gwariant ar ddatblygu gwefannau yn cael eu cyfalafu fel asedau sefydlog anniriaethol os eir i wariant o £1,000 neu fwy.

Mae'r Awdurdod yn gweithredu polisi grwpio ar brynu asedau anniriaethol. Mae hyn yn golygu, pan fydd nifer o eitemau o natur gyfalaf yn cael eu prynu gyda'i gilydd a bod y gost gyfunol yn fwy na £1,000, eu bod yn cael eu cyfalafu hyd yn oed os yw cost yr eitemau unigol yn llai na £1,000.

Caiff asedau anniriaethol a ddatblygwyd yn fewnol, megis meddalwedd cymwysiadau neu gronfeydd data, gwariant ar ddatblygu mewn cysylltiad â chynnyrch neu wasanaeth, sydd i'w gyflenwi ar sail adennill cost lawn, a gwariant arall ar ddatblygu eu cyfalafu os yw'n bodloni'r meini prawf a bennir yn IAS 38 - Asedau Anniriaethol. Mae'r meini prawf hyn yn cynnwys bod ased adnabyddadwy a fydd yn arwain at fuddiannau yn y dyfodol ac os gellir pennu'r gost yn ddibynadwy.

O 1 Ebrill 2025, newidiodd Trysorlys EF y gofynion yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM) mewn perthynas ag ailbrisio asedau anniriaethol nad ydynt yn fuddsoddiad. Yn unol â'r diwygiad hwn, cyfrifir am asedau anniriaethol gan ddefnyddio'r model cost hanesyddol yn hytrach na'r model ailbrisio. O dan y dull newydd, caiff asedau anniriaethol eu cydnabod i ddechrau ar gost ac yna eu mesur ar gost llai colledion amorteiddio ac amhariad cronedig. Fel rhan o'r newid, mae gwerth cario asedau anniriaethol presennol ar 1 Ebrill 2025 wedi cael ei drin fel cost hanesyddol dybiedig a throsglwyddwyd y gwarged ailbrisio a ddaliwyd ar gyfer asedau anniriaethol o £1.7m i gronfeydd wrth gefn cyffredinol yn ystod y flwyddyn. Mae'r newid yn y polisi cyfrifyddu wedi'i gymhwyso'n rhagolygol o'r dyddiad newid. Caiff asedau anniriaethol eu hamorteiddio ar sail llinell syth dros oes economaidd ddefnyddiol o ddwy i bum mlynedd yn dibynnu ar fanylion penodol yr ased anniriaethol.

Mae'r Awdurdod yn datgydnabod asedau pan gânt eu tynnu'n ôl o ddefnydd ac na ddisgwylir unrhyw fuddiannau economaidd yn y dyfodol o'u gwaredu. Yr ennill neu'r golled ar waredu yw'r gwahaniaeth rhwng yr enillion a'r swm cario ac fe'i cydnabyddir yn y datganiad o incwm cynhwysfawr.

2.8 Gwarediadau

Codir am ddibrisiant hyd at y dyddiad y caiff yr ased ei waredu. Caiff unrhyw enillion neu golledion ar waredu eiddo, offer a chyfarpar yn y pen draw eu cydnabod yn y datganiad o incwm cynhwysfawr pan gaiff yr ased ei ddatgydnabod.

2.9 Amhariad ar asedau anariannol

At ddibenion profi amhariad, edrychir ar eiddo, offer a chyfarpar ac asedau anniriaethol ar sail unigol. Os nad yw hyn yn bosibl, caiff asedau eu grwpio ar y lefelau isaf y mae llifau arian parod adnabyddadwy ar wahân ar eu cyfer, a elwir yn unedau cynhyrchu arian parod.

Ar ddiwedd pob cyfnod adrodd, mae'r Awdurdod yn adolygu symiau cario ei eiddo, ei offer a'i gyfarpar a'i asedau anniriaethol i bennu a oes unrhyw arwydd bod yr asedau hynny wedi dioddef colled oherwydd amhariad. Os oes unrhyw arwydd o'r fath, amcangyfrifir swm adenilladwy'r ased er mwyn pennu maint y golled oherwydd amhariad, os o gwbl. Os nad yw'n bosibl amcangyfrif swm adenilladwy ased unigol, mae BTPA yn amcangyfrif swm adenilladwy'r uned cynhyrchu arian parod y mae'r ased yn perthyn iddi.

Os amcangyfrifir bod swm adenilladwy ased neu uned cynhyrchu arian parod yn llai na'i swm cario, caiff swm cario'r ased neu'r uned cynhyrchu arian parod ei leihau i'w swm adenilladwy. Cydnabyddir colled oherwydd amhariad ar unwaith yn y datganiad o incwm cynhwysfawr.

Pan fydd colled oherwydd amhariad yn gwrthdroi wedi hynny, cynyddir swm cario'r ased neu'r uned cynhyrchu arian parod i'r amcangyfrif diwygiedig o'i swm adenilladwy, heb fod yn fwy na'r swm cario a fyddai wedi'i bennu pe na bai unrhyw golled oherwydd amhariad wedi'i chydnabod ar gyfer yr ased neu'r uned cynhyrchu arian parod mewn blynyddoedd blaenorol. Cydnabyddir gwrthdroad colled oherwydd amhariad ar unwaith yn y datganiad o incwm cynhwysfawr.

2.10 Cydnabod Refeniw

Cydnabyddir incwm wrth i'r rhwymedigaethau perfformiad gael eu cyflawni yn unol ag IFRS15 - Refeniw o Gontractau â Chwsmeriaid. Mae'r rhan fwyaf o'r incwm yn deillio o Gytundebau Gwasanaeth yr Heddlu (PSA) a Chytundebau Gwasanaeth Ychwanegol yr Heddlu (EPSA). Pennir Cytundebau Gwasanaeth yr Heddlu yn unol â Deddf Diogelwch Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003, ac maent yn nodi'r rhwymedigaethau sydd ar yr Awdurdod a'r gweithredwyr rheilffyrdd. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i weithredwyr rheilffyrdd ymrwymo i Gytundeb Gwasanaeth yr Heddlu. Mae'r taliadau yn seiliedig ar y cynllun plismona blynyddol sy'n cael ei lunio ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid. Cydnabyddir taliadau yn gyfartal dros y flwyddyn ariannol, a gwneir y taliadau mewn 13 rhandaliad cyfartal. Caiff unrhyw incwm dros

ben ei symud i incwm gohiriedig a'i hawlio pan fo'i angen. O dan y Ddeddf mae gan yr Awdurdod yr hawl i dalu cost yr Heddlu gan gynnwys unrhyw ddiffyg yr eir iddo. Os bydd diffyg yn codi, bydd yr Awdurdod yn asesu a fydd yn cael ei adennill drwy daliadau Cytundebau Gwasanaeth yr Heddlu yn y dyfodol yn y flwyddyn ganlynol. Os cytunir, caiff balans incwm cronedig ei ddal nes bod yr arian yn cael ei gasglu. Defnyddir yr un fethodoleg os bydd tanwariant yn codi a bod ad-daliad yn cael ei gymeradwyo; os cytunir, bydd swm taladwy yn cael ei gydnabod nes bod yr arian yn cael ei ddychwelyd. Mae Cytundebau Gwasanaeth Ychwanegol yr Heddlu yn bodoli pan fydd gweithredwr rheilffordd yn gofyn am wasanaeth pwrpasol ochr yn ochr â Chytundeb Gwasanaeth yr Heddlu neu i fynd i'r afael â mater penodol. Codir y gost lawn am ddarparu Cytundebau Gwasanaeth Ychwanegol yr Heddlu ar weithredwr y rheilffordd. Codir y costau yn ystod y flwyddyn, yn unol â'r gwasanaeth a ddarperir wrth i'r rhwymedigaethau perfformiad gael eu cyflawni. Mae Cytundebau Gwasanaeth Ychwanegol yr Heddlu wedi'u contractio am gyfnod penodol. Codir y gost wirioneddol am y gwasanaethau a ddarperir ym mhob cyfnod ar ddeiliaid Cytundebau Gwasanaeth Ychwanegol yr Heddlu. Nid yw'r driniaeth ar gyfer Cytundebau Gwasanaeth Ychwanegol yr Heddlu yn arwain at unrhyw asedau na rhwymedigaethau. Anfonebir taliadau Rheilffordd Danddaearol Llundain (TfL) ymlaen llaw dros 13 cyfnod yn ystod y flwyddyn ariannol. Ym mhob cyfnod codir croniad i dalu am unrhyw ddiffygion ac i sicrhau bod yr incwm yn cael ei gofnodi yn y cyfnod y darperir y gwasanaeth. Mae'r Awdurdod mewn cyd-drafodaethau i adennill unrhyw ddiffyg/dychwelyd y swm gormodol drwy broses 'cau pen y mwdwl' sydd fel arfer yn digwydd yn ystod y flwyddyn ariannol ddilynol a bydd incwm cronedig yn cael ei ddal tan hynny nes bod yr arian yn cael ei dderbyn.

2.11 Lesoedd

Mae IFRS 16 Lesoedd yn cynnig model cyfrifyddu lesddeiliad unigol sy'n arwain at gynrychioli asedau a rhwymedigaethau lesddeiliad yn fwy cywir ac, ynghyd â datgeliadau manylach, bydd yn rhoi mwy o dryloywder ynghylch trosoledd ariannol lesddeiliad a'r cyfalaf a ddefnyddir ganddo. Mae'r safon yn ei gwneud yn ofynnol i lesddeiliaid gydnabod asedau a rhwymedigaethau ar gyfer pob les oni bai mai 12 mis neu lai yw cyfnod y les neu fod yr ased sylfaenol yn bodloni meini prawf IFRS 16 i gael ei ddosbarthu'n ased 'gwerth isel". Caiff yr asedau a'r rhwymedigaethau eu cydnabod i ddechrau ar werth wedi'i ddisgowntio y taliadau les gofynnol, a chyflwynir yr asedau, a ddisgrifir fel asedau "hawl-i-ddefnyddio", o dan Eiddo, Offer a Chyfarpar. Mae'r asedau hawl-i-ddefnyddio wedi cael eu dibrisio ar sail llinell syth ac mae llog wedi cael ei gydnabod ar y rhwymedigaethau. Mae'r model cost wedi'i gymhwyso at asedau ar gyfer lesoedd heblaw am lesoedd â rhent pupur, sydd wedi'u mesur ar sail gwerth cyfredol yn y defnydd presennol. O ganlyniad, bydd amseriad cydnabod cyfanswm costau lesoedd yn newid, oherwydd bydd costau llog yn uwch ar ddechrau les.

O dan IFRS 16, fel y'i haddaswyd ac fel y'i dehonglwyd gan y Llawlyfr Adrodd Ariannol, mae rhagdybiaeth, pan na all endidau bennu'n rhwydd y gyfradd llog sy'n ymhlyg yn y les, eu bod yn ofynnol iddynt ddefnyddio cyfradd ddisgowntio Trysorlys EF a gyhoeddwyd ym mhapurau'r System Gwariant Cyhoeddus fel eu cyfradd benthyca cynyddrannol. Y gyfradd ddisgowntio a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF

oedd 4.81% ar gyfer blwyddyn galendr lawn 2025, a gymhwyswyd gan yr Awdurdod ar gyfer lesoedd sy'n dechrau neu sy'n cael eu hailfesur cyn mis Ionawr 2026 ac yn y flwyddyn galendr 2025. Y gyfradd ddisgowntio a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF yw 5.32% ar gyfer blwyddyn galendr lawn 2026. Ar gyfer lesoedd a ddechreuodd neu a ailfesurwyd cyn Ionawr 2025, cafodd y gyfradd ddisgowntio gymwys gan Drysorlys EF a gyhoeddwyd ar gyfer y flwyddyn honno ei chymhwyso.

Mae gan yr Awdurdod nifer o lesoedd mewn perthynas ag eiddo nad ydynt yn dod o dan gwmpas IFRS 16. Ystyrir y lesoedd hyn yn rhai byrdymor neu pan na ellir dangos tystiolaeth o ased a nodwyd. Codir tâl am renti o dan y lesoedd hyn ar y datganiad o incwm cynhwysfawr yn y cyfnod yr aed iddynt. Cyfanswm y taliadau rhent ar gyfer 2025/26 oedd £3.3 miliwn (£4.5 miliwn yn 2024/25).

2.12 Darpariaethau

Mae'r Awdurdod yn gwneud darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau yn unol ag IAS 37 - Darpariaethau, lle mae rhwymedigaeth gyfreithiol neu ddeongliadol (h.y. rhwymedigaeth bresennol o ddigwyddiadau yn y gorffennol) yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd cyfredol, mae'n debygol y bydd buddiannau economaidd yn cael eu trosglwyddo, a gellir llunio amcangyfrif rhesymol.

Mae darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau yn seiliedig ar amcangyfrifon dibynadwy o'r gwariant sydd ei angen i setlo rhwymedigaethau cyfreithiol neu ddeongliadol yn y dyfodol sy'n bodoli. Codir darpariaethau ar y datganiad o incwm cynhwysfawr a chânt eu rhyddhau pan drosglwyddir budd economaidd i setlo'r rhwymedigaeth. Y darpariaethau allweddol a oedd yn weddill ar ddiwedd y flwyddyn oedd hawliadau yn erbyn yr Awdurdod, dadfeiliadau ac adolygiadau rhent.

2.13 Rhwymedigaethau dibynnol

Yn unol ag IAS 37, mae'r Awdurdod yn datgelu fel rhwymedigaethau dibynnol rwymedigaethau posibl yn y dyfodol sy'n deillio o ddigwyddiadau rhwymedigaethol yn y gorffennol, pan fo bodolaeth rhwymedigaethau o'r fath yn parhau i fod yn ansicr tra'n disgwyl canlyniad digwyddiadau yn y dyfodol y tu allan i reolaeth yr Awdurdod, onid ystyrir eu bod yn annhebygol iawn o godi.

2.14 TAW

Mae'r rhan fwyaf o weithgareddau'r Awdurdod y tu allan i gwmpas TAW ac, yn gyffredinol, nid oes treth allosod yn gymwys ac ni ellir adennill treth fewnosod ar bryniannau. Mae TAW fewnosod ar wasanaethau anstatudol yn adenilladwy. Codir TAW na ellir ei hadennill ar y categori gwariant perthnasol neu, os yw'n briodol, caiff ei gyfalafu gydag ychwanegiadau at asedau anghyfredol. Pan gaiff treth allosod ei chodi, neu pan fydd treth fewnosod yn adenilladwy, caiff y symiau eu nodi heb gynnwys TAW.

2.15 Llog sy'n daladwy/derbyniadwy/traul cyllid

Mae llog sy'n daladwy yn cael ei gronni fel bod y cyfnod yn dwyn cost lawn y llog sy'n ymwneud â benthyciadau gwirioneddol yn ystod y cyfnod hwnnw.

Traul cyllid yw'r llog a godir yn erbyn asedau hawl-i-ddefnyddio sydd o fewn cwmpas IFRS 16.

Cyfrifir am log sy'n dderbyniadwy yn y cyfnod y mae'n ddyledus.

2.16 Stocrestrau

Mae stocrestrau yn cynnwys lifrai yn bennaf. Datgenir stocrestr ar gost neu werth gwireddadwy net, pa un bynnag yw'r isaf.

2.17 Amhariad ar asedau ariannol

Caiff pob drwgddyled a dyled amheus ei hadolygu fesul achos i asesu i ba raddau y bydd camau adennill yn debygol o fod yn llwyddiannus. Mae pob asesiad yn ystyried natur y ddyled, cofnod talu'r dyledwr, a fu neu a oes anghydfod rhwng y dyledwr a'r Awdurdod ac unrhyw wybodaeth briodol arall. Os yw'n ymddangos bod y tâl anghywir wedi cael ei godi ar ddyledwr, yna bydd y swm hwn yn cael ei roi yn ôl yn y model codi tâl a bydd y gost yn cael ei hailgodi yn gywir.

Lle y bo'n berthnasol, adlewyrchir amhariad ar swm sy'n hafal i'r colledion credyd disgwyliedig gydol oes.

Cydnabyddir lwfansau colled credyd lle y bo'n berthnasol. Mae'r Awdurdod o'r farn nad oes unrhyw un o'i ddyledion wedi cynyddu'n sylweddol o ran risg credyd yn 2025/26 ac nad oes unrhyw golled credyd ddisgwyliedig gydol oes wedi'i chyfrifo ar gyfer y flwyddyn.

2.18 Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo

At ddibenion y datganiad o lifau arian parod, mae arian parod (SoCF) yn cynnwys arian parod mewn llaw ac adneuon ar gais mewn sefydliadau ariannol. Ar hyn o bryd nid yw'r Awdurdod yn dal unrhyw eitemau sy'n bodloni'r diffiniad â'r hyn sy'n cyfateb i arian parod megis buddsoddiadau hylifol iawn yn y byrdymor.

2.19 Costau staff

Buddiannau cyflogeion

Mae cyflogau, bonysau, cyfraniadau nawdd cymdeithasol, gwyliau blynyddol, absenoldeb oherwydd salwch, ac amser i ffwrdd yn lle cyflog yn cael eu cronni yn y cyfnod y mae'r gwasanaethau cysylltiedig yn cael eu darparu gan gyflogeion.

Costau buddiannau ymddeol

Gall cyflogeion fod yn aelodau o gynlluniau pensiwn buddiannau diffiniedig fel y'u datgelir yn Nodyn 23.

Y gost gwasanaeth gyfredol yw cost ddisgwyliedig buddianau a gronnwyd yn y flwyddyn yn dilyn y dyddiad prisio. Cyfrifir hyn gan ddefnyddio'r buddiannau disgwyliedig a gronnwyd dros y flwyddyn, ac ystyried y taliadau disgwyliedig sydd i'w gwneud mewn perthynas â'r buddiant hwn. Mae hyn yn ystyried unrhyw gynnydd disgwyliedig mewn cyflogau a phensiynau. Y gost yw'r swm sydd ei angen ar y dyddiad prisio, fel bod modd talu'r taliadau ar ôl derbyn y llog disgwyliedig.

Ar gyfer y cynlluniau buddiannau diffiniedig, pennir cost darparu buddiannau gan ddefnyddio'r dull credyd uned rhagamcanedig, a chynhelir prisiadau actiwaraidd llawn o leiaf bob tair blynedd, gyda diweddariadau i'r prisiadau hyn yn y blynyddoedd rhyngddynt. Cydnabyddir y gost gwasanaeth gyfredol a threuliau gweinyddu'r cynllun fel traul weithredu yn y datganiad incwm cyfunol.

Cydnabyddir cyfran yr Awdurdod o'r enillion a'r colledion actiwaraidd yn llawn yn y cyfnod y maent yn codi. Maent yn cael eu cydnabod y tu allan i'r datganiad incwm a'u cyflwyno yn y datganiad o incwm cynhwysfawr.

Y gost llog net yw'r tâl yn y flwyddyn ar yr ased buddiannau diffiniedig net. Mae'r tâl yn adlewyrchu treigl amser ac fe'i cydnabyddir fel cost cyllido yn y datganiad incwm. Caiff cost gwasanaeth yn y gorffennol a chredydau eu cydnabod ar unwaith yn y datganiad incwm cyfunol.

Y rhwymedigaeth ynglŷn â buddiannau ymddeol a gydnabyddir yn y fantolen yw gwerth presennol y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig ac mae'n cael ei lleihau yn ôl gwerth teg asedau'r cynllun. Bydd unrhyw ased sy'n deillio o'r cyfrifiad hwn wedi'i gyfyngu i gost gwasanaeth yn y gorffennol, ynghyd â gwerth presennol yr ad-daliadau sydd ar gael a gostyngiadau mewn cyfraniadau yn y dyfodol i'r cynllun.

Mae'r Awdurdod yn adlewyrchu ei gyfran o'r gwarged / diffyg yn y datganiadau ariannol. Ceir rhagor o fanylion am y cynlluniau buddiannau ymddeol yn Nodyn 23.

Darperir buddiannau pensiwn i staff cymorth yr Awdurdod a BTP drwy Adran Cost a Rennir yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yng Nghynllun Pensiwn y Rheilffyrdd. Mae buddiannau yn cronni ar gyfradd o 1/60ain o'r cyflog cyfartalog terfynol (llai 1/40ain o bensiwn sylfaenol cyfartalog terfynol y wladwriaeth) am bob blwyddyn o wasanaeth pensiynadwy. Er mai trefniant pensiwn cost a rennir ydyw, mae'r Awdurdod yn dewis cyfrif am asedau a rhwymedigaethau yn llawn. Darperir buddiannau pensiwn i Swyddogion yr Heddlu drwy Gronfa Bensiwn yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig. Cyfeiriwch at yr adran Buddiannau Pensiwn yn yr adroddiad Cydnabyddiaeth am fwy o fanylion.

Roedd gan Gynllun Pensiwn y Rheilffyrdd warged o £53.03 miliwn ac roedd gan Gronfa Bensiwn yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig warged o £223.91 miliwn yn unol â dehongliad IAS 19 (IFRIC 14). Mae IAS 19 yn ei gwneud yn ofynnol i'r prawf terfyn uchaf asedau gael ei gynnal i gyfrifo gwerth presennol unrhyw fuddiannau economaidd sydd ar gael ar ffurf ad-daliadau o'r cynllun neu ostyngiadau mewn cyfraniadau i'r cynllun yn y dyfodol. Mae IFRIC 14 yn nodi y gellir cydnabod hyn os gall yr endid ei wireddu rywbryd yn ystod oes y cynllun neu pan fydd rhwymedigaethau'r cynllun yn cael eu setlo. Yn benodol, gall buddiant economaidd o'r fath fod ar gael hyd yn oed os na chaiff ei wireddu ar unwaith ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Mae'r Awdurdod yn cydnabod y gwarged yn llawn gan y gellir rheoli setliad graddol, h.y. nid oes gan yr ymddiriedolwyr y pwerau unochrog i ddirwyn yr adran i ben.

Darperir buddiannau pensiwn hefyd i staff BTP drwy Royal London. Cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig yw hwn, gyda strwythur cyfraniadau gwahanol i Gynllun Pensiwn y Rheilffyrdd. Cyfrifwyd am hyn o dan IAS 19 Buddiannau Cyflogeion, lle mae

rhwymedigaeth yr endid sy'n adrodd yn cael ei phennu gan y symiau a gyfrannwyd ar gyfer y cyfnod hwnnw. Cydnabyddir hyn fel rhwymedigaeth (Nodyn 15), yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ac fel traul (Nodyn 7), yn y datganiad o incwm cynhwysfawr. Ceir rhagor o fanylion yn Nodyn 24.

2.20 Cronfeydd Wrth Gefn

Mae'r Awdurdod yn gweithredu:

- Mae cronfa ailbrisio wrth gefn yn cynrychioli effaith gronnus ailbrisiadau o eiddo, offer a chyfarpar i fyny/i lawr;
- a chron bensiwn wrth gefn sy'n hafal i'r rhwymedigaeth bensiwn net a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol.
- Cronfa Incwm a Gwariant Wrth Gefn.

Ceir rhagor o fanylion am y symudiadau ar y cronfeydd wrth gefn hyn yn Nodyn 22.

2.21 Cymorth grant a grantiau'r llywodraeth

Cydnabyddir cymorth grant a dderbynnir oddi wrth yr Adran Drafnidiaeth ar sail arian parod drwy'r datganiad o newidiadau yn ecwiti trethdalwyr yn uniongyrchol oherwydd ystyrir ei fod yn gyfraniad gan barti rheoli a chydnabyddir grantiau cyfalaf ar unwaith hefyd oni bai bod y cyllidwr yn gosod amod. Mae'r driniaeth hon yn unol ag IAS 20 fel y'i dehonglir gan y Llawlyfr Adrodd Ariannol.

Cydnabyddir grantiau'r llywodraeth a dderbynnir oddi wrth adrannau eraill y llywodraeth pan fodlonir amodau penodol sy'n ymwneud â'r gweithgareddau gweithredu yn unol ag IAS 20. Ni chydnabyddir y grant nes bod sicrwydd rhesymol y bydd yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r amodau sydd ynghlwm wrtho, ac y bydd y grant yn cael ei dderbyn. Delir y grant fel rhwymedigaeth nes bod yr amodau'n cael eu bodloni, o fewn symiau taladwy eraill yn Nodyn 15. Pan fodlonir yr amodau cânt eu cydnabod fel incwm arall yn Nodyn 6. Ar y dyddiad adrodd, roedd grantiau'r llywodraeth gwerth £1.9 miliwn (£1.4 miliwn yn 2024/25) yn cael eu dal fel rhwymedigaeth gan fod ganddynt amodau heb eu bodloni, y disgwylir iddynt gael eu bodloni yn y flwyddyn nesaf.

3 Barnau cyfrifyddu allweddol

Er bod y prisiad o'r cynllun pensiwn o dan IAS19 wedi'i nodi isod fel ffynhonnell allweddol o ansicrwydd amcangyfrif, mae'r dewis o ragdybiaethau a'r ystyriaeth o amodau economaidd hefyd yn cynnwys lefel o lunio barn. Mae effaith y farn hon yn bwydo i mewn i elfennau perthnasol o'r datganiad o incwm cynhwysfawr a'r datganiad o'r sefyllfa ariannol. Mae'r Awdurdod hefyd wedi nodi IFRIC 14 fel barn gyfrifyddu allweddol. Mae'r gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir yn y prawf terfyn uchaf ased i gyfrifo'r gwarged yn cynnwys lefel o lunio barn. Mae effaith y farn hon yn bwydo i mewn i elfennau perthnasol o'r datganiad o incwm cynhwysfawr a'r datganiad o'r sefyllfa ariannol.

4 Ffynonellau ansicrwydd amcangyfrif

Ffynonellau allweddol o ansicrwydd amcangyfrif

Mae'r cyfrifon yn cynnwys ffigurau amcangyfrifedig sy'n seiliedig ar ragdybiaethau a wnaed gan yr Awdurdod am y dyfodol, neu sydd fel arall yn ansicr. Llunnir amcangyfrifon gan ystyried profiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan na ellir pennu balansau gyda sicrwydd, gallai canlyniadau gwirioneddol fod yn sylweddol wahanol i'r rhagdybiaethau a'r amcangyfrifon.

Mae'r eitemau yn y cyfrifon lle mae risg sylweddol o addasiad perthnasol yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod fel a ganlyn:

- Eiddo, offer a chyfarpar - o ganlyniad i newidiadau mewn rhagdybiaethau ynghylch oes economaidd ddefnyddiol. Byddai unrhyw ostyngiad mewn oes economaidd ddefnyddiol yn lleihau'r asedau ac yn cynyddu gwariant. Gweler rhagor o fanylion yn nhroednodiadau Nodyn 9;
- Rhwymedigaethau pensiwn - o ganlyniad i ragdybiaethau ynglŷn â chyfraddau disgowntio, codiadau cyflog a marwolaethau. Gweler rhagor o fanylion yn Nodyn 23;
- Ased pensiwn - o ganlyniad i brisiad eiddo, ecwiti preifat ac asedau cerbydau buddsoddi cyfunol nad ydynt yn cael eu masnachu ar gyfnewidfa. Gweler rhagor o fanylion ar ddiwedd Nodyn 23 am sensitifrwydd y prisiadau hyn;

5 Dadansoddiad segmentaidd

Mae'r Awdurdod yn gweithredu fel un dosbarth o fusnes, sef plismona'r rheilffyrdd ledled Cymru, Lloegr a'r Alban, ac mae'n ymgymryd â'r dosbarth hwnnw o fusnes mewn un segment daearyddol, sef Prydain Fawr. Mae strwythur BTP yn seiliedig ar dri Rhanbarth. Y tri rhanbarth yw Rhanbarth B (Dwyrain, De Lloegr a Transport for London), Rhanbarth C (Ardal y Penwynion, Canolbarth a De-orllewin Lloegr a Chymru) a Rhanbarth D (Yr Alban). Mae Pencadlys yr Heddlu sydd wedi'i leoli yn Victoria (Camden gynt) yn cadw rheolaeth gyffredinol dros weithgarwch yr Heddlu ac mae'n gartref i adrannau a swyddogaethau canolog. Er bod costau uniongyrchol yn cael eu monitro ar sail ranbarthol, mae cyfran fawr o wariant gorbenion yn cael ei gynhyrchu'n ganolog. Mae'r rhan fwyaf o'r incwm hefyd yn cael ei gynhyrchu a'i fonitro'n ganolog yn hytrach nag ar sail ranbarthol. At hynny, ni chaiff asedau na rhwymedigaethau eu dadansoddi yn y ffordd hon am nad oes adroddiad mewnol arnynt ar sail segmentaidd.

	2025/26 £'000	2024/25 £'000
Rhanbarthau		
Rhanbarth B	95,556	83,748
Rhanbarth C	52,105	47,204
Rhanbarth D	10,922	11,063
Gorbenion sy'n weddill	265,784	273,628
Cyfanswm y gwariant cyn treuliau cyllid	**424,367**	**415,643**

6 Incwm

	2025/26 £'000	2024/25 £'000
Incwm Cytundeb Gwasanaeth yr Heddlu	**298,395**	**281,585**
Incwm arall		
Incwm y Cytundeb â Rheilffordd Danddaearol Llundain	92,309	84,274
Incwm Cytundeb Gwasanaeth Ychwanegol yr Heddlu	17,138	15,741
Cytundebau cyllido llai o faint	1,189	1,899
Incwm arall	8,255	8,229
Cyllid cyfalaf	272	432
Is-gyfanswm	**119,163**	**110,575**
Cyfanswm	**417,558**	**392,160**

Mae'r Awdurdod yn gweithredu nifer o ffrydiau incwm gweithredu. Eir i'r symiau a ddatgelir uchod wrth i rwymedigaethau perfformiad gael eu cyflawni. Gellir categoreiddio'r ffrydiau incwm fel a ganlyn:

6.1 Cytundeb Gwasanaeth yr Heddlu

O dan Ddeddf Diogelwch Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003, mae'r Awdurdod yn ymrwymo i Gytundeb Diogelwch y Cyhoedd â'i gwsmeriaid er mwyn darparu gwasanaeth plismona fel y'i pennir yn y cytundeb. Wrth bennu cyfraniad y cwsmeriaid, mae'r Awdurdod yn anelu at sicrhau bod ei gostau blynyddol llawn yn cael eu talu ac mae'n defnyddio dull codi tâl a ragnodwyd sy'n gyson â'r Ddeddf ac yn unol â Chytundeb Diogelwch y Cyhoedd y cwsmer. Fel arfer, cyfeirir at y cwsmer fel deiliad Cytundeb Diogelwch y Cyhoedd.

6.2 Cytundebau Gwasanaeth Ychwanegol yr Heddlu

Cyfeirir at unrhyw wasanaethau ychwanegol y tu hwnt i gytundeb y deiliad fel Cytundeb Gwasanaeth Ychwanegol yr Heddlu. Codir tâl am gostau llawn y gwasanaeth ychwanegol yn unol â chytundeb penodol y cwsmer.

6.3 Y Cytundeb â Rheilffordd Danddaearol Llundain

Cyfrifir incwm y Cytundeb â Rheilffordd Danddaearol Llundain ar wahân i'r Model Codi Tâl ar gyfer cytundebau diogelwch y cyhoedd Mae BTP yn negodi gofynion plismona â Rheilffordd Danddaearol Llundain a chodir tâl am eu costau llawn.t.

6.4 Incwm arall

Mae nifer o gytundebau contract llai o faint ag adrannau eraill y llywodraeth a chyrff allanol. Mae'r incwm a dderbynnir oddi wrth gwsmeriaid o'r fath yn cyllido mentrau penodol sy'n ymwneud yn fras ag atal troseddau a diogelu cymdeithas yn fwy cyffredinol ar seilwaith y rheilffyrdd. Mae'r cyllid hwnnw a dderbynnir oddi wrth sefydliadau'r llywodraeth a chwmnïau trenau yn cael ei ddosbarthu'n "incwm arall". O fewn y ffigur hwn mae incwm a dderbynnir o Gynllun Cymell Adennill Asedau (ARIS) y Swyddfa Gartref sy'n dosbarthu cyfran o enillion troseddau a adenillwyd o dan y Ddeddf Enillion Troseddau i BTP mewn achosion os mai'r Heddlu oedd yn awdurdod ymchwilio. Cydnabyddir y cyllid hwn, yn unol ag IFRS15, wrth i rwymedigaethau perfformiad gael eu cyflawni. Caiff arian a dderbynnir oddi wrth sefydliadau y tu allan i'r llywodraeth ei ddosbarthu'n "gytundebau cyllido llai o faint". Caiff arian a dderbynnir oddi wrth adrannau'r llywodraeth at ddiben cyllido prosiectau cyfalaf ei ddosbarthu'n "gyllid cyfalaf".

7 Nifer y staff a chostau cysylltiedig

Gweler yr adroddiad Cydnabyddiaeth am niferoedd staff a chostau cysylltiedig.

	2025/26			2024/25
	Staff a gyflogir yn barhaol £'000	Aelodau eraill o staff £'000	Cyfanswm £'000	Cyfanswm £'000
Mae cyfanswm costau staff yn cynnwys:				
Cyflogau	260,966	792	261,758	249,230
Costau nawdd cymdeithasol	31,728	-	31,728	24,685
Costau pensiwn eraill*	32,680	-	32,680	46,867
Is-gyfanswm	**325,374**	**792**	**326,166**	**320,782**
Llai symiau a adenillwyd mewn perthynas â secondiadau i'r tu allan	(339)	-	(339)	(541)
Cyfanswm costau net	**325,035**	**792**	**325,827**	**320,241**

* Mae costau pensiwn eraill wedi lleihau o ganlyniad i gost gwasanaeth cyfredol pensiwn IAS19 a'r cyfraniadau drwy addasiad cyflogwyr, sy'n werth £2.52m (£15.90m yn 2024/25). Mae gweddill y costau pensiwn yn cynnwys cyfraniadau a thaliadau diffyg y cynllun pensiwn o £30.16m (£30.97m yn 2024/25).

8 Gwariant arall

Caiff y diffyg ar weithgareddau cyffredin cyn llog ei ddatgan ar ôl codi am y canlynol:

	Nodyn	2025/26 £'000	2024/25 £'000
Costau sy'n gysylltiedig â staff		4,726	4,000
Cyfathrebu a chyfrifiaduron		23,847	21,613
Treuliau gweithredol		3,137	3,352
Treuliau gweinyddol		2,537	2,337
Gwasanaethau proffesiynol		2,210	3,044
Cyfreithiol ac Yswiriant		4,311	3,202
Cyfarpar a brynwyd		4,873	3,001
Rhenti o dan lesoedd gweithredu		3,487	4,637
Eiddo (heb gynnwys rhenti o dan lesoedd gweithredu)		17,745	16,168
Costau cludiant		8,173	8,306
Arall		369	1,809
Gwariant arall		**75,415**	**71,469**
Dibrisio eiddo, offer a chyfarpar	9	17,372	18,512
Dibrisio asedau hawl-i-ddefnyddio	9	5,104	4,776
Amorteiddio asedau anniriaethol	10	649	645
Dibrisio ac amorteiddio		**23,125**	**23,933**
Traul cyllid		**2,179**	**527**
Cyfanswm		**100,719**	**95,929**

Yn ystod y flwyddyn ni phrynodd yr Awdurdod unrhyw wasanaethau nad oeddent yn wasanaethau archwilio oddi wrth ei archwilydd, sef y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Mae "Gwasanaethau proffesiynol" yn cynnwys ffi archwilio o £180k am gydnabyddiaeth yr archwilydd am waith archwilio sy'n gysylltiedig â 2025/26 (2024/25: £172k).

9 Eiddo, offer a chyfarpar

	Gwelliannau lesddaliadol £'000	Offer a pheiriannau £'000	Cerbydau Modur £'000	Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu – Cerbydau modur £'000	Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu – Arall	Asedau Hawl-i-Ddefnyddio £'000	Gosodiadau a ffitiadau £'000	Offer TG £'000	Cyfanswm £'000
Cost									
Ar 1 Ebrill 2025	**57,931**	**19,999**	**25,024**	**6,019**	**10,174**	**76,320**	**4,176**	**78,101**	**277,744**
Ychwanegiadau *	1,517	1,687	1,823	2,584	2,819	1,107	14	4,485	16,036
Newidiadau mewn rhagdybiaethau**	-	-	-	-	-	2,543	-	-	2,543
Gwarediadau	(1,480)	(126)	(3,987)	-	-	(492)	(183)	(3,492)	(9,760)
Datgydnabod	-	-	-	(370)	(368)	-	-	-	(738)
Ailbrisiadau ***	1,376	64	470	-	-	-	8	764	2,682
Ailddosbarthiadau	9,181	89	5,524	(5,524)	(9,679)	-	-	409	-
Ar 31 Mawrth 2026	**68,525**	**21,713**	**28,854**	**2,709**	**2,946**	**79,478**	**4,015**	**80,267**	**288,507**
Dibrisiant									
Ar 1 Ebrill 2025	**34,148**	**18,471**	**14,223**	**-**	**-**	**22,936**	**3,923**	**61,851**	**155,552**
Codwyd yn ystod y flwyddyn	4,596	537	4,217	-	-	5,104	178	7,844	22,476
Gwarediadau	(1,368)	(107)	(3,840)	-	-	(396)	(183)	(3,463)	(9,357)
Datgydnabod	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Ailbrisiadau	591	105	303	-	-	-	27	994	2,020
Ailddosbarthiadau	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Ar 31 Mawrth 2026	**37,967**	**19,006**	**14,903**	**-**	**-**	**27,644**	**3,945**	**67,226**	**170,691**
Swm cario ar 31 Mawrth 2026	**30,558**	**2,707**	**13,951**	**2,709**	**2,946**	**51,834**	**70**	**13,041**	**117,816**

Ac eithrio asedau hawl-i-ddefnyddio sy'n adlewyrchu'r buddiannau sy'n deillio o dan lesoedd a ddelir gan yr Awdurdod, mae'r holl asedau yn eiddo i'r Awdurdod.

* Mae ychwanegiadau Asedau Hawl-i-Ddefnyddio o £1.1m yn cynnwys ychwanegiadau sy'n ymwneud â lesoedd newydd ar gyfer Cwrt Edinburgh Waverley (£0.5m) a Thŷ Frobisher Southampton (£0.6m).

** Ar gyfer asedau Hawl-i-Ddefnyddio yn unig. Dylai ychwanegiadau gynrychioli lesoedd newydd yn unig, felly, mae'r newidiadau mewn rhagdybiaethau yn dangos y lesoedd hynny sydd wedi'u hadnewyddu, wedi'u dal drosodd, codiadau rhent, costau cyfalaf ychwanegol ac addasiadau. Yn 2025/26, roedd newidiadau mewn rhagdybiaethau gwerth £2.5m yn ymwneud ag addasiadau i lesoedd ac addasiadau oherwydd dadfeilio, a'r mwyaf sylweddol o'r rhain oedd cynnydd rhent o £1.2m ar les Brewery Road.

*** Mae ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar yn seiliedig ar ddata cyhoeddedig y Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Cynhaliodd yr Awdurdod ddadansoddiad sensitifrwydd a asesodd effaith newid o 1% yng nghanran y Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Pe bai canran y Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn cynyddu 1%, byddai gwerth teg eiddo, offer a chyfarpar a adroddwyd yn cynyddu £0.9m. Byddai gostyngiad o £0.9m hefyd yng ngwerth teg eiddo, offer a chyfarpar a adroddwyd pe bai canran y Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn gostwng 1%.

	Gwelliannau lesddaliadol £'000	Offer a pheiriannau £'000	Cerbydau Modur £'000	Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu – Cerbydau modur £'000	Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu – Arall £'000	Asedau Hawl-i-Ddefnyddio £'000	Gosodiadau a ffitiadau £'000	Offer TG £'000	Cyfanswm £'000
Cost									
Ar 1 Ebrill 2024	**63,178**	**19,789**	**22,006**	**4,550**	**6,309**	**54,315**	**4,221**	**73,963**	**248,331**
Ychwanegiadau *	1,380	521	1,517	5,600	10,066	18,513	6	3,976	41,579
Newidiadau mewn rhagdybiaethau**	-	-	-	-	-	15,195	-	-	15,195
Gwarediadau	(12,592)	(422)	(3,115)	-	-	(11,703)	(103)	(2,869)	(30,804)
Datgydnabod	-	-	-	-	(159)	-	-	-	(159)
Ailbrisiadau ***	1,623	87	486	-	-	-	37	1,369	3,602
Ailddosbarthiadau	4,342	24	4,130	(4,131)	(6,042)	-	15	1,662	-
Ar 31 Mawrth 2025	**57,931**	**19,999**	**25,024**	**6,019**	**10,174**	**76,320**	**4,176**	**78,101**	**277,744**
Dibrisiant									
Ar 1 Ebrill 2024	**39,812**	**18,122**	**13,251**	**-**	**-**	**29,469**	**3,781**	**54,253**	**158,688**
Codwyd yn ystod y flwyddyn	4,734	624	3,530	-	-	4,776	208	9,416	23,288
Gwarediadau	(11,224)	(399)	(2,873)	-	-	(11,309)	(97)	(2,780)	(28,682)
Datgydnabod	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Ailbrisiadau	826	124	315	-	-	-	31	962	2,258
Ailddosbarthiadau	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Ar 31 Mawrth 2025	**34,148**	**18,471**	**14,223**	**-**	**-**	**22,936**	**3,923**	**61,851**	**155,552**
Swm cario ar 31 Mawrth 2025	**23,783**	**1,528**	**10,801**	**6,019**	**10,174**	**53,384**	**253**	**16,250**	**122,192**

Ac eithrio asedau hawl-i-ddefnyddio sy'n adlewyrchu'r buddiannau sy'n deillio o dan lesoedd a ddelir gan yr Awdurdod, mae'r holl asedau yn eiddo i'r Awdurdod.

* Mae'r ychwanegiadau o £18.5m yn cynnwys ychwanegiad sy'n ymwneud â 200 Buckingham Palace Road sy'n gwneud cyfanswm o £16.3m. Mae'r gwarediadau o £11.7m yn cynnwys £11.1m sy'n ymwneud â gwaredu Pencadlys yr Heddlu yn Camden yr oedd cyfnod ei les wedi dod i ben yn ystod y flwyddyn. Mae'r gwerth gwaredu hwn yn cael ei wrthbwyso gan y gwarediadau dibrisiant.

** Ar gyfer asedau Hawl-i-Ddefnyddio yn unig. Dylai ychwanegiadau gynrychioli lesoedd newydd yn unig, felly, mae'r newidiadau mewn rhagdybiaethau yn dangos y lesoedd hynny sydd wedi'u hadnewyddu, wedi'u dal drosodd, codiadau rhent, costau cyfalaf ychwanegol ac addasiadau. Yn 2024/25, roedd newidiadau mewn rhagdybiaethau gwerth £15.2m yn ymwneud ag adnewyddu lesoedd/dal lesoedd drosodd gwerth 15m a chodiadau rhent o £0.2m. Y lesoedd mwyaf a adnewyddwyd oedd Blundell Street £12.4m a Baches Street £2.5m.

*** Mae ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar yn seiliedig ar ddata cyhoeddedig y Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Cynhaliodd yr Awdurdod ddadansoddiad sensitifrwydd a asesodd effaith newid o 1% yng nghanran y Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Pe bai canran y Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn cynyddu 1%, byddai gwerth teg eiddo, offer a chyfarpar a adroddwyd yn cynyddu £1.0m. Byddai gostyngiad o £1.0m hefyd yng ngwerth teg eiddo, offer a chyfarpar a adroddwyd pe bai canran y Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn gostwng 1%.

10 Asedau anniriaethol

Mae asedau anniriaethol yn cynnwys meddalwedd, trwyddedau meddalwedd, prosiect y rhwydwaith ardal eang a gwariant ar ddatblygu gwefannau.

	Trwyddedau £'000	Meddalwedd £'000	Rhwydwaith ardal eang £'000	Gwefannau £'000	Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu £'000	Cyfanswm £'000
Cost						
Ar 1 Ebrill 2025	**7,773**	**15,231**	**3,393**	**274**	**2**	**26,673**
Ychwanegiadau	-	-	-	-	1,384	**1,384**
Datgydnabod	(127)	(18)	(1)	-	-	**(146)**
Ailbrisiadau *	-	-	-	-	-	**-**
Ar 31 Mawrth 2026	**7,646**	**15,213**	**3,392**	**274**	**1,386**	**27,911**
Amorteiddio						
Ar 1 Ebrill 2025	**7,381**	**14,368**	**3,391**	**274**	**-**	**25,414**
Codwyd yn ystod y flwyddyn	210	439	-	-	-	**649**
Datgydnabod	(127)	(18)	(1)	-	-	**(146)**
Ailbrisiadau	-	-	-	-	-	**-**
Ar 31 Mawrth 2026	**7,464**	**14,789**	**3,390**	**274**	**-**	**25,917**
Swm cario ar 31 Mawrth 2026	**182**	**424**	**2**	**-**	**1,386**	**1,994**

Ac eithrio asedau hawl-i-ddefnyddio sy'n adlewyrchu'r buddiannau sy'n deillio o dan lesoedd a ddelir gan yr Awdurdod, mae'r holl asedau yn eiddo i'r Awdurdod.

* Yn dilyn newidiadau Trysorlys EF i fethodolegau prisio a oedd yn weithredol o 1 Ebrill 2025, cydnabyddir asedau anniriaethol ar gost dybiedig ac ni chânt eu hailbrisio wedi hynny.

	Trwyddedau £'000	Meddalwedd £'000	Rhwydwaith ardal eang £'000	Gwefannau £'000	Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu £'000	Cyfanswm £'000
Cost						
Ar 1 Ebrill 2024	**8,069**	**15,104**	**4,251**	**348**	**103**	**27,875**
Ychwanegiadau	3	196	-	-	-	199
Datgydnabod	(384)	(193)	(858)	(74)	(6)	(1,515)
Ailbrisiadau *	44	70	-	-	-	114
Ailddosbarthiadau	41	54	-	-	(95)	-
Ar 31 Mawrth 2025	**7,773**	**15,231**	**3,393**	**274**	**2**	**26,673**
Amorteiddio						
Ar 1 Ebrill 2024	**7,522**	**14,159**	**4,250**	**348**	**-**	**26,279**
Codwyd yn ystod y flwyddyn	243	402	-	-	-	645
Datgydnabod	(384)	(193)	(859)	(74)	-	(1,510)
Ailbrisiadau	-	-	-	-	-	-
Ailddosbarthiadau	-	-	-	-	-	-
Ar 31 Mawrth 2025	**7,381**	**14,368**	**3,391**	**274**	**-**	**25,414**
Swm cario ar 31 Mawrth 2025	**392**	**863**	**2**	**-**	**2**	**1,259**

Ac eithrio asedau hawl-i-ddefnyddio sy'n adlewyrchu'r buddiannau sy'n deillio o dan lesoedd a ddelir gan yr Awdurdod, mae'r holl asedau yn eiddo i'r Awdurdod.

* Mae ailbrisio Asedau Anniriaethol yn seiliedig ar ddata cyhoeddedig y Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Cynhaliodd yr Awdurdod ddadansoddiad sensitifrwydd a asesodd effaith newid o 1% yng nghanran y Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Pe bai canran y Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn cynyddu 1%, byddai gwerth teg yr Asedau Anniriaethol a adroddwyd yn cynyddu £31k. Byddai gostyngiad o £31k hefyd yng ngwerth teg Asedau Anniriaethol a adroddwyd pe bai canran y Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn gostwng 1%.

11 Offerynnau ariannol

Mae gan yr Awdurdod ddarpariaethau cytundebol i dderbyn taliadau arian parod yn gyfnewid am ddarparu gwasanaeth plismona ac am adennill cost lawn gwariant. Mae'r gwahanol ffrydiau incwm yn ymwneud â chytundebau a gwmpesir gan Gytundeb Diogelwch y Cyhoedd, Cytundeb Gwasanaeth Ychwanegol yr Heddlu, Trafnidiaeth Llundain (cyllid oddi wrth Reilffordd Danddaearol Llundain), Network Rail, cyllid oddi wrth Gontractwyr Gweithredu Trafnidiaeth eraill, cyllid incwm penodol oddi wrth y Swyddfa Gartref a'r Cynllun Cymell Adennill Asedau (ARIS).

Oherwydd natur anfasnachol ei weithgareddau i raddau helaeth a'r ffordd y mae'r Awdurdod yn cael ei ariannu, nid yw'r Awdurdod yn agored i risg ariannol i'r un graddau ag endidau eraill. Mae gan yr Awdurdod bwerau cyfyngedig i fenthyca neu fuddsoddi arian dros ben. Mae asedau a rhwymedigaethau ariannol yn deillio o weithgareddau gweithredol o ddydd i ddydd ac nid ystyrir eu bod yn newid y risgiau y mae'r Awdurdod yn eu hwynebu wrth ymgymryd â'i weithgareddau.

Hylifedd a risg credyd

Mae incwm net a gofynion adnoddau cyfalaf yr Awdurdod yn cael eu hariannu drwy adnoddau gan ddeiliaid Cytundeb Diogelwch y Cyhoedd, a chyrff eraill y Llywodraeth. Felly nid yw'r Awdurdod yn agored i risgiau hylifedd sylweddol. Ni chynyddodd y risg credyd yn sylweddol yn sgil y trallod ariannol ar y cwmnïau trên o ganlyniad i COVID-19 oherwydd cytundebau mesurau brys a oedd ar waith a drosglwyddodd risg cost a refeniw i'r rhan fwyaf o'r cwmnïau i'r Adran Drafnidiaeth. Nid oedd gan yr Awdurdod unrhyw offerynnau ariannol hirdymor yn ystod y flwyddyn.

Risg cyfradd llog

Mae holl asedau ariannol yr Awdurdod a'i holl rwymedigaethau ariannol yn dwyn cyfraddau llog o ddim neu gyfraddau llog sefydlog. Felly nid yw'r Awdurdod yn agored i risg sylweddol o ran cyfraddau llog.

Risg arian cyfred tramor

Nid yw amlygiad yr Awdurdod i risg arian cyfred tramor yn sylweddol. Mae incwm a gwariant arian cyfred tramor yn ddibwys.

Gwerthoedd teg

Nodir isod gymhariaeth yn ôl categori o werthoedd llyfr a gwerthoedd teg asedau a rhwymedigaethau ariannol yr Awdurdod.

Prif offerynnau ariannol:	2025/26		2024/25	
	Gwerth llyfr £'000	Gwerth teg £'000	Gwerth llyfr £'000	Gwerth teg £'000
Asedau ariannol:				
Arian parod yn y banc	50,951	50,951	50,273	50,273
Symiau masnach derbyniadwy	835	835	3,296	3,296
Cyfanswm	**51,786**	**51,786**	**53,569**	**53,569**
Rhwymedigaethau ariannol:				
TAW sy'n daladwy	846	846	1,301	1,301
Trethiant a symiau nawdd cymdeithasol taladwy eraill	17,536	17,536	15,170	15,170
Symiau masnach taladwy	3,328	3,328	2,224	2,224
Cyfanswm	**21,710**	**21,710**	**18,695**	**18,695**

12 Stocrestrau

	2025/26 £'000	2024/25 £'000
Lifrai ac eitemau cysylltiedig		
Balans agoriadol	324	57
Ychwanegiadau	59	585
Defnyddiau	(233)	(305)
Darpariaeth	-	-
Addasiad	(77)	(13)
Balans terfynol	**73**	**324**

13 Symiau masnach derbyniadwy ac asedau eraill

	2025/26 £'000	2024/25 £'000
Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:		
Symiau masnach derbyniadwy - contractau â chwsmeriaid	835	3,296
Symiau derbyniadwy eraill	1,181	1,102
Rhagdaliadau ac incwm cronedig	13,712	10,908
Llai: Amhariad ar symiau derbyniadwy gan ddefnyddio model colled ddisgwyliedig*	(76)	(75)
Cyfanswm	**15,652**	**15,231**
Symiau yn y ffigurau uchod sy'n ddyledus gan endidau eraill sydd wedi'u cynnwys yng nghyfrif y llywodraeth gyfan:		
Cyrff eraill llywodraeth ganolog	1,681	2,180
Awdurdodau lleol	745	1,802
Corfforaethau cyhoeddus ac arian masnachu	121	-
Dyledwyr o fewn y llywodraeth	**2,547**	**3,982**
Cyrff allanol i'r llywodraeth	13,105	11,249
Cyfanswm	**15,652**	**15,231**

* Gwnaed darpariaethau o £24k yn 2021/22 a £51k yn 2024/25 yn erbyn elfen o ddyled lle mae amheuaeth a gaiff ei hadennill.

Symiau derbyniadwy hirdymor

	2025/26 £'000	2024/25 £'000
Rhagdaliadau ac incwm cronedig – symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn	6	6

14 Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo

	2025/26 £'000	2024/25 £'000
Balans ar 01 Ebrill	**50,273**	**50,435**
Newid net mewn balansau arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddynt	678	(162)
Balans ar 31 Mawrth	**50,951**	**50,273**
Daliwyd y balansau canlynol ar 31 Mawrth yn y canlynol:		
Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth	103	103
Banciau masnachol ac arian parod mewn llaw	50,848	50,170
Balans ar 31 Mawrth	**50,951**	**50,273**

15 Symiau masnach taladwy a rhwymedigaethau eraill

	2025/26 £'000	2024/25 £'000
Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:		
TAW sy'n daladwy	846	1,301
Trethiant a symiau nawdd cymdeithasol taladwy eraill	17,536	15,170
Symiau masnach taladwy	3,328	2,224
Symiau taladwy eraill	16,816	16,355
Rhwymedigaethau les IFRS 16	4,010	3,722
Croniadau	29,603	32,770
Incwm gohiriedig – contractau â chwsmeriaid	1,900	2,116
Cyfanswm	**74,039**	**73,658**
Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn:		
Rhwymedigaethau les IFRS 16*	49,410	50,076
Cyfanswm	**123,449**	**123,734**
Symiau yn y ffigurau uchod sy'n ddyledus i endidau eraill sydd wedi'u cynnwys yng nghyfrif y llywodraeth gyfan		
Cyrff eraill llywodraeth ganolog	14,764	13,248
Awdurdodau lleol	21,059	14,735
Cyrff y GIG	35	68
Corfforaethau cyhoeddus ac arian masnachu	115	-
Symiau taladwy a rhwymedigaethau o fewn y llywodraeth	**35,973**	**28,051**
Cyrff allanol i'r llywodraeth	87,476	95,683
Cyfanswm	**123,449**	**123,734**

16 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau a godir

Y swm a gydnabyddir fel darpariaeth yw'r amcangyfrif gorau o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth bresennol ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r darpariaethau hyn wedi'u dosbarthu'n rhai cyfredol gan y disgwylir iddynt gael eu gwireddu yn y flwyddyn ariannol nesaf.

	Hawliadau yn erbyn yr Awdurdod £'000	Tribiwnlysoedd cyflogaeth £'000	Dadfeiliadau £'000	Darpariaethau eraill £'000	Cyfanswm £'000
Balans ar 1 Ebrill 2024	**1,855**	**234**	**3,177**	**2,788**	**8,054**
Wedi'i ddarparu yn y flwyddyn	2,873	644	330	2,625	6,472
Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn	(753)	(490)	(1,019)	(1,606)	(3,868)
Darpariaethau a adferwyd yn y flwyddyn	(1,174)	(99)	(529)	(536)	(2,338)
Balans ar 31 Mawrth 2025	**2,801**	**289**	**1,959**	**3,271**	**8,320**
Wedi'i ddarparu yn y flwyddyn	3,050	538	1,030	4,542	9,160
Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn	(1,080)	(221)	(70)	(2,026)	(3,397)
Darpariaethau a adferwyd yn ystod y flwyddyn	(1,908)	(98)	(69)	(1,695)	(3,770)
Balans ar 31 Mawrth 2026	**2,863**	**508**	**2,850**	**4,092**	**10,313**

Hawliadau yn erbyn yr Awdurdod

Mae'r ddarpariaeth hon yn gymwys i hawliadau a wneir gan gyflogeion yr Awdurdod ac aelodau'r cyhoedd, a achoswyd yn ôl yr honiad gan esgeulustod yr Awdurdod ac a arweiniodd at anaf, colled neu ddifrod. Crëir y ddarpariaeth yn seiliedig ar wybodaeth a ddarperir yn rheolaidd gan staff mewnol proffesiynol a chyfreithwyr ac mae'n gost amcangyfrifedig setliad gan gynnwys costau cyfreithiol ar gyfer rhwymedigaethau sy'n weddill. Gallai'r tebygolrwydd o all-lif adnoddau newid yn seiliedig ar y mewnbynnau hyn gan arwain at ddarpariaeth gynyddol neu, mewn rhai achosion, at adferiad llawn. Byddai adfer yr achos mwyaf a ddarparwyd ar ei gyfer yn y flwyddyn gyfredol o fewn y categori hwn yn arwain at ostyngiad o £0.1 miliwn yn y ddarpariaeth (£0.1 miliwn yn 2024/25).

Tribiwnlysoedd cyflogaeth

Sefydlir y ddarpariaeth hon ar sail achos unigol ar y cyd â chynghorwyr cyfreithiol allanol, sy'n ymwneud ag anghydfodau cyflogaeth, megis diswyddo annheg a gwahaniaethu. Mae'r ddarpariaeth yn cwmpasu costau amcangyfrifedig unrhyw setliad ac unrhyw dreuliau cyfreithiol. Wrth i'r achosion fynd rhagddynt, bydd y tebygolrwydd o all-lif adnoddau yn newid. Pe bai pob all-lif disgwyliedig ar gyfer achosion byw newydd ar gyfer y flwyddyn ariannol yn cynyddu 10%, byddai'r ddarpariaeth yn cynyddu £0.03 miliwn (£0.02 miliwn yn 2024/25).

Dadfeiliadau

Mae'r ddarpariaeth hon yn darparu ar gyfer setlo costau dadfeilio eiddo lesddaliadol. Mae mewnbynnau ar gyfer y cyfrifiad yn cynnwys hyd y les, gwaith a wnaed ar yr eiddo, bwriad y landlord a thelerau'r les.

Byddai cynnydd o 10% yn yr amcangyfrif o ddadfeiliad ar gyfer pob eiddo yn cynyddu'r ddarpariaeth £1.2 miliwn (£1.0 miliwn yn 2024/25).

Darpariaethau eraill

Mae hyn yn ymwneud â phob darpariaeth arall ac mae'n cynnwys costau sy'n ymwneud ag adolygiadau rhent a diswyddiadau yn bennaf. Mae amrywiaeth o farnau a mewnbynnau yn gysylltiedig â chyfrifo'r darpariaethau hyn. Er mwyn dangos sensitifrwydd; pe bai'r gwerthoedd cynnydd rhent amcangyfrifedig 10% yn uwch, byddai angen cynyddu'r ddarpariaeth adolygu rhent £0.01 miliwn (£0.05 miliwn yn 2024/25).

17 Rhwymedigaethau Dibynnol

Mae rhwymedigaeth ddibynnol yn bodoli ynghylch rhwymedigaeth BTPA yn sgil adolygiad yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o'r digwyddiad yn Arena Manceinion. Bydd y cwmni yswiriant yn talu am y rhwymedigaeth ac mae'r swm didynadwy wedi'i dalu.

Mae rhwymedi wedi'i weithredu ar 1 Ebrill 2022 yn sgil dyfarniad y Llys Apêl bod y diogelwch trosiannol a gafodd ei gymhwyso at gynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus yn wahaniaethol. Bydd heddluoedd y Swyddfa Gartref yn cynnwys pob swyddog yn raddol yng nghynllun 2015 a bydd swyddogion â buddiannau CARE cyn 1 Ebrill 2022 yn cael eu dangos fel rhai sydd wedi symud yn ôl i gynlluniau etifeddol. Bydd y rhwymedi hwn yn effeithio ar rai a drosglwyddodd o heddluoedd y Swyddfa Gartref i BTP. O ganlyniad, efallai y bydd angen costau wedi'u hôl-ddyddio ychwanegol i adlewyrchu'r rhwymedi hwn. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw benderfyniad wedi'i wneud ynghylch cyfrifo rhwymedi ac nid oes unrhyw ddewisiadau wedi'u gwneud gan yr unigolion yr effeithir arnynt, ond mae amcangyfrif sy'n seiliedig ar nifer y cyflogeion presennol yr effeithir arnynt yn tybio cost o £0.43 miliwn

Mae'r Awdurdod yn cydnabod hawliadau posibl yn y dyfodol sy'n ymwneud ag achos cyfreithiol hanesyddol. Amcangyfrifwyd uchafswm cost o £5.47 miliwn ar gyfer costau ac iawndal pellach.

Mae'r sefydliad yn parhau i fonitro effaith dyfarniad ynglŷn â'r Rhingyll Lino Di Maria yn erbyn Comisiynydd yr Heddlu Metropolitanaidd. Ar ddyddiad llofnodi'r Datganiadau Ariannol nid yw'r meini prawf ar gyfer cydnabod darpariaeth ariannol wedi'u bodloni eto.

18 Ymrwymiadau cyfalaf

Ar 31 Mawrth 2026 roedd gan yr Awdurdod yr ymrwymiadau cyfalaf canlynol:

	2025/26 £'000	2024/25 £'000
Ystadau	-	18
Technoleg	2	150
Y fflyd	5,212	2,472
Arall	1,165	4
Cyfanswm yr ymrwymiadau cyfalaf	**6,379**	**2,644**

19 Ymrwymiadau o dan lesoedd

Rhoddir cyfanswm y taliadau les gofynnol yn y dyfodol o dan lesoedd byrdymor yn y tabl isod ar gyfer pob un o'r cyfnodau canlynol*:

Lesoedd byrdymor nad ydynt yn cael eu cydnabod o dan IFRS 16:	2025/26 £'000	2024/25 £'000
Adeiladau:		
Heb fod yn hwyrach na blwyddyn	2,267	1,482
Yn hwyrach na blwyddyn a heb fod yn hwyrach na phum mlynedd	5,367	4,654
Yn hwyrach na phum mlynedd	5,296	6,152
Cyfanswm y lesoedd byrdymor	**12,930**	**12,288**

* Ystyrir bod y lesoedd hyn yn rhai byrdymor ar y sail nad yw'r contractau yn orfodadwy mwyach gan fod gan yr Awdurdod a'r lesydd yr hawl i derfynu'r contract gyda chyfnod rhybudd o 12 mis neu lai.

Rhoddir cyfanswm y taliadau les gofynnol yn y dyfodol o dan lesoedd hawl-i-ddefnyddio yn y tabl isod ar gyfer pob un o'r cyfnodau canlynol:

Mae rhwymedigaeth les IFRS 16 ar gyfer y cyfnodau canlynol yn cynnwys:	2025/26 £'000	2024/25 £'000
Adeiladau:		
Heb fod yn hwyrach na blwyddyn	4,010	3,722
Yn hwyrach na blwyddyn a heb fod yn hwyrach na phum mlynedd	13,748	13,403
Yn hwyrach na phum mlynedd	35,662	36,673
Cyfanswm rhwymedigaethau les IFRS 16	**53,420**	**53,798**

Mae'r tabl canlynol yn cysoni rhwng sefyllfa agoriadol a therfynol rhwymedigaethau les IFRS 16:*

	2025/26 £'000	2024/25 £'000
Rhwymedigaeth les IFRS 16 agoriadol	**53,798**	**26,555**
Ychwanegiadau rhwymedigaeth les	3,476	32,070
Gwarediadau rhwymedigaethau les	(81)	(438)
Ad-daliadau les	(5,952)	(4,916)
Tâl cyllid	2,179	527
Rhwymedigaeth les IFRS 16 derfynol	**53,420**	**53,798**

* Mae rhwymedigaethau les IFRS 16 wedi lleihau £0.4m ers y flwyddyn ddiwethaf a hynny am fod ad-daliadau les o £6m a gwarediadau les o £0.1m wedi'u gwrthbwyso gan ychwanegiadau les o £3.5m a chostau cyllid o £2.2m. Yr ychwanegiad les mwyaf yn ystod y flwyddyn oedd cynnydd rhent o £1.2m ar gyfer Brewery Road.

20 Ymrwymiadau ariannol eraill

Nodir isod fanylion ymrwymiadau ariannol eraill a chontractau na ellir eu canslo y mae'r Awdurdod wedi ymrwymo iddynt:

Mae contractau na ellir eu canslo ar gyfer y cyfnodau canlynol yn cynnwys:	2025/26 £'000	2024/25 £'000
Heb fod yn hwyrach na blwyddyn	11,393	13,321
Yn hwyrach na blwyddyn a heb fod yn hwyrach na phum mlynedd	18,445	18,588
Yn hwyrach na phum mlynedd	-	-
Cyfanswm yr ymrwymiadau ariannol	**29,838**	**31,909**

O dan gyfanswm yr Ymrwymiadau Ariannol uchod, mae contract gwerth £22.8m â Total Facilities Management (TFM) sy'n darparu gwasanaethau rheoli cyfleusterau gan gynnwys gwaith cynnal a chadw wedi'i gynllunio ac adweithiol, cydymffurfiaeth statudol, glanhau a gwasanaethau gwastraff ar gyfer ystad gyfan BTP.

21 Trafodiadau â phartïon cysylltiedig

Mae'r Awdurdod yn gorff cyhoeddus anadrannol o dan yr Adran Drafnidiaeth. Mae'r Adran Drafnidiaeth yn cael ei hystyried yn barti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn mae'r Awdurdod wedi ymgymryd â'r trafodiadau* perthnasol canlynol â'r Adran, ac ag endidau eraill yr ystyrir bod yr Adran yn rhiant-Adran arnynt:

Anfonebwyd yr Awdurdod am £109k gan yr Adran Drafnidiaeth yn 2025/26 (£dim yn 2024/25) ac nid oedd unrhyw symiau yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn (£dim yn 2024/25). Anfonebwyd yr Adran Drafnidiaeth am £49k gan yr Awdurdod yn 2025/26 (£dim yn 2024/25) ac nid oedd unrhyw symiau yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn (£dim yn 2024/25). Cafodd yr Awdurdod £382k o gyllid cymorth grant hefyd (£dim yn 2024/25) gan yr Adran Drafnidiaeth yn 2025/26, y cyfrifwyd amdano yn y cronfeydd wrth gefn ac a oedd yn gysylltiedig â gwaith Ymgyrch Navette a Strydoedd Diogelach.

Hefyd, mae'r Awdurdod wedi ymgymryd â nifer o drafodiadau ag adrannau eraill y llywodraeth a chyrff eraill llywodraeth ganolog. Bu'r rhan fwyaf o'r trafodiadau hyn â Network Rail; Mae'r Adran Drafnidiaeth yn barti rheoli ar yr Awdurdod a Network Rail. Anfonebwyd yr Awdurdod am £1,880k (£1,530k yn 2024/25) gan Network Rail yn 2025/26 ac ar 31 Mawrth 2026 roedd rhwymedigaeth o £3,242k (£dim ar 31 Mawrth 2025). Anfonebwyd Network Rail gan yr Awdurdod am £150,455k yn 2025/26 (£116,317k yn 2024/25) ac ar 31 Mawrth 2026 roedd £1,356k yn cael ei ddal fel swm derbyniadwy (£1,271k ar 31 Mawrth 2025). Mae'r holl symiau hyn yn daladwy ac yn dderbyniadwy o fewn 30 diwrnod ac nid yw llog yn daladwy arnynt.

Mae pob Prif Gwnstabl yn aelod o Fwrdd Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu. Anfonebwyd yr Awdurdod am £154k yn 2025/26 (£150k yn 2024/25) ac nid oedd unrhyw falansau heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn (£dim yn 2024/25). Ar 31 Mawrth 2026, roedd £2k yn ddyledus i Gyngor Prif Swyddogion yr Heddlu (£dim ar 31 Mawrth 2025). Mae'r holl symiau hyn yn daladwy ac yn dderbyniadwy o fewn 30 diwrnod ac nid yw llog yn daladwy arnynt.

Oherwydd ei statws fel Heddlu cenedlaethol, mae'r Awdurdod yn aml yn cynnal trafodiadau â'r Swyddfa Gartref. Felly, ystyrir y Swyddfa Gartref yn barti cysylltiedig. Anfonebodd yr Awdurdod y Swyddfa Gartref am £4,720k yn y flwyddyn ariannol gyfredol (£4,543k yn 2024/25). Ar 31 Mawrth 2026 roedd £dim yn ddyledus (£6k ar 31 Mawrth 2025). Mae'r Swyddfa Gartref wedi anfonebu'r Awdurdod am £2,402k (£2,153k yn 2024/25) yn y flwyddyn ariannol gyfredol. Ar 31 Mawrth 2026, roedd £10k yn ddyledus (£47k ar 31 Mawrth 2025). Mae'r holl symiau hyn yn daladwy ac yn dderbyniadwy o fewn 30 diwrnod ac nid yw llog yn daladwy arnynt.

Mae trefniadau llywodraethu corfforaethol yr Awdurdod yn ei gwneud yn ofynnol i aelodau ac uwch-swyddogion yr Awdurdod gofrestru buddiannau ariannol a buddiannau eraill a hefyd ddatgelu buddiannau personol neu ragfarnus pan drafodir materion yng nghyfarfodydd yr Awdurdod. Datgelir y buddiannau hyn isod:

Mae Rachael Etebar, Stuart Cundy a Sarah Church yn Aelodau o Bwyllgor Rheoli Cronfa Bensiwn yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn Railpen. Mae Sarah hefyd yn aelod o Adran yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig o Bwyllgor Rheoli Cynllun Bensiwn

y Rheilffyrdd. Yn ystod y flwyddyn, anfonebwyd yr Awdurdod gan Railpen am gostau gan gynnwys cyfraniadau cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig am £49,673k (£49,513k yn 2024/25). Ar 31 Mawrth 2026, roedd balans net o £0.9k mewn perthynas â balans credyd ar gyfer taliadau debyd uniongyrchol a wnaed ar 31 Mawrth (roedd £2k yn ddyledus yn 2024/25). Mae'r rhan fwyaf o'r symiau hyn yn daladwy drwy ddebyd uniongyrchol a chânt eu cymryd o fewn 7 diwrnod i'r hysbysiad.

Mae Emma Strain a Brian Lynch yn dal swyddi yn Trafnidiaeth Llundain (TfL) - Emma yw'r Cyfarwyddwr Cwsmeriaid, a Brian yw'r Pennaeth Gweithrediadau. Yn ystod y flwyddyn, anfonebodd yr Awdurdod TfL am £84,649k (£95,618k yn 2024/25). Anfonebwyd yr Awdurdod gan TfL yn ystod y flwyddyn am £2,168k (£4,819k yn 2024/25). Ar 31 Mawrth 2026, roedd balans symiau derbyniadwy net mewn credyd o £436k. Roedd hyn oherwydd dau nodyn credyd a oedd yn ddyledus i TfL (£739k) wedi'u gwrthbwyso gan groniad incwm o £303k (roedd £889k yn ddyledus ar 31 Mawrth 2025). Ar 31 Mawrth 2026, roedd rhwymedigaeth o £16,510k yn cael ei dal mewn cysylltiad â TfL, yr oedd y gyfran fwyaf o'r swm hwnnw yn rhwymedigaeth hawl-i-ddefnyddio (£dim ar 31 Mawrth 2025). At ddibenion datgelu, mae trafodiadau â London Underground Limited a Transport Trading Limited wedi'u cynnwys yn y gwerthoedd hyn. Mae'r holl symiau hyn yn daladwy ac yn dderbyniadwy o fewn 30 diwrnod ac nid yw llog yn daladwy arnynt.

Mae Paula Carter yn Ynad Heddwch yng Ngwasanaethau Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF, Cangen De-ddwyrain Llundain. Yn ystod y flwyddyn, roedd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF wedi anfonebu'r Awdurdod am £15k (£12k yn 2024/25) - mae'r taliadau hyn mewn perthynas â llysoedd yn Llundain yn unig. Mae'r holl symiau hyn yn daladwy drwy ddebydau uniongyrchol ac nid yw llog yn daladwy arnynt. Cafodd yr Awdurdod £4k gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF drwy daliadau adennill y llys (£1k yn 2024/25) - mae'r rhain yn ymwneud â llysoedd yn Llundain yn unig. Ar 31 Mawrth 2026, nid oedd unrhyw symiau yn ddyledus (£dim ar 31 Mawrth 2025).

Mae Dyan Perry yn Gyfarwyddwr Anweithredol yn Network Rail. Gweler y nodyn uchod o dan Network Rail am fanylion trafodiadau yn ystod y flwyddyn gyfredol.

Mae Ian Drummond-Smith wedi'i secondio o Heddlu Dyfnaint a Chernyw. Yn ystod y flwyddyn, anfonebodd yr Awdurdod Heddlu Dyfnaint a Chernyw am £18k (£2k yn 2024/25) ac anfonebodd Heddlu Dyfnaint a Chernyw yr Awdurdod am £206k (£58k yn 2024/25). Ar 31 Mawrth 2026, roedd £16k yn ddyledus gan Heddlu Dyfnaint a Chernyw (£dim yn 2024/25). Ar 31 Mawrth 2026, roedd rhwymedigaeth o £25k (£15k yn 2024/25). Mae'r holl symiau hyn yn daladwy ac yn dderbyniadwy o fewn 30 diwrnod ac nid yw llog yn daladwy arnynt.

Abdul Elghedafi yw Dirprwy Bennaeth Cyfreithiol Awdurdod Gwastraff Gogledd Llundain (a gyflogir gan Gyngor Bwrdeistref Camden Llundain). Yn ystod y flwyddyn, anfonebodd yr Awdurdod Gyngor Camden am £dim (£20k yn 2024/25) ac anfonebodd Cyngor Camden yr Awdurdod am £dim (£dim yn 2024/25). Mae Abdul hefyd yn Uwch-diwtor ym Mhrifysgol Aberdeen. Yn ystod y flwyddyn, anfonebwyd yr Awdurdod gan Brifysgol Aberdeen am £2k (dim yn 2024/25). Ar 31 Mawrth 2026, nid

oedd unrhyw symiau yn ddyledus (£dim ar 31 Mawrth 2025). Mae'r holl symiau hyn yn daladwy ac yn dderbyniadwy o fewn 30 diwrnod ac nid yw llog yn daladwy arnynt.

Alexia Course yw Prif Swyddog Masnachol Trafnidiaeth Cymru. Yn ystod y flwyddyn, anfonebodd yr Awdurdod Trafnidiaeth Cymru am £7,969k (£6,768k yn 2024/25) ac anfonebodd Trafnidiaeth Cymru yr Awdurdod am £67k (£67k yn 2024/25). Ar 31 Mawrth 2026, roedd £67k yn ddyledus gan Trafnidiaeth Cymru (£19k yn 2024/25). Ar 31 Mawrth 2026, roedd £4k yn ddyledus i Trafnidiaeth Cymru (£dim yn 2024/25). Mae'r holl symiau hyn yn daladwy ac yn dderbyniadwy o fewn 30 diwrnod ac nid yw llog yn daladwy arnynt.

Mae Hugh Ind yn Gyfarwyddwr Gwasanaeth Digidol yr Heddlu. Yn ystod y flwyddyn, anfonebwyd yr Awdurdod gan Wasanaeth Digidol yr Heddlu am £74k (£334k yn 2024/25). Ar 31 Mawrth 2026, roedd £2k yn ddyledus i Wasanaeth Digidol yr Heddlu (£dim ar 31 Mawrth 2025). Mae'r holl symiau hyn yn daladwy ac yn dderbyniadwy o fewn 30 diwrnod ac nid yw llog yn daladwy arnynt.

* Mae cyfrifiad y gwerthoedd derbyniadwy a'r rhwymedigaethau wedi'i ddiweddaru yn 2025/26 i gynnwys yr holl rwymedigaethau a chroniadau perthnasol. Mewn blynyddoedd blaenorol, dim ond gwerthoedd a oedd yn weddill yn y llyfr gwerthu a phrynu oedd yn cael eu cynnwys yn y balansau hyn. Nid yw datgeliadau cymharol wedi'u hailddatgan ac o ganlyniad nid ydynt weithiau'n uniongyrchol gymharol.

22 Cronfeydd Wrth Gefn

Enillion sy'n cael eu dargadw yw'r cronfeydd dosbarthadwy, sydd hefyd yn cynnwys y gronfa cyllid cyfalaf wrth gefn, y gronfa cyfalaf gweithio wrth gefn a'r gronfa hapdddigwyddiad wrth gefn. Mae'r cronfeydd annosbarthadwy wrth gefn yn cynnwys y gronfa ailbrisio wrth gefn a'r gronfa bensiwn wrth gefn.

	Cronfeydd Dosbarthadwy Wrth Gefn	Cronfeydd Annosbarthadwy Wrth Gefn		
	Enillion a ddargedwir £000	Cronfa ailbrisio wrth gefn £000	Cronfa bensiwn wrth gefn £000	Cyfanswm £000
Balans agoriadol ar 01 Ebrill 2024	**44,942**	**17,967**	**(16,109)**	**46,800**
Enillion/(colledion) ar ailbrisio asedau	-	1,458	-	1,458
Ennill/(colled) actiwaraidd	-	-	194,630	194,630
Incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn	(23,206)	-	-	(23,206)
Ailddosbarthu	-	-	-	-
Trosglwyddo rhwng cronfeydd wrth gefn	19,827	(3,757)	(16,070)	-
Balans terfynol ar 31 Mawrth 2025	**41,563**	**15,668**	**162,451**	**219,682**
Balans agoriadol ar 01 Ebrill 2025	**41,563**	**15,668**	**162,451**	**219,682**
Enillion/(colledion) ar ailbrisio asedau	-	662	-	662
Ennill/(colled) actiwaraidd	-	-	106,920	106,920
Incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn	2,023	-	-	2,023
Ailddosbarthu	2	-	-	2
Cyllid grant yr Adran Drafnidiaeth wedi'i gydnabod*	382	-	-	382
Trosglwyddo rhwng cronfeydd wrth gefn	(4,836)	(2,734)	7,570	-
Balans terfynol ar 31 Mawrth 2026	**39,134**	**13,596**	**276,941**	**329,671**

* Mae hwn yn gymorth grant a ddarperir drwy gyllid yr Adran Drafnidiaeth (y parti rheoli) ar gyfer Ymgyrch Overhand a Strydoedd Diogelach.

Enillion a ddargedwir/Cronfeydd dosbarthadwy wrth gefn

Y cronfeydd enillion a ddargedwir yw gwargedion/diffygion gweithredu cronnus yr Awdurdod yn y gorffennol o daliadau Cytundebau Gwasanaeth yr Heddlu a godwyd ar Ddeiliaid Cytundebau Gwasanaeth yr Heddlu. Caiff colledion gweithredu eu cario ymlaen a chaiff gwargedion eu dargadw a'u hailfuddsoddi yn y busnes craidd a mentrau penodol y cytunwyd arnynt.

Cronfa ailbrisio wrth gefn

Y gronfa ailbrisio wrth gefn yw'r ailddatganiadau cronnus o eiddo, offer a chyfarpar gan ddefnyddio'r mynegeion costio hanesyddol addasedig perthnasol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer y categori o ased. Ar 1 Ebrill 2025, trosglwyddwyd y gwarged ailbrisio o £1.7 miliwn a ddaliwyd ar gyfer asedau anniriaethol i gronfeydd cyffredinol wrth gefn yn dilyn newidiadau Trysorlys EF i brisiadau asedau.

Cronfa bensiwn wrth gefn

Y gronfa bensiwn wrth gefn yw ochr arall yr ased pensiwn a nodir yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.

23 Datgelu buddiannau ymddeol

Adlewyrchir y costau pensiwn a'r llog net yn y datganiad o incwm cynhwysfawr a dangosir cyfanswm y rhwymedigaethau pensiwn net ar gyfer yr holl staff, rhai blaenorol a phresennol, yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, yn glir o werth teg asedau'r cynllun. Mae Trysorlys EF wedi cadarnhau na ddylid cynnwys y tâl na'r credyd i'r datganiad o incwm cynhwysfawr sy'n deillio o IAS19 wrth gyfrifo'r swm i'w adennill oddi wrth bartïon sydd â Chytundebau Gwasanaeth yr Heddlu â'r Awdurdod.

Mae'r gronfa yn cymryd rhan mewn dau gynllun pensiwn buddiannau diffiniedig, y mae'r naill a'r llall yn gyfrifoldeb uniongyrchol yr Awdurdod. Hefyd, mae gan Railpen rôl i'w chwarae mewn perthynas â rheoli a gweinyddu'r cynllun. Mae cynllun pensiwn y swyddogion, sef Cronfa Bensiwn yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, yn cynnwys dwy adran lle mae gan aelodau yr hawl i gael buddiannau cyflog terfynol ac un adran atall lle mae gan aelodau yr hawl i gael buddiannau yn seiliedig ar enillion cyfartalog gyrfa. Mae'r cynllun wedi bodoli ers tua 15 mlynedd. Cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig arall yr Awdurdod yw Adran yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig o Gynllun Pensiwn y Rheilffyrdd, sy'n darparu buddiannau i aelodau yn seiliedig ar gyflog terfynol. Mae'r cynllun wedi bodoli ers tua 23 mlynedd a bu ar gau i ymunwyr newydd ers 1 Hydref 2023. Mae'r ddau gynllun yn anelu at gael eu hariannu'n llawn. O 1 Hydref 2023, gall staff ymuno â'r trefniant Cyfraniadau Diffiniedig Pensiwn Personol Grŵp â Royal London.

Mae'r Awdurdod yn ymwybodol bod ymchwiliadau i faterion gweinyddol hanesyddol yn mynd rhagddynt yn Railpen. Mae'r mwyafrif o'r materion a nodwyd ar hyn o bryd yn ymwneud â phroses a chyfathrebu, yn hytrach na phrisiadau o fuddiannau neu rwymedigaethau. Bydd yr Awdurdod yn parhau i ymgysylltu â Railpen ar y gwaith sy'n mynd rhagddo i ymchwilio a datrys.

Mae'r Awdurdod wedi penodi actiwari corfforaethol XPS i gefnogi'r dewis o ragdybiaethau ariannol yn ogystal â chefnogi'r cyfrifiadau technegol o dan IAS 19 a ddefnyddiwyd wrth gwblhau'r datgeliad canlynol. Mae'r gyfradd gyfatebol sengl o gromlin arenillion AA ICE Bank of America ("Merrill Lynch" gynt) wedi'i chymhwyso ar gyfer y rhagdybiaeth ynghylch y gyfradd ddisgowntio; dull cyson o ymdrin â blynyddoedd cyfrifyddu blaenorol. Mae'r gyfradd ddisgowntio hon wedi cynyddu o 5.75% yn 2024/25 i 6.10% yn 2025/26, yn bennaf o ganlyniad i'r hinsawdd economaidd. Mae cynnydd ar y lefel hon yn cael effaith fawr ar yr ased pensiwn dyma

brif achos y cynnydd sylweddol yn yr ased ar gyfer y ddau gynllun y flwyddyn hon. Roedd gan Gynllun Pensiwn y Rheilffyrdd a Chronfa Bensiwn yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig wargedion yn unol â dehongliad IAS 19 (IFRIC 14). Ceir rhagor o fanylion am gydnabod y gwarged yn Nodyn 2.19.

Pennir y cyfraddau cyfrannu a chyllido ar gyfer adran Cynllun Pensiwn y Rheilffyrdd yn unol â rheolau'r cynllun; a chytunwyd ar y fath gyfradd ag y mae'r Cyflogwr Dynodedig a'r Ymddiriedolwr yn cytuno ei bod yn briodol yn amodol ar gadarnhad yr Actwari bod y cyfraddau diwygiedig yn ddigon i sicrhau solfedd yr Adran. Pennir Cyfradd Gyfrannu Ar y Cyd Gwasanaeth yn y Dyfodol fel y gyfradd gyllido hirdymor a bennir gan yr Actwari. Cwblhawyd prisiad actiwaraidd 2022 o adran BTP o Gynllun Pensiwn y Rheilffyrdd a nododd warged cyllido bach o £0.5 miliwn yn yr hirdymor. O ganlyniad, gostyngodd cyfraddau cyfrannu mewn perthynas â chroniadau yn y dyfodol o 1 Gorffennaf 2024 ymlaen. Oherwydd y diffyg a gododd fel rhan o brisiad 2019, mae'r Awdurdod wedi cytuno o'r blaen i wneud cyfandaliadau unigol o £1.27 miliwn bob blwyddyn tan 2026. Bydd y camau gweithredu hyn yn sicrhau bod yr adran wedi'i chyllido'n ddigonol ar gyfer gofynion y dyfodol. Pe bai'r cynllun byth yn cael ei ddirwyn i ben, byddai rheolau'r cynllun yn cael eu cymhwyso sy'n cwmpasu'r drefn flaenoriaeth ar gyfer darparu buddiannau pe bai diffyg neu warged.

Cwblhawyd prisiad actiwaraidd 2024 o Gronfa Bensiwn yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a nododd warged cyllido o £333 miliwn yn yr hirdymor. Mae cyfraniadau'r Awdurdod a'r aelodau wedi aros yn ddigyfnewid.

Mae'r Awdurdod wedi cael cyngor cyfreithiol ynghylch a yw achos yr Arglwydd Ganghellor v McCloud ac Eraill [2018] EWCA a'r newidiadau deddfwriaethol canlyniadol a gyflwynwyd i unioni'r gwahaniaethu ar sail oedran sy'n deillio o gynllun pensiwn y sector cyhoeddus yn gymwys i Gronfa Bensiwn yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig. Mae'r cyngor cyfreithiol a gafwyd yn dod i'r casgliad nad yw'n gwneud hynny, nac ychwaith y rheoliadau unioni a gyflwynwyd gan y llywodraeth i unioni'r driniaeth wahaniaethol ers hynny.

Cafodd Ymddiriedolwr Cynllun Pensiwn y Rheilffyrdd gyngor cyfreithiol ar ôl penderfyniad y Llys Apêl yn Virgin Media Ltd v NTL Pension Trustees II Ltd ac Eraill (25 Gorffennaf 2024). Mae'r cyngor cyfreithiol a gafwyd yn dod i'r casgliad nad oes unrhyw oblygiadau i Gynllun Pensiwn y Rheilffyrdd o ganlyniad i'r dyfarniad.

Cyfeiriwch at yr adran ar fuddiannau pensiwn yn yr adroddiad cydnabyddiaeth am gyd-destun pellach.

Roedd sefyllfa net y cynlluniau ar 31 Mawrth 2026 fel a ganlyn:

	2025/26 £'000	2024/25 £'000
Ased/(rhwymedigaeth) pensiwn net		
Cronfa Bensiwn yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig	223,909	113,289
Adran yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig o Gynllun Pensiwn y Rheilffyrdd	53,032	49,162
	276,941	**162,451**

Mae'r symiau a gydnabyddir yn y datganiad o incwm cynhwysfawr fel a ganlyn:*

	2025/26 £'000	2024/25 £'000
Costau pensiwn a adlewyrchir yn y datganiad o incwm cynhwysfawr		
Cost Gwasanaeth Cyfredol – Cronfa Bensiwn yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig	22,870	31,310
Cost Gwasanaeth Cyfredol – Cynllun Pensiwn y Rheilffyrdd	6,090	10,110
Treuliau gweinyddol a threthi – Cronfa Bensiwn yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig	1,720	2,240
Treuliau gweinyddol a threthi – Cynllun Pensiwn y Rheilffyrdd	550	1,090
	31,230	**44,750**

	2025/26 £'000	2024/25 £'000
Llog IAS19 a adlewyrchir yn y datganiad o incwm cynhwysfawr		
Llog Net – Cronfa Bensiwn yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig	(7,060)	800
Llog Net – Cynllun Pensiwn y Rheilffyrdd	(3,030)	(630)
	(10,090)	**170**
Cyfanswm y swm a gydnabyddir yn y datganiad o incwm cynhwysfawr	**21,140**	**44,920**

* Nid yw taliadau cymorth y Llywodraeth wedi'u cynnwys yn y datganiad o incwm cynhwysfawr am eu bod wedi'u dileu o gyfrifiad IAS19 o gost gyffredinol y pensiynau, ac mae'n briodol cynnwys rhagdybiaeth o gymorth y Llywodraeth yn y prisiad actiwaraidd o'r rhwymedigaeth pensiwn.

Addasiad pensiwn IAS 19 a nodwyd yn y datganiad o lifau arian parod (SoCF)

Caiff elfennau nad ydynt yn arian parod sy'n gysylltiedig â'r cynllun pensiwn eu didynnu o'r gwariant net yn unol â'r datganiad o lifau arian parod (SoCF) i ddangos sefyllfa arian parod gyffredinol yr Awdurdod. Mae cost llog IAS 19 wedi'i dileu'n llawn. Mae'r addasiad arall ar gyfer taliadau pensiwn yn dileu'r gwahaniaeth rhwng y costau pensiwn heblaw am log a adlewyrchir yn y datganiad o incwm cynhwysfawr (fel y'i dangosir yn y tabl isod) a chyfraniadau'r cyflogwyr a delir i'r cynlluniau ym mhob blwyddyn.

	Nodyn	2025/26 £'000	2024/25 £'000
Cronfa Bensiwn yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig			
Cost gwasanaeth cyfredol	23D	22,870	31,310
Treuliau gweinyddol a threthi	23D	1,720	2,240
		24,590	**33,550**
Cynllun Pensiwn y Rheilffyrdd			
Cost gwasanaeth cyfredol	23D	6,090	10,110
Treuliau gweinyddol a threthi	23D	550	1,090
		6,640	**11,200**
Cyfanswm treuliau incwm a gwariant		**31,230**	**44,750**
Llai cyfraniadau'r cyflogwr			
- Cyfraniadau'r cyflogwr Cronfa Bensiwn yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig	23B	20,820	20,660
- Cyfraniadau'r cyflogwr Cynllun Pensiwn y Rheilffyrdd (gan gynnwys arian cyfatebol BRASS*)	23B	7,890	8,190
Cyfanswm cyfraniadau'r cyflogwr		**28,710**	**28,850**
Cyfanswm addasiad pensiwn IAS 19 a nodwyd yn y datganiad o lifau arian parod		**2,520**	**15,900**

* Cynllun Pensiwn Ychwanegol British Rail (BRASS).

Cronfa Bensiwn yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig

A. Newid mewn rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig

	2025/26 £'000	2024/25 £'000
Rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol	1,486,222	1,685,252
Cost gwasanaeth cyfredol	22,870	31,310
Traul llog	83,820	80,310
Llifau arian parod		
– Taliadau buddiannau o'r cynllun	(71,590)	(72,920)
– Cyfraniadau'r cyfranogwyr	13,880	13,790
Ailfesuriadau		
– Effaith newidiadau mewn rhagdybiaethau ariannol	(18,460)	(243,610)
– Effaith ar newidiadau mewn rhagdybiaethau demograffig	(8,370)	(1,950)
– Effaith addasiadau profiad	(46,490)	(5,960)
Rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig ar ddiwedd y flwyddyn	**1,461,882**	**1,486,222**

B. Newidiadau yng ngwerth teg asedau'r cynllun

	2025/26 £'000	2024/25 £'000
Gwerth teg asedau'r cynllun ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol	1,599,511	1,659,621
Incwm Llog	90,880	79,510
Llifau arian parod		
– Cyfraniadau'r cyflogwr	20,820	20,660
– Taliadau cymorth gan y llywodraeth	-	-
– Cyfraniadau'r cyfranogwyr	13,880	13,790
– Taliadau buddiannau o'r cynllun	(71,590)	(72,920)
– Treuliau gweinyddol a dalwyd o asedau'r cynllun	(1,720)	(2,240)
Enillion ar asedau'r cynllun (heb gynnwys incwm llog)	34,010	(98,910)
Gwerth teg asedau'r cynllun ar ddiwedd y flwyddyn	**1,685,791**	**1,599,511**

C. Symiau a gydnabyddir yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol

	2025/26 £'000	2024/25 £'000
Rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig	1,461,882	1,486,222
Gwerth teg asedau'r cynllun	(1,685,791)	(1,599,511)
(Ased)/rhwymedigaeth net	**(223,909)**	**(113,289)**

D. Elfennau cost buddiannau diffiniedig

	2025/26 £'000	2024/25 £'000
Cost Gwasanaeth		
– Cost gwasanaeth cyfredol	22,870	31,310
Cyfanswm cost gwasanaeth	**22,870**	**31,310**
Cost llog net		
– traul llog ar rwymedigaeth buddiannau diffiniedig	83,820	80,310
– llog (incwm) ar asedau'r cynllun	(90,880)	(79,510)
Cyfanswm cost llog net	**(7,060)**	**800**
Treuliau gweinyddol a threthi	1,720	2,240
Cost buddiannau diffiniedig sydd wedi'i chynnwys yn y datganiad o incwm cynhwysfawr	**17,530**	**34,350**
Ailfesuriadau (a gydnabyddir mewn incwm cynhwysfawr arall)		
– Effaith ar newidiadau mewn rhagdybiaethau demograffig	(8,370)	(1,950)
– Effaith newidiadau mewn rhagdybiaethau ariannol	(18,460)	(243,610)
– Effaith addasiadau profiad	(46,490)	(5,960)
– Enillion ar asedau'r cynllun (heb gynnwys incwm llog)	(34,010)	98,910
Cyfanswm yr ailfesuriadau sydd wedi'u cynnwys mewn incwm cynhwysfawr arall	**(107,330)**	**(152,610)**
Cyfanswm cost buddiannau diffiniedig a gydnabyddir yn y datganiad o incwm cynhwysfawr ac incwm cynhwysfawr arall	**(89,800)**	**(118,260)**

Mae'r Awdurdod yn disgwyl mai'r gost gwasanaeth ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2027 fydd £23.00 miliwn (31 Mawrth 2026: £22.87 miliwn).

E. Cysoni rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig net (ased)

	2025/26 £'000	2024/25 £'000
Rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig net agoriadol (ased)	(113,289)	25,631
Cost buddiannau diffiniedig sydd wedi'i chynnwys yn y datganiad o incwm cynhwysfawr	17,530	34,350
Cyfanswm yr ailfesuriadau sydd wedi'u cynnwys mewn incwm cynhwysfawr arall	(107,330)	(152,610)
Cyfraniadau'r cyflogwr	(20,820)	(20,660)
Rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig net (ased) ar ddiwedd y flwyddyn	**(223,909)**	**(113,289)**

Mae'r ased wedi cynyddu o 2024/25, yn bennaf yn seiliedig ar y cynnydd yn y gyfradd ddisgowntio fel y manylir arno yn Nodyn 23H.

F. Rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig

	2025/26 £'000	2024/25 £'000
Rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig yn ôl statws cyfranogwr		
– Aelodau gweithredol	446,487	572,923
– Gohiriadau breintiedig	107,434	93,768
– Ymddeoledigion	907,965	819,531
Cyfanswm	**1,461,886**	**1,486,222**

G. Dadansoddiad o asedau'r cynllun

Unedoli:

Mae gwerthoedd yr asedau a ddatgelir yn adlewyrchu amlygiad yr Awdurdod i ddosbarthiadau asedau sylfaenol drwy ddaliadau unedau o'r cronfeydd cronedig lle mae'r asedau sylfaenol yn cael eu dal. Caiff asedau sylfaenol eu rheoli gan y gweinyddwr pensiynau, Railpen, a sefydlir y rheolaeth dros fuddiannau economaidd i'r Awdurdod drwy unedoli'r cronfeydd hynny. Defnyddiwyd y tabl isod i ddangos yr asedau sylfaenol sy'n gymesur â daliadau uned yr Awdurdod mewn amrywiol gronfeydd cyfunol, a'u safle yn hierarchaeth gwerth teg yr asedau sylfaenol. Mae asedau Lefel 1 a 2 yn cynnwys Cronfeydd Wedi'u Masnachu ar Gyfnewidfa amrywiol sy'n cael eu prisio yn ôl prisiau masnachu agored; mae Lefel 3 yn cynnwys eiddo, ecwiti preifat ac ecwiti Cyfryngau Buddsoddi Cyfunol nad ydynt yn rhai sy'n cael eu masnachu ar gyfnewidfa. Trafodir hyn isod ac mae'n ymwneud ag eiddo uniongyrchol anhylifol ac ecwiti a ddelir yn uniongyrchol yng nghronfeydd cyfunol Railpen.

Cronfa Bensiwn yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig	2025/26				2024/25
	Gwerth teg Lefel 1 £ miliwn	Lefel 2 £ miliwn	Lefel 3 £ miliwn	Cyfanswm £ miliwn	Cyfanswm £ miliwn
Cyfryngau Buddsoddi Cyfunol Ecwiti Preifat a Chyfryngau Buddsoddi Cyfunol nad ydynt yn cael eu masnachu ar gyfnewidfa	-	-	150.12	**150.12**	**370.17**
Ecwitïau	516.64	-	232.57	**749.21**	**549.55**
Arian parod ac asedau cyfredol	164.43	-	-	**164.43**	**118.55**
Gwarannau Llog Sefydlog	0.57	165.67	10.13	**176.37**	**119.29**
Gwarannau Mynegeiol	187.69	24.47	-	**212.16**	**206.82**
Deilliadau - Dyfodol	13.31	-	-	**13.31**	**4.07**
Deilliadau - Contractau FX	(6.31)	-	-	**(6.31)**	**4.69**
Eiddo yn y DU	-	-	19.32	**19.32**	**31.28**
Cyfryngau Buddsoddi Cyfunol	62.94	25.69	115.67	**204.30**	**191.71**
Arall	-	-	2.88	**2.88**	**3.38**
Gwerth teg asedau'r cynllun	**939.27**	**215.83**	**530.69**	**1,685.79**	**1,599.51**
Gwerth presennol rhwymedigaethau a gyllidwyd				**(1,461.88)**	**(1,486.22)**
(Rhwymedigaeth)/ased net				**223.91**	**113.29**

Oherwydd natur dosbarth asedau Lefel 3 mae ansicrwydd cynhenid yn y prisiad. Mae'r tabl isod yn dangos effaith newid o 5% mewn dosbarthiadau asedau Lefel 3 penodol a chyfanswm portffolio asedau pob cynllun.

Cronfa Bensiwn yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig	2025/26		
	Newid yng ngwerth dosbarth ased	Canran y newid yng nghyfanswm gwerth asedau'r cynllun	Newid yn y diffyg
Ecwiti preifat a -Chyfryngau Buddsoddi Cyfunol nad ydynt yn cael eu masnachu ar gyfnewidfa	£ miliwn	0.45%	(7.51)
	-5%	-0.45%	7.51
Eiddo yn y DU	+5%	0.06%	(0.97)
	-5%	-0.06%	0.97
Cyfanswm asedau'r cynllun	+5%	5.00%	(84.29)
		-5.00%	84.29

H. Rhagdybiaethau actiwaraidd arwyddocaol

Rhagdybiaethau cyfartalog wedi'u pwysoli i bennu rhwymedigaethau buddiannau	2025/26	2024/25
Cyfradd ddisgowntio	6.10%	5.75%
Cyfradd chwyddiant prisiau (RPI)*	3.25%	3.00%
Cyfradd chwyddiant prisiau (CPI)*	3.05%	2.80%
Cyfradd cynnydd mewn cyflogau**	3.05%	2.80%
Cyfradd cynnydd mewn pensiynau	3.05%	2.80%

* Mae'r model actiwaraidd yn defnyddio'r Mynegai Prisiau Manwerthu a'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Defnyddir y Mynegai Prisiau Manwerthu i amcangyfrif cynnydd mewn prisiau a defnyddir y Mynegai Prisiau Defnyddwyr i amcangyfrif cynnydd mewn buddiannau. Ar 4 Medi 2019, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai'n ymgynghori ar gynigion Awdurdod Ystadegau'r DU i fod yn gyson â'r Mynegai Prisiau Manwerthu â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr erbyn 2030. Ar 25 Tachwedd 2020, cyhoeddodd Trysorlys EF ac Awdurdod Ystadegau'r DU eu hymateb ar y cyd mewn perthynas â'r ymgynghoriad ar ddiwygio methodoleg y Mynegai Prisiau Manwerthu. Cadarnhaodd hyn y bydd y Mynegai Prisiau Manwerthu yn cael ei gysoni â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr o fis Chwefror 2030 ymlaen, sy'n debyg o ran dehongli a chyfrifo i'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Er mwyn adlewyrchu hyn, o 20/21 ymlaen newidiodd yr Awdurdod ddeilliad rhagdybiaeth chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr i fod 1% y flwyddyn yn is na chwyddiant y Mynegai Prisiau Manwerthu ar gyfer y cyfnod hyd at 2030 a 0% y flwyddyn yn is na chwyddiant y Mynegai Prisiau Manwerthu ar gyfer y cyfnod o 2030. Mae hyn yn arwain at un didyniad cyfatebol o 0.25% y flwyddyn o ragdybiaeth chwyddiant y Mynegai Prisiau Manwerthu i ddeillio rhagdybiaeth chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr.

** Mae rhagdybiaethau ynghylch cynnydd mewn cyflogau wedi aros yn unol ag amcangyfrif gorau cychwynnol o gynnydd mewn cyflogau am gyfnod o amser ac yna'n unol â chwyddiant wedi hynny. Felly, caniatawyd ar gyfer cynnydd byrdymor o 2.50% mewn cyflogau am y flwyddyn gyntaf yn dilyn y dyddiad mesur, yna 2.00% am yr ail i'r bumed flwyddyn wedi hynny. Mae cyfradd y cynnydd mewn cyflogau ar ôl y cyfnod hwnnw yn unol â'r cynnydd yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Ar y ddau ddyddiad mesur, cymhwysir graddfa ddyrchafu yn ogystal â chyfradd y cynnydd mewn cyflogau a ddangosir uchod.

Os bydd y rhagdybiaethau o ran chwyddiant yn lleihau 50 pwynt sylfaen, yna byddai'r effaith gyffredinol ar sefyllfa cyllido'r cynlluniau pensiwn yn welliant o £111m ar 31 Mawrth 2026. O'r swm hwn, mae £90m yn ymwneud â Chronfa Bensiwn yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ac mae £21m yn ymwneud ag Adran Cost a Rennir yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig o Gynllun Pensiwn y Rheilffyrdd.

Disgwyliadau oes tybiedig wrth ymddeol yn 65 oed	2025/26	2024/25
Yn ymddeol heddiw – Gwrywod	21.8	21.6
Yn ymddeol heddiw – Benywod	24.7	24.0
Yn ymddeol ymhen 20 mlynedd – Gwrywod	23.8	22.9
Yn ymddeol ymhen 20 mlynedd – Benywod	26.1	25.4

Taliadau buddiannau disgwyliedig yn y dyfodol o'r gronfa, yn seiliedig ar ddata o brisiad ffurfiol 2021 a rhagdybiaethau IAS 19 31 Mawrth 2026:	2025/26 £ million	2024/25 £ million
Disgwylir i'r buddiannau gael eu talu o fewn 12 mis	74.00	73.00
Disgwylir i'r buddiannau gael eu talu rhwng 2 a 3 blynedd	150.00	147.00
Disgwylir i'r buddiannau gael eu talu rhwng 4 a 6 blynedd	239.00	235.00
Disgwylir i'r buddiannau gael eu talu rhwng 7 a 10 mlynedd	349.00	339.00
Disgwylir i'r buddiannau gael eu talu rhwng 11 a 15 mlynedd	472.00	465.00
Disgwylir i'r buddiannau gael eu talu ymhen dros 15 mlynedd	3,875.00	3,491.00

I. Dadansoddiad Sensitifrwydd

Mae'r tabl isod yn dangos effaith newidiadau i ragdybiaethau i'r (ased) / diffyg pensiwn net

Rhwymedigaeth (ased) net, heb gynnwys effaith unrhyw derfyn asedau	2025/26 £ miliwn	2024/25 £ miliwn
Sylfaen	**(223.91)**	**(113.29)**
Cyfradd ddisgowntio		
Cyfradd ddisgowntio - 25 pwynt sylfaen	55.12	56.62
– Rhagdybiaeth	5.85%	5.50%
Cyfradd ddisgowntio + 25 pwynt sylfaen	(51.78)	(53.19)
– Rhagdybiaeth	6.35%	6.00%
Cyfradd chwyddiant		
Cyfradd chwyddiant - 50 pwynt sylfaen	(90.29)	(95.07)
– Rhagdybiaeth	2.55%	2.30%
Cyfradd chwyddiant + 50 pwynt sylfaen	98.46	104.43
– Rhagdybiaeth	3.55%	3.30%
Marwolaethau		
Marwolaethau	40.05	39.41
– Rhagdybiaeth	Sgôr oedran plws blwyddyn	Sgôr oedran plws blwyddyn

Ceir rhagor o fanylion am sensitifrwydd yn y tabl isod:

Dadansoddiad o'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol net (SoFE)	£ miliwn	Sensitifrwydd o Flwyddyn Ariannol Sylfaen (BA) 2026 (newidiodd un eitem gyda phob peth arall yn gyson)					
	BA 2025	BA Sylfaen 2026	Cyfradd ddisgowntio minws 0.25%	Cyfradd ddisgowntio plws 0.25%	Cyfradd chwyddiant minws 0.5%	Cyfradd chwyddiant plws 0.5%	Sensitifrwydd marwolaethau
Gwerth teg asedau'r cynllun	1,599.51	1,685.79	1,685.79	1,685.79	1,685.79	1,685.79	1,685.79
Gwerth presennol rhwymedigaethau buddiannau	1,486.22	1,461.88	1,517.01	1,410.10	1,371.59	1,560.34	1,501.94
Rhwymedigaeth (ased) net, heb gynnwys effaith unrhyw derfyn asedau	**(113.29)**	**(223.91)**	**(168.78)**	**(275.69)**	**(314.20)**	**(125.45)**	**(183.85)**

Dadansoddiad o gost pensiwn ragamcanedig	£ miliwn	Sensitifrwydd o BA Sylfaen 2027 (newidiwyd un eitem gyda phob peth arall yn gyson)					
	BA wirioneddol 2026	BA Sylfaen 2027	Cyfradd ddisgowntio minws 0.25%	Cyfradd ddisgowntio plws 0.25%	Cyfradd chwyddiant minws 0.5%	Cyfradd chwyddiant plws 0.5%	Sensitifrwydd marwolaethau
Cost gwasanaeth cyfredol	22.87	23.00	25.94	21.63	20.16	27.87	24.27
Cost llog	83.82	87.44	87.08	87.74	81.94	93.44	89.88
Incwm llog ar asedau'r cynllun	(90.88)	(101.67)	(97.51)	(105.84)	(101.67)	(101.67)	(101.67)
Treuliau gweinyddol a threthi	1.72	1.72	1.72	1.72	1.72	1.72	1.72
Cyfanswm cost pensiwn cyn terfyn ased	**17.53**	**10.49**	**17.23**	**5.25**	**2.15**	**21.36**	**14.20**

Rhagdybiaethau actiwaraidd	BA 2025	BA Sylfaen 2026	Cyfradd ddisgowntio minws 0.25%	Cyfradd ddisgowntio plws 0.25%	Cyfradd chwyddiant minws 0.5%	Cyfradd chwyddiant plws 0.5%	Sensitifrwydd marwolaethau
Cyfradd ddisgowntio	5.75%	6.10%	5.85%	6.35%	6.10%	6.10%	6.10%
Rhagdybiaeth cyfradd y Mynegai Prisiau Manwerthu	3.00%	3.25%	3.25%	3.25%	2.75%	3.75%	3.25%
Rhagdybiaeth cyfradd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr	2.80%	3.05%	3.05%	3.05%	2.55%	3.55%	3.05%
Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau*	2.80%	3.05%	3.05%	3.05%	2.55%	3.55%	3.05%
Cyfradd y cynnydd mewn pensiynau	2.80%	3.05%	3.05%	3.05%	2.55%	3.55%	3.05%

Tabl Marwolaethau	Yn unol â'r prisiad actiwaraidd ar 31 Rhagfyr 2021 ond heb gynnwys meintiau ar gyfer darbodusrwydd a lwfans COVID-19, a chan ddefnyddio model Mynegai Rheoli Costau 2023 gyda gwelliannau hirdymor o 1.25% y flwyddyn ac ychwanegiad cychwynnol o 0.2%	Yn unol â'r prisiad actiwaraidd ar 31 Rhagfyr 2024 ond heb gynnwys meintiau ar gyfer darbodusrwydd, a chan ddefnyddio model Mynegai Rheoli Costau 2025 gyda gwelliannau hirdymor o 1.75% y flwyddyn i wrywod ac 1.25% y flwyddyn i fenywod ac ychwanegiad cychwynnol o 0.2% a pharamedr hanner oes covid o 1	Yn unol â'r prisiad actiwaraidd ar 31 Rhagfyr 2024 ond heb gynnwys meintiau ar gyfer darbodusrwydd, a chan ddefnyddio model Mynegai Rheoli Costau 2025 gyda gwelliannau hirdymor o 1.75% y flwyddyn i wrywod ac 1.25% y flwyddyn i fenywod ac ychwanegiad cychwynnol o 0.2% a pharamedr hanner oes covid o 1 ynghyd â sgôr oedran o flwyddyn

Nodiadau: Mae pob ffigur mewn miliynau. Mae'r rhagolygon cychwynnol hyn o dreuliau pensiwn yn sensitif iawn i newidiadau yn amodau'r farchnad ac ni ddylid dibynnu arnynt heb gyngor pellach.

* Caniateir ar gyfer cynnydd byrdymor o 3% mewn cyflogau am y ddwy flynedd gyntaf a 2.5% am y flwyddyn ganlynol. Yna bydd yn cynyddu ar y gyfradd dybiedig o gynnydd mewn cyflogau wedi hynny.

Adran yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig o Gynllun Pensiwn y Rheilffyrdd

A. Newid mewn rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig

	2025/26 £000	2024/25 £000
Rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol	215,109	260,779
Cost gwasanaeth cyfredol	6,090	10,110
Traul llog	12,270	12,600
Llifau arian parod		
– Taliadau buddiannau o'r cynllun	(7,890)	(6,860)
– Cyfraniadau'r cyfranogwyr	4,430	4,620
Ailfesuriadau		
– Effaith newidiadau mewn rhagdybiaethau ariannol	(640)	(55,640)
– Effaith addasiadau profiad	2,240	(9,570)
– Effaith ar newidiadau mewn rhagdybiaethau demograffig	4,350	(930)
Rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig ar ddiwedd y flwyddyn	**235,959**	**215,109**

B. Newidiadau yng ngwerth teg asedau'r cynllun

	2025/26 £000	2024/25 £000
Gwerth teg asedau'r cynllun ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol	264,271	270,301
Incwm Llog	15,300	13,230
Llifau arian parod		
– Cyfraniad y cyflogwr (gan gynnwys arian cyfatebol BRASS)	7,890	8,190
– Cyfraniadau'r cyfranogwyr	4,430	4,620
– Taliadau buddiannau o'r cynllun	(7,890)	(6,860)
– Treuliau gweinyddol a dalwyd o asedau'r cynllun	(550)	(1,090)
Enillion ar asedau'r cynllun (heb gynnwys incwm llog)	5,540	(24,120)
Gwerth teg asedau'r cynllun ar ddiwedd y flwyddyn	**288,991**	**264,271**

C. Symiau a gydnabyddir yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol (SoFE)

	2025/26 £000	2024/25 £000
Rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig	235,959	215,109
Gwerth teg asedau'r cynllun	(288,991)	(264,271)
Ased net	**(53,032)**	**(49,162)**

D. Elfennau cost buddiannau diffiniedig

	2025/26 £000	2024/25 £000
Cost Gwasanaeth		
Cost gwasanaeth cyfredol	6,090	10,110
Cyfanswm cost gwasanaeth	**6,090**	**10,110**
Cost llog net		
– traul llog ar rwymedigaeth buddiannau diffiniedig	12,270	12,600
– llog (incwm) ar asedau'r cynllun	(15,300)	(13,230)
Cyfanswm cost llog net	**(3,030)**	**(630)**
Treuliau gweinyddol a threthi	550	1,090
Cost buddiannau diffiniedig sydd wedi'i chynnwys yn y datganiad o incwm cynhwysfawr	**3,610**	**10,570**
Ailfesuriadau (a gydnabyddir mewn incwm cynhwysfawr arall)		
– Effaith newidiadau mewn rhagdybiaethau ariannol	(640)	(55,640)
– Effaith addasiadau profiad	2,240	(9,570)
– Enillion ar asedau'r cynllun (heb gynnwys incwm llog)	(5,540)	24,120
– Adenillion/(colledion) mesur net - demograffig	4,350	(930)
Effaith cyfyngiad ar asedau a gofyniad cyllido sylfaenol IAS	-	-
Cyfanswm yr ailfesuriadau sydd wedi'u cynnwys mewn incwm cynhwysfawr arall	**410**	**(42,020)**
Cyfanswm cost buddiannau diffiniedig a gydnabyddir yn y datganiad o incwm cynhwysfawr ac incwm cynhwysfawr arall	**4,020**	**(31,450)**

Mae'r Awdurdod yn disgwyl mai'r gost gwasanaeth ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2027 fydd £6.09 miliwn (31 Mawrth 2026: £10.11 miliwn).

E. Cysoni rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig net (ased)

	2025/26 £000	2024/25 £000
Rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig net agoriadol (ased)	**(49,162)**	**(9,522)**
Effaith newidiadau mewn rhagdybiaethau demograffig	3,610	10,570
Cyfanswm cost buddiannau diffiniedig a gydnabyddir yn y datganiad o incwm cynhwysfawr ac incwm cynhwysfawr arall	410	(42,020)
Cyfraniadau'r cyflogwr	(7,890)	(8,190)
Rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig net (ased) ar ddiwedd y flwyddyn	**(53,032)**	**(49,162)**

Mae'r ased wedi cynyddu o 2024/25, yn bennaf yn seiliedig ar y cynnydd yn y gyfradd ddisgowntio fel y manylir arno yn Nodyn 23H.

F. Rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig

	2025/26 £000	2024/25 £000
Rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig yn ôl statws cyfranogwr		
– Aelodau gweithredol	111,711	93,574
– Gohiriadau breintiedig	74,867	70,746
– Ymddeoledigion	49,381	50,789
Cyfanswm	**235,959**	**215,109**

G. Dadansoddiad o asedau'r cynllun

Unedoli

Mae gwerthoedd yr asedau a ddatgelir yn adlewyrchu amlygiad yr Awdurdod i ddosbarthiadau asedau sylfaenol drwy ddaliadau unedau o'r cronfeydd cronedig lle mae'r asedau sylfaenol yn cael eu dal. Caiff asedau sylfaenol eu rheoli gan y gweinyddwr pensiynau, Railpen, a sefydlir y rheolaeth dros fuddiannau economaidd i'r Awdurdod drwy unedoli'r cronfeydd hynny. Defnyddiwyd y tabl isod i ddangos yr asedau sylfaenol sy'n gymesur â daliadau uned yr Awdurdod mewn amrywiol gronfeydd cyfunol, a'u safle yn hierarchaeth gwerth teg yr asedau sylfaenol. Mae asedau Lefel 1 a 2 yn cynnwys Cronfeydd Wedi'u Masnachu ar Gyfnewidfa amrywiol sy'n cael eu prisio yn ôl prisiau masnachu agored; mae Lefel 3 yn cynnwys eiddo, ecwiti preifat ac ecwiti Cyfryngau Buddsoddi Cyfunol nad ydynt yn rhai sy'n cael eu masnachu ar gyfnewidfa. Trafodir hyn isod ac mae'n ymwneud ag eiddo uniongyrchol anhylifol ac ecwiti a ddelir yn uniongyrchol yng nghronfeydd cyfunol Railpen.

Cynllun Pensiwn y Rheilffordd	2025/26 Gwerth teg Lefel 1 £ miliwn	Lefel 2 £ miliwn	Lefel 3 £ miliwn	2025/26 Cyfanswm £ miliwn	2024/25 Cyfanswm £ miliwn
Cyfryngau Buddsoddi Cyfunol Ecwiti Preifat a Chyfryngau Buddsoddi Cyfunol nad ydynt yn cael eu masnachu ar gyfnewidfa	-	-	21.47	**21.47**	**51.75**
Ecwitïau	78.64	-	32.61	**111.25**	**80.57**
Arian parod ac asedau cyfredol	22.40	-	-	**22.40**	**16.82**
Gwarannau Llog Sefydlog	0.09	23.30	1.11	**24.50**	**17.12**
Gwarannau Mynegeiol	6.45	0.65	-	**7.10**	**5.02**
Deilliadau – Dyfodol	2.03	-	-	**2.03**	**0.61**
Deilliadau – Contractau FX	(0.96)	-	-	**(0.96)**	**0.70**
Eiddo yn y DU	-	-	1.50	**1.50**	**2.42**
Cyfryngau Buddsoddi Cyfunol	9.58	72.51	17.61	**99.70**	**89.26**
Arall	-	-	-	**-**	**-**
Gwerth teg asedau'r cynllun	**118.23**	**96.46**	**74.30**	**288.99**	**264.27**
Gwerth presennol rhwymedigaethau a gyllidwyd				**(235.96)**	**(215.11)**
(Rhwymedigaeth)/ased net				**53.03**	**49.16**

Oherwydd natur dosbarth asedau Lefel 3 mae ansicrwydd cynhenid yn y prisiad. Mae'r tabl isod yn dangos effaith newid o 5% mewn dosbarthiadau asedau Lefel 3 penodol a chyfanswm portffolio asedau pob cynllun

Cynllun Pensiwn y Rheilffordd	2025/26 Newid mewn gwerth	Newid Canrannol	Newid yn y diffyg
Ecwiti preifat a Chyfryngau Buddsoddi Cyfunol nad ydynt yn cael eu masnachu ar gyfnewidfa	£ miliwn	0.37%	(1.07)
	-5%	-0.37%	1.07
Eiddo yn y DU	+5%	0.03%	(0.07)
	-5%	-0.03%	0.07
Cyfanswm asedau'r cynllun	+5%	5.00%	(14.45)
		-5.00%	14.45

H. Rhagdybiaethau actiwaraidd arwyddocaol

Rhagdybiaethau cyfartalog wedi'u pwysoli i bennu rhwymedigaethau buddiannau	2025/26	2024/25
Cyfradd ddisgowntio	6.10%	5.75%
Cyfradd chwyddiant prisiau (RPI)*	3.25%	3.00%
Cyfradd chwyddiant prisiau (CPI)*	3.05%	2.80%
Cyfradd cynnydd/(gostyngiad) mewn cyflogau**	3.05%	2.80%
Cyfradd cynnydd mewn pensiynau	3.05%	2.80%

* Mae'r model actiwaraidd yn defnyddio'r Mynegai Prisiau Manwerthu a'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Defnyddir y Mynegai Prisiau Manwerthu i amcangyfrif cynnydd mewn prisiau a defnyddir y Mynegai Prisiau Defnyddwyr i amcangyfrif cynnydd mewn buddiannau. Ar 4 Medi 2019, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai'n ymgynghori ar gynigion Awdurdod Ystadegau'r DU i fod yn gyson â'r Mynegai Prisiau Manwerthu â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr erbyn 2030. Ar 25 Tachwedd 2020, cyhoeddodd Trysorlys EF ac Awdurdod Ystadegau'r DU eu hymateb ar y cyd mewn perthynas â'r ymgynghoriad ar ddiwygio methodoleg y Mynegai Prisiau Manwerthu. Cadarnhaodd hyn y bydd y Mynegai Prisiau Manwerthu yn cael ei gysoni â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr o fis Chwefror 2030 ymlaen, sy'n debyg o ran dehongli a chyfrifo i'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Er mwyn adlewyrchu hyn, ers 20/21, mae'r Awdurdod wedi newid y ffordd y mae'r rhagdybiaeth ynglŷn â chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn cael ei deillio i fod 1% y flwyddyn yn is na chwyddiant y Mynegai Prisiau Manwerthu ar gyfer y cyfnod hyd at 2030 a 0% y flwyddyn yn is na chwyddiant y Mynegai Prisiau Manwerthu ar gyfer y cyfnod o 2030 ymlaen. Mae hyn yn arwain at un didyniad cyfatebol o 0.25% y flwyddyn o ragdybiaeth chwyddiant y Mynegai Prisiau Manwerthu i ddeillio rhagdybiaeth chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr.

** Mae rhagdybiaethau ynghylch cynnydd mewn cyflogau wedi aros yn unol ag amcangyfrif gorau cychwynnol o gynnydd mewn cyflogau am gyfnod o amser ac yna'n unol â chwyddiant wedi hynny. Felly, caniatawyd ar gyfer cynnydd byrdymor mewn cyflogau ar gyfer pob blwyddyn o'r 5 mlynedd yn dilyn y dyddiad mesur. Mae cyfradd y cynnydd mewn cyflogau ar ôl y cyfnod hwnnw yn unol â'r cynnydd yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Ar y ddau ddyddiad mesur, cymhwysir graddfa ddyrchafu yn ogystal â chyfradd y cynnydd mewn cyflogau a ddangosir uchod.

Os bydd y rhagdybiaethau o ran chwyddiant yn lleihau 50 pwynt sylfaen, yna byddai'r effaith gyffredinol ar sefyllfa cyllido'r cynlluniau pensiwn yn welliant o £111m ar 31 Mawrth 2026. O'r swm hwn, mae £90m yn ymwneud â Chronfa Bensiwn yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ac mae £21m yn ymwneud ag Adran Cost a Rennir yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig o Gynllun Pensiwn y Rheilffyrdd.

Disgwyliadau oes tybiedig wrth ymddeol yn 65 oed yw:	2025/26	2024/25
Yn ymddeol heddiw – Gwrywod	21.2	20.3
Yn ymddeol heddiw – Benywod	23.0	22.7
Yn ymddeol ymhen 20 mlynedd – Gwrywod	23.2	21.7
Yn ymddeol ymhen 20 mlynedd – Benywod	24.5	24.3

Taliadau buddiannau disgwyliedig yn y dyfodol o'r gronfa, yn seiliedig ar ddata o brisiad ffurfiol drafft 2022 a rhagdybiaethau IAS 19 31 Mawrth 2026:

	2025/26 £ miliwn	2024/25 £ miliwn
Disgwylir i'r buddiannau gael eu talu o fewn 12 mis	7.00	7.00
Disgwylir i'r buddiannau gael eu talu rhwng 2 a 3 blynedd	18.00	15.00
Disgwylir i'r buddiannau gael eu talu rhwng 4 a 6 blynedd	31.00	26.00
Disgwylir i'r buddiannau gael eu talu rhwng 7 a 10 mlynedd	50.00	42.00
Disgwylir i'r buddiannau gael eu talu rhwng 11 a 15 mlynedd	78.00	66.00
Disgwylir i'r buddiannau gael eu talu ymhen dros 15 mlynedd	744.00	653.00

Mae'r tabl isod yn dangos effaith newidiadau i ragdybiaethau i'r ased pensiwn net

I. Dadansoddiad Sensitifrwydd

Rhwymedigaeth (ased) net, heb gynnwys effaith unrhyw derfyn asedau	2025/26 £ miliwn	2024/25 £ miliwn
Sylfaen	**(53.03)**	**(49.16)**
Cyfradd ddisgowntio		
Cyfradd ddisgowntio - 25 pwynt sylfaen	13.45	12.21
– Rhagdybiaeth	5.85%	5.50%
Cyfradd ddisgowntio + 25 pwynt sylfaen	(12.53)	(11.37)
– Rhagdybiaeth	6.35%	6.00%
Cyfradd chwyddiant		
Cyfradd chwyddiant - 50 pwynt sylfaen	(21.38)	(19.58)
– Rhagdybiaeth	2.55%	2.30%
Cyfradd chwyddiant + 50 pwynt sylfaen	24.12	22.11
– Rhagdybiaeth	3.55%	3.30%
Marwolaethau		
Marwolaethau	5.45	5.44
– Rhagdybiaeth	Sgôr oedran plws blwyddyn	Sgôr oedran plws blwyddyn

Ceir rhagor o fanylion am sensitifrwydd yn y tabl isod:

Dadansoddiad o'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol net	£ miliwn	Sensitifrwydd o Flwyddyn Ariannol Sylfaen (BA) 2026 (newidiodd un eitem gyda phob peth arall yn gyson)					
	BA 2025	BA Sylfaen 2026	Cyfradd ddisgowntio minws 0.25%	Cyfradd ddisgowntio plws 0.25%	Cyfradd chwyddiant minws 0.5%	Cyfradd chwyddiant plws 0.5%	Sensitifrwydd marwolaethau
Gwerth teg asedau'r cynllun	264.27	288.99	288.99	288.99	288.99	288.99	288.99
Gwerth presennol rhwymedigaethau buddiannau	215.11	235.96	249.41	223.43	214.58	260.08	241.41
Rhwymedigaeth (ased) net, heb gynnwys effaith unrhyw derfyn asedau	**(49.16)**	**(53.03)**	**(39.58)**	**(65.56)**	**(74.41)**	**(28.91)**	**(47.58)**

Dadansoddiad o gost pensiwn ragamcanedig	£ miliwn	Sensitifrwydd o BA Sylfaen 2027 (newidiwyd un eitem gyda phob peth arall yn gyson)					
	BA wirioneddol 2026	BA Sylfaen 2027	Cyfradd ddisgowntio minws 0.25%	Cyfradd ddisgowntio plws 0.25%	Cyfradd chwyddiant minws 0.5%	Cyfradd chwyddiant plws 0.5%	Sensitifrwydd marwolaethau
Cost gwasanaeth cyfredol	6.09	7.58	8.33	6.88	6.55	8.73	7.81
Cost llog	12.27	14.29	14.49	14.08	12.99	15.76	14.62
Incwm llog ar asedau'r cynllun	(15.30)	(17.75)	(17.02)	(18.47)	(17.74)	(17.74)	(17.74)
Treuliau gweinyddol a threthi	0.55	0.55	0.55	0.55	0.55	0.55	0.55
Cyfanswm cost pensiwn cyn terfyn ased	**3.61**	**4.67**	**6.35**	**3.04**	**2.35**	**7.30**	**5.24**

Rhagdybiaethau actiwaraidd	BA 2025	BA Sylfaen 2026	Cyfradd ddisgowntio minws 0.25%	Cyfradd ddisgowntio plws 0.25%	Cyfradd chwyddiant minws 0.5%	Cyfradd chwyddiant plws 0.5%	Sensitifrwydd marwolaethau
Cyfradd ddisgowntio	5.75%	6.10%	5.85%	6.35%	6.10%	6.10%	6.10%
Rhagdybiaeth cyfradd y Mynegai Prisiau Manwerthu	3.00%	3.25%	3.25%	3.25%	2.75%	3.75%	3.25%
Rhagdybiaeth cyfradd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr	2.80%	3.05%	3.05%	3.05%	2.55%	3.55%	3.05%
Cyfradd cynnydd mewn cyflogau	2.80%	3.05%	3.05%	3.05%	2.55%	3.55%	3.05%

Tabl Marwolaethau	Yn unol â chanlyniadau'r prisiad actiwaraidd ar 31 Rhagfyr 2022 ond heb gynnwys addasiad COVID-19 a defnyddio model Mynegai Rheoli Costau 2023 gyda gwelliannau hirdymor o 1.25% y flwyddyn ac ychwanegiad cychwynnol o 0.2% o 2022 ymlaen	Yn unol â phrisiad 2022 o Gynllun Pensiwn y Rheilffyrdd, heb gynnwys lwfans ar gyfer COVID 19. Gan ddefnyddio'r model Mynegai Rheoli Costau diweddaraf, gyda'r ychwanegiad cychwynnol a'r gyfradd gwella hirdymor yn unol â'r rhagdybiaethau amcangyfrif gorau o adroddiad XPS Analytics a gyflawnwyd ar gyfer prisiad 2024 o Gronfa Bensiwn yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig.	Yn unol â phrisiad 2022 o Gynllun Pensiwn y Rheilffyrdd, heb gynnwys lwfans ar gyfer COVID 19. Gan ddefnyddio'r model Mynegai Rheoli Costau diweddaraf, gyda'r ychwanegiad cychwynnol a'r gyfradd gwella hirdymor yn unol â'r rhagdybiaethau amcangyfrif gorau o adroddiad XPS Analytics a gyflawnwyd ar gyfer prisiad 2024 o Gronfa Bensiwn yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig. Addaswyd i roi disgwyliad oes â blwyddyn ychwanegol o 2022 ymlaen

Nodiadau: Mae pob ffigur mewn miliynau. Mae'r rhagolygon cychwynnol hyn o dreuliau pensiwn yn sensitif iawn i newidiadau yn amodau'r farchnad ac ni ddylid dibynnu arnynt heb gyngor pellach.

* Caniateir ar gyfer cynnydd byrdymor o 3% mewn cyflogau am y ddwy flynedd gyntaf a 2.5% am y flwyddyn ganlynol. Yna bydd yn cynyddu ar y gyfradd dybiedig o gynnydd mewn cyflogau wedi hynny.

Ar y ddau ddyddiad mesur, cymhwysir graddfa ddyrchafu yn ogystal â chyfradd y cynnydd mewn cyflogau a ddangosir uchod.

COVID 19

Mae'r Awdurdod yn ymwybodol y gall risgiau sy'n deillio o effaith pandemig COVID-19 effeithio ar ein dadansoddiad. Ar wahân i swyddogaeth droshaen Mynegai Rheoli Costau 2025 sy'n modelu'r cynnydd a'r cwymp dilynol mewn cyfraddau marwolaethau oherwydd pandemig COVID-19 (paramedr hanner oes) nid oes unrhyw feintiau pellach wedi'u cymhwyso i'r dadansoddiad hwn i adlewyrchu'r risg hon.

24 Cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig

Gweinyddir y cynllun hwn gan Royal London, a chynllun pensiwn personol grŵp ydyw, sydd ar gael i holl staff yr heddlu. Cynllun cyfraniadau diffiniedig ydyw, sy'n cynnig yr hyblygrwydd i gyflogeion amrywio eu cyfraniadau pensiwn o 4.4% o'u cyflog. Mae BTP hefyd yn gwneud cyfraniadau at y pensiwn.

Ar 31 Mawrth 2026, roedd gan y cynllun 486 o aelodau gweithredol. Mae pob cyflogai yn cael ei roi yn y cynllun ar gyfradd ddiofyn o 4.4% ar gyfer cyfraniad y cyflogai a chyfradd o 6.6% ar gyfer cyfraniad y cyflogwr. Mae cyfraniadau'r cynllun yn gyfraniad o 60:40 rhwng y cyflogwr a'r cyflogai. Bydd y cyflogwr yn cyfateb cyfraniadau hyd at uchafswm o 8.4% a rhaid i'r cyflogai dalu o leiaf 5.6% i fod yn gymwys i gael cyfradd uchaf y cyflogwr. Nid oes cap ar ganran y cyfraniadau gan gyflogeion, ond mae cyfraniadau'r cyflogwr wedi'u capio ar 8.4%.

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026, roedd cyfraniadau o £236k yn daladwy gan y cyflogwr. Yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2026, cyfanswm cost net pensiynau oedd £2.5 miliwn.

25 Digwyddiadau ar ôl y dyddiad adrodd

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau i'w nodi. Awdurdodwyd y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi ar y dyddiad yr ardystiwyd y cyfrifon gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

BTPA
British Transport Police Authority

ISBN: 978-1-5286-6842-2

E03619359